

Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol

Adroddiad Prosiect yr Arsyllfa Polisi

Canolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Mehefin 2014

Awduron yr adroddiad

Yr Athro David Egan

Dr Linda McConnon

Dr Russell Grigg

Lizzie Swaffield

Mae Canolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg yn ganolfan bolisi ac ymchwil cymhwysol cenedlaethol sydd wedi ymroi i wella cydraddoldeb addysg yng Nghymru. Mae'n fenter ar y cyd rhwng Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Mae'r Arsyllfa Polisi yn brosiect ar y cyd rhwng Canolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg, y pedwar Consortia Addysg Rhanbarthol yng Nghymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Cyswllt

Canolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg

Prifysgol Cymru

Rhodfa'r Brenin Edward VII

Caerdydd, CF10 3NS

02920376961

wcee@uwtsd.ac.uk

ISBN digidol 978 1 4734 2380 0

© Hawlfraint y Goron

WG22911

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Cefndir	3
3.	Methodoleg	4
3.1	Cynllun yr ymchwil	4
3.2	Themâu astudiaethau achos	4
3.3	Sampl	6
3.4	Y drefn samplu	7
3.5	Gwahoddiad i gymryd rhan	9
3.6	Cyfranogwyr	9
3.7	Moeseg	9
3.8	Casglu data astudiaeth achos	10
3.9	Cywirdeb	11
4.	Canfyddiadau	12
	Adroddiadau astudiaeth achos	14
1.	Ysgol Babanod Glan Gele	14
2.	Ysgol y Dderi	23
3.	Ysgol Gyfun Pencoed	34
4.	Ysgol Hen Felin	44
5.	Ysgol Uwchradd Tywyn	53
6.	Ysgol Gyfun Oakdale	59
7.	Ysgol Gyfun Bishop Gore	71
8.	Ysgol Bassaleg	78
9.	Ysgol Gynradd Mount Stuart	91
10.	Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Ngyumru St. Mark	102
11.	Partneriaeth Gymunedol Ysgolion Ffederasiwn Trelái Caerau	112
12.	Strategaeth a Chynllun Cyflawni Magu Plant Sir y Fflint	125

1. Cyflwyniad

Mae goresgyn effeithiau byw mewn tlodi yn un o'r heriau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu plant a phobl ifanc wrth ennill y sgiliau a chymwysterau a all wella eu cyfleoedd bywyd. Mae'r rhesymau dros y sefyllfa hon yn gymhleth ond mae tystiolaeth oddi wrth Estyn, ymchwil addysgol ac arfer proffesiynol yn awgrymu y gall ysgolion sy'n gweithio gyda rhieni, teuluoedd a'r gymuned ehangach lwyddo i oresgyn y sefyllfa.¹

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi ei ddatblygu a'i gyflwyno gan Ganolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn seiliedig ar brosiect ar y cyd dan arweiniad Consortiwm Canolbarth y de ar ran y pedwar Consortia Addysg Rhanbarthol yng Nghymru² a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i sefydlu Arsyllfa Polisi.

Nod yr Arsyllfa Polisi yw cyfrannu at ddatblygu corff cadarn o dystiolaeth y gellir ei defnyddio gan ysgolion, y Consortia Addysg Rhanbarthol, a Llywodraeth Cymru i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad.

Mae'r Arsyllfa wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Addysg a Sgiliau, meysydd polisi eraill Llywodraeth Cymru (Cymunedau yn Gyntaf yn arbennig), a'r trydydd sector (trwy Dasglu Gwrthdlodi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru³), Estyn a sefydliadau eraill. Mae wedi sicrhau bod ei waith yn cyd-fynd â'r gwerthusiad parhaus o'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) sy'n cael ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru.

¹ Estyn (2012) *Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion*, Caerdydd: Estyn. Yn fwy diweddar mae'r arolygiaeth wedi cyhoeddi defnyddiau hyfforddiant i ysgolion. Gweler Estyn (2014) *Hyrwyddo arfer dda wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais*, Caerdydd: Estyn; Egan, D. (2012) *Communities, Families and Schools Together*, London, Save the Children; Egan, D. (2013) *Poverty and low educational achievement in Wales: student, family and community interventions*, York: Joseph Rowntree Foundation; Kintrea, K., St Clair, R. and Houston, M. (2011) *The influence of parents, places and poverty on educational attitudes and aspirations*, York: Joseph Rowntree Foundation.

² Gogledd Cymru, De Orllewin a Chanolbarth Cymru; De Ddwyrain Cymru; a Chanolbarth De Cymru.

³ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

2. Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru (2012) yn ymroddedig i atal tlodi yng Nghymru a lleihau ei effaith ar fywydau plant a phobl ifanc⁴. Elfen allweddol o strategaeth y Llywodraeth yw cau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol sy'n gysylltiedig â thlodi.

Mae'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau wedi adnabod lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol fel ei flaenoriaeth fawr ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae'r flaenoriaeth genedlaethol hon wedi cael ei symud ymlaen trwy nifer o fentrau polisi sy'n rhyngberthyn, gydag ysgolion yn cael eu hariannu i ymgymryd ag ymyriadau trwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgol (GEY) a'r Grand Amddifadedd Disgyblion (GAD).

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu fframweithiau ar gyfer ei dwy flaenoriaeth addysg genedlaethol arall sy'n canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd. Mae'r fframweithiau hyn yn ymgrynhoi arfer effeithiol a, gyda chymorth Rhaglen Gymorth Genedlaethol, mae'n ceisio gwneud yr arfer hwn yn sail ym mhob ysgol.

Mae cyngor Llywodraeth Cymru (2013) i ysgolion ac awdurdodau lleol ar y ffordd orau i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth Tlodi, wedi canolbwyntio ar sut i ddefnyddio'r grantiau GEY a GAD⁵ yn y ffyrdd mwyaf effeithiol. Mae'r canllaw'n tynnu ar dystiolaeth gan Estyn ac ymchwil addysgol.⁶ Yn ddiweddar mae ysgolion wedi gallu paru eu defnydd o'r GAD gyda chyllid sydd ar gael iddyn nhw trwy Cymunedau yn Gyntaf. Mae Canolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg hefyd wedi cyhoeddi adnodd i ysgolion ac arweinwyr addysg yn ddiweddar ar ddefnydd effeithiol o'r GAD.⁷

Mae'r Arsyllfa Polisi wedi cael ei datblygu yn unol â'r canllaw hwn ac mae hefyd yn tynnu ar waith Grŵp Strategol⁸ er Lleihau Cyrhaeddiad Isel a sefydlwyd gan Gonsortium Addysg Canolbarth y De. Mae'r Grŵp hwn o'r farn gadarn y byddai ysgolion mewn lle gwell i fynd i'r afael â'r Flaenoriaeth hon petai'r canllaw a ddarparir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth seiliedig ar lwyddiant cyfredol yng Nghymru a thrwy dreialu'r ymyriadau addawol, gyda'r nod o brofi eu heffeithiolrwydd.

⁴ Llywodraeth Cymru (2012) *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodin 2012-2016*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

⁵ Llywodraeth Cymru (2013) *Grant Effeithiolrwydd Ysgol a Grant Amddifadedd Disgyblion 2013 –2015*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

⁶ Estyn (2011) *Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: gweithio gyda'r gymuned a gwasanaethau eraill*, Caerdydd: Estyn; Estyn (2012) *Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion*, Caerdydd: Estyn; Estyn (2013) *Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol*, Caerdydd: Estyn.

⁷ Egan, D, Saunders, D. a Swaffield, L. (2014) *Gwneud Defnydd Effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion*, Caerdydd, Prifysgol Cymru.

⁸ Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd, awdurdodau lleol, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a sefydliadau trydydd sector yn y rhanbarth.

3. Methodoleg

3.1 Cynllun yr ymchwil


Mae'r ymchwil hon wedi ei chynllunio i adnabod, ar sail meini prawf tystiolaeth gadarn, arfer effeithiol sy'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r Arsyllfa Bolisi yn cyflawni dwy elfen wahanol ond cyflenwol:

- Astudiaethau achos o arfer effeithiol ble mae effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol wedi ei leihau mewn cyd-destun ysgol, teulu a chymuned.
- Model ar gyfer treialu ymyriadau addawol yn y dyfodol a all arwain at ddatblygu sail tystiolaeth gadarn y gellid ei ddefnyddio gan ysgolion, y Consortia Addysg Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

Mae'r astudiaethau achos yn cynnwys enghreifftiau o arfer sydd wedi eu tynnu o gyd-destun ysgol, teulu a chymuned. Mae'r rhain mewn fformat cyffredin yn Gymraeg a Saesneg ac ar gael ar wefan Dysgu Cymru.

3.2 Themâu astudiaethau achos

Cafodd yr astudiaethau achos eu hysgrifennu o gwmpas tair thema sydd yn perthyn i'w gilydd yn gyffredinol: arweinyddiaeth, addysgu ac ymgysylltu â rhieni (Ffigwr 1). Mae'r lleoliadau ar gyfer yr astudiaethau achos yn canolbwyntio'n glir iawn ar wella cyrhaeddiad a lles disgyblion. Roedd defnydd effeithiol o ddata yn is-thema yn codi o arweinyddiaeth ac addysgu.



Ffigwr 1. Prif themâu'r astudiaethau achos

Mae Tabl 1 yn crynhoi'r pwyntiau canolog sy'n cysylltu â'r prif themâu ym mhob astudiaeth achos. Mae'r arweinwyr ac athrawon ym mhob astudiaeth achos wedi

Ileihau a/neu gau'r bwllch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (PYADd) a'r rhai sydd ddim (dim PYADd)

Thema	Lleoliad Astudiaeth Achos	Canolbwynt	Meini Prawf Dewis
Arweinyddiaeth	Ysgol Babanod Glan Gele, Conwy	Cynllunio strategol i fynd i'r afael ag effaith tlodi	- Disgyblion PYADd yn uwch eu cyrhaeddiad na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen - Ysgol Babanod a Meithrin
	Ysgol y Dderi, Ceredigion	Defnyddio data i adnabod a rhoi cymorth i ddisgyblion sy'n disgyn ar ei hôl hi	- Disgyblion PYADd CA2 yn perfformio'n well na disgyblion dim PYADd dros y 5 mlynedd diwethaf - Ysgol cyfrwng Cymraeg
	Ysgol Gyfun Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr	Defnyddio data i gefnogi dyheadau pobl ifanc ac i ganfod a rhoi cymorth i ddisgyblion sy'n disgyn ar ei hôl hi	Mae'r bwllch cyrhaeddiad rhwng disgyblion PYADd a dim PYADd wedi lleihau'n sylweddol yn CA4
	Ysgol Arbennig Hen Felin, Rhondda Cynon Taf	Datblygu gweithlu trwy hyfforddi staff, hunan werthuso ac arweinyddiaeth ddosbarthedig	- Gwelliant o 1 dyfarniad 'GRADDFA P' o leiaf i bob plentyn trwy gydol y flwyddyn academaidd - Ysgol Arbennig
	Ysgol Uwchradd Tywyn, Gwynedd	Adnabod disgyblion isel eu cyrhaeddiad a datblygu ystod o strategaethau i wella eu perfformiad	Dros y 5 mlynedd diwethaf disgyblion PYADd wedi cyflawni'n llawer uwch na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol yn CA3 a CA4
	Ysgol Gyfun Oakdale, Caerffili	Datblygu fframwaith i gefnogi perthnasau o ansawdd uchel a lles dysgwyr	Mae'r bwllch cyrhaeddiad rhwng disgyblion PYADd a dim PYADd wedi lleihau'n sylweddol yn CA3 a CA4
Addysgu a Dysgu	Ysgol Gyfun Bishop Gore, Abertawe	Cefnogi disgyblion isel eu cyrhaeddiad i gyrraedd eu graddau targed	Dros y 5 mlynedd diwethaf cyrhaeddiad disgyblion PYADd yn llawer uwch na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol yn CA3 a CA4
	Ysgol Gyfun Bassaleg, Casnewydd	Adborth, dysgu gan gymheiriaid a sgiliau meddwl dysgwyr	Dros y 5 mlynedd diwethaf mae'r bwllch cyrhaeddiad rhwng disgyblion PYADd a dim PYADd wedi ei gau
Ymgysylltu â Rhieni	Ysgol Gynradd Mount Stuart, Caerdydd	Ymgysylltu â rhieni a theuluoedd i oresgyn rhwystrau diwylliannol	Disgyblion PYADd CA2 yn perfformio'n well na disgyblion dim PYADd dros y 5 mlynedd diwethaf
	Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru St. Mark	Ymgysylltu â rhieni i gefnogi lles plant agored i niwed	Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae disgyblion PYADd y Cyfnod Sylfaen a CA1 wedi perfformio'n well na disgyblion dim PYADd
	Partneriaeth Gymunedol Ysgolion Ffederasiwn Trelái Caerau, Caerdydd	Cryfhau cysylltiadau gyda chymunedau, ymgysylltu â'r teulu a rhieni	Gwelliannau sylweddol ym mhresenoldeb disgyblion
	Strategaeth a Chynllun Cyflawni Magu Plant Sir y Fflint	Cryfhau cysylltiadau gyda chymunedau, ymgysylltu a'r teulu a rhieni	Dros y 5 mlynedd diwethaf, cyrhaeddiad disgyblion PYADd yn llawer uwch na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol yn CA3 a CA4

Tabl 1. Crynodeb o bwyntiau canolog astudiaethau achos

3.3 Sampl

Fe dynnodd y Tîm Prosiect ar y corff cadarn o ymchwil sydd wedi ei datblygu trwy dystiolaeth ymchwil ac arolygiad o'r ffordd orau o leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Derbyniodd y tîm ymchwil ddata dechreuol meintiol, cyd-destunol a seiliedig ar ganlyniadau ar 1576 o Ysgolion Cynradd ac Uwchradd o bob rhan o Gymru (gweler Tabl 2).

Consortia Addysg Rhanbarthol	Nifer ysgolion a gynhwysir yn y sampl data dechreuol
Gogledd Cymru	434
De Orllewin a Chanolbarth Cymru	449
De Ddwyrain Cymru	243
Canolbarth De Cymru	450
Cyfanswm	1576

Tabl 2: Sampl Data Dechreuol- Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

Yn ogystal â'r sampl dechreuol hwn o 1576 ysgol, er mwyn bod yn deg a chynhwysol, fe ofynnodd y tîm am ddata cyd-destunol ac arfer gorau gan Ysgolion Arbennig a Phrosiectau Addysg Seiliedig yn y Gymuned o bob rhan o Gymru. Cafodd ymateb gan 25 lleoliad gan gynyddu cyfanswm y sampl i 1601 (gweler Tabl 3).

Math o Ysgol neu Brosiect	Addysg Cyfanswm yr ysgolion o fewn y sampl data
Cynradd	1360
Uwchradd	216
Arbennig	2
Cymunedol	23
Cyfanswm	1601

Tabl 3: Sampl Data Cynhwysol- Math a Rhif

3.4 Y drefn samplu

Rhoddodd pob un o'r pedwar Consortia Addysg Rhanbarthol ddata cyd-destunol a pherfformiad i'r tîm ymchwil a gafodd ei gasglu rhwng blynyddoedd academiaidd 2008/9 a 2012/13. Cafodd pob ysgol - cynradd ac uwchradd ledled Cymru eu cynnwys yn yr ymarfer cwmpasu dadansoddol.

Roedd data'n cynnwys:

- Enw'r Ysgol
- Cyfanswm y disgyblion ar y gofrestr
- % cyfartalog nifer y disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim (PYADd) dros 5 mlynedd
- % cyfartalog nifer y disgyblion ddim yn derbyn prydau ysgol am ddim (dim PYADd) yn cyflawni:
Cyfnod Allweddol 1 DPC⁹ 2008-2011 a DCS¹⁰ 2011-2013
Cyfnod Allweddol 2 DPC
Cyfnod Allweddol 3 DPC
Cyfnod Allweddol 4 Trothwy Lefel 2 Cynhwysol¹¹
- % cyfartalog nifer y disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim yn cyflawni:
Cyfnod Allweddol 1 DPC 2008-2011 a DCS 2011-2013
Cyfnod Allweddol 2 DPC
Cyfnod Allweddol 3 DPC
Cyfnod Allweddol 4 Trothwy Lefel 2 Cynhwysol

I ddechrau roedd y drefn cwmpasu'n cynnwys didoli ysgolion yn ôl 'Cyfnod Allweddol' o fewn pob Consortiwm. Yna cafodd y data meintiol ei brofi yn erbyn tri maen prawf sylfaenol:

1. R
hif canran cyfartalog y disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim 2008/9-2013.
2. Rhif canran cyfartalog y disgyblion (yn derbyn, neu ddim yn derbyn prydau ysgol am ddim) yn cyflawni Dangosyddion Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol a Throthwy Lefel 2 Cynhwysol 2008/9-2013.
3. Y pwynt canran o wahaniaeth rhwng y nifer cyfartalog o ddisgyblion (yn derbyn, a ddim yn derbyn prydau ysgol am ddim) yn cyflawni Dangosyddion Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol a Throthwy Lefel 2 Cynhwysol 2008/9-2013.¹².

⁹ DPC, Dangosydd Pynciau Craidd. Disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad.

¹⁰ DCS, Dangosydd Cyfnod Sylfaen. Disgyblion yn cyflawni o leiaf deilliant 5 mewn "Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol", "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg" / "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg" a "Datblygiad maethemategol" mewn cyfuniad.

¹¹ Trothwy Lefel 2 Cynhwysol, 5 TGAU Gradd A*-C yn cynnwys Mathemateg a Cymraeg/Saesneg

¹² 2008/9 i 2011/12 i Consortia Gogledd Cymru a Chanolbarth y De

Ar ôl i'r data gael ei brofi cynhyrchwyd tri adroddiad yn graddio ysgolion oedd yn gweddu orau i'r meini prawf sylfaenol. Croesgyfeiriwyd y tri adroddiad er mwyn penderfynu pa ysgolion oedd yn cwrdd â'r tri maen prawf orau.

Yna cynhyrchwyd rhestr hir mewn adroddiad terfynol er mwyn archwilio'r 80 uchaf oedd yn sefyll allan ar draws y set data cyfan (20 o bob Consortiwm) gan sicrhau gwasgariad teg o ysgolion a Chyfnodau Allweddol.

Yna cysylltodd Tîm Prosiect yr Arsyllfa Bolisi â'r Consortia Addysg Rhanbarthol. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac Estyn i ddefnyddio eu harbenigedd ynghylch cyd-destunau lleol ac, mewn cydweithrediad fe gynhyrchwyd rhestr fer er mwyn sicrhau cydbwysedd daearyddol priodol.

O'r sampl cyntaf o 1601 ysgol a lleoliad cymunedol, cafodd un deg pedwar eu dewis ar gyfer casglu data astudiaeth achos pellach (gweler Tabl 4).

Math o ysgol	Nifer yr ysgolion a ddewiswyd ar gyfer casglu data astudiaeth achos ¹³
Cynradd	6
Uwchradd	5
Arbennig	1
Cymunedol	2
Total	14

Tabl 4: Sampl Astudiaeth Achos – Math a Rhif

Dewiswyd yr ysgolion a'r lleoliadau hyn trwy broses drwyadl o ddadansoddi ac ymgynghori. Mae'r Drefn Casglu Data, Adran 3.9 yn rhoi manylion y broses gwmpasu meintiol a gynhaliwyd yn ystod Cam cyntaf y prosiect, oedd yn cynnwys cwestiynu data perfformiad oedd yn cael ei ddal yn Uned Safonau Ysgolion Llywodraeth Cymru. Cynhyrchodd hyn 'restr hir' o ysgolion posib i'w dewis trwy ymgynghoriad pellach.

Yna fe gysylltodd Tîm Prosiect yr Arsyllfa Polisi â'r Consortia Addysg Rhanbarthol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac Estyn i ddefnyddio eu harbenigedd ar gyd-destunau lleol a chytunwyd ar 'restr fer'. Yna cafodd ysgolion a lleoliadau ar y rhestr fer a nodwyd fel posibilrwydd ar gyfer astudiaethau achos o arfer effeithiol eu

¹³ Tynnodd un ysgol gynradd yn ol o'r prosiect oherwydd salwch gan uwch staff yn yr ysgol gan leihau nifer yr ysgolion cynradd i bump, yr oedd un ohonynt yn Ysgol Babanod. Roedd hyn yn gwneud cyfanswm o 13 astudiaeth achos terfynol.

'croesgyfeirio' i sicrhau nad oeddent yn dyblygu'r rhai a ddarparwyd ymlaen llaw gan Estyn a'r rhai i gael eu casglu gan Ipsos-Mori (sydd ar hyn o bryd yn gwerthuso'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar ran Llywodraeth Cymru).

3.5 Gwahoddiad i gymryd rhan

I ddechrau cyflwynodd y Consortia Addysg Rhanbarthol y tîm ymchwil i'r ysgolion a lleoliadau ar y ffôn ac mewn ebost ac yna estynnodd y tîm ymchwil wahoddiad personol iddynt gymryd rhan yn y prosiect.

3.6 Cyfranogwyr

Roedd y gwaith maes a arweiniodd at ysgrifennu'r astudiaethau achos yn cynnwys ystod o bobl o bob ysgol a lleoliad yn cynnwys:

- Penaethiaid
- Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli
- Athrawon
- Cynorthwyrwyr Addysgu
- Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig
- Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr
- Aelodau o'r Corff Llywodraethu
- Disgyblion
- Rhieni a Gofalwyr
- Cydlynwyr Prosiectau Cymunedol
- Gweithwyr Cyswllt â Theuluoedd
- Gwirfoddolwyr
- Cynghorwyr Arbenigol

3.7 Moeseg

Cafodd moeseg ei drafod a'i gytuno gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant gan gadw at *Ganllawiau Moesegol i Ymchwilwyr Addysgol* (BERA, 2011).¹⁴ Roedd y gweithdrefnau'n cynnwys cyhoeddi datganiad mewn iaith glir i bob ysgol a lleoliad oedd yn cymryd rhan yn eu hysbysu o amcanion a deilliannau disgwylidig yr ymchwil, a ffurflenni cydsyniad gwybodus ysgrifenedig i'r rhai oedd yn cymryd rhan yn y casglu data ar gyfer astudiaeth achos. Cynhaliwyd yr hawl i ymatal neu dynnu yn ôl o'r prosiect ar unrhyw adeg. Cafodd data crai a data wedi ei ddadansoddi ei gadw mewn system ddiogel benodol i'r prosiect.

¹⁴ <http://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2011>

3.8 Casglu data astudiaeth achos

Dyranwyd tîm o dri ymchwilydd i fod yn gyfrifol am faich achosion ysgolion a lleoliadau:

Ymchwilydd	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	Cymunedol
1 (LM)	3	3	1	2
2 (JJ)	1	2		
3 (AM)	1*			

*Ysgol Babanod

Tabl 5: Dyranriad Astudiaethau Achos

Ategwyd at gwmpasu data meintiol dechreuol gan ymchwil desg ansoddol i 'osod y cyd-destun' ymhellach ar gyfer adeiladu'r astudiaethau achos cyfoethog. Roedd hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth trwy adroddiadau Estyn a gwefan yr ysgol.

Cafodd ymchwilwyr gopi o'r templed astudiaeth achos (gweler isod) a gafodd ei lunio gan y Grŵp Llywio Prosiect, gan osod meini prawf pellach ar gyfer casglu data.

Enw'r Astudiaeth Achos
Math o leoliad (cyn-ysgol, ysgol gynradd, ysgol arbennig, ysgol uwchradd, cymuned, teuluol, arall)
Crynodeb o'r astudiaeth achos
Disgrifiad cryno o'r cyd-destun daearyddol/cymunedol
Disgrifiad o'r ymyriad/ymyriadau yr ymgwymerwyd â nhw
Ariannu'r ymyriad / ymyriadau
Datblygiad yr ymyriad/ymyriadau (yn cynnwys cynlluniau ar gyfer eu cyflwyno i leolaidai eraill, ne'r posibilrwydd o wneud hynny)
Tystiolaeth o effaith
Cyswllt Allweddol

Tabl 6: Templed Astudiaeth Achos

Yn ystod gwaith maes ymweld â safle, cynhaliodd ymchwilwyr nifer o gyfweiliadau a grwpiau ffocws anffurfiol gydag ystod eang o gyfranogwyr (gweler Adran 3.7). Defnyddiwyd tri dull ar gyfer casglu data: recordiadau llais (wedi eu trawsgrifio), nodiadau a myfyrdodau'r ymchwilydd. Rhoddodd nifer o ysgolion a lleoliadau cymunedol gopiâu o'u prospectws, taflenni ymyriad, cynlluniau ac adolygiadau Grant Amddifadedd Disgyblion, systemau dilyn data, blwyddlyfrau, cyflwyniadau PowerPoint, pecynnau cymorth, canllawiau astudio, meini prawf gwersi, cynlluniau rhianta a strategaethau cyflenwi cymunedol i'r ymchwilwyr hefyd.

Casglwyd y cyfoeth hwn o ddata meintiol ac ansoddol at ei gilydd wedyn i ysgrifennu astudiaethau achos cyfoethog wedi eu rhannu'n drionglau yn cynnwys safbwyntiau lluosog a lleisiau go iawn.

3.9 Cywirdeb

Cynhaliwyd protocolau a gweithdrefnau gan yr ymchwilyr gan wneud pob cam o'r prosiect yn dryloyw ac felly fe geisiodd y tîm prosiect gynnal ansawdd a didwylledd yn nhermau hygredded a dibynadwyedd.

Yn dilyn drafftio dechreuol, cafodd yr holl astudiaethau achos eu dosbarthu ymysg y Grŵp Llywio a'u dychwelyd i'r ysgolion a lleoliadau unigol er mwyn iddynt eu dilysu a'u cymeradwyo.

Gweithredwyd ar bob sylw ac awgrym a dderbyniodd y tîm er mwyn sicrhau bod yr astudiaethau achos yn gywir ac yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r ffeithiau a'r naratif fel y cawsant eu cyflwyno i'r ymchwilyr.

4. Canfyddiadau

Er bod pob astudiaeth achos yn unigryw, mae nifer o ganfyddiadau cyffredin yn dod i'r amlwg sy'n gwneud gwahaniaeth i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion yn derbyn prydau ysgol a ddim a'r rhai sydd ddim. Mae'r rhain yn cael eu crynhoi yn nhabl 7 isod.

Mae system ticio syml yn dynodi i ba raddau yr oedd yr astudiaethau achos yn arddangos ymddygiadau i'r tîm ymchwil. Mae tic dwbl yn dynodi bod y rhain yn amlwg iawn ac wedi eu cyflwyno gan yr astudiaeth achos i fod yn ffactorau arbennig o bwysig yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad. Mae un tic yn dynodi bod y rhain yn llai amlwg i'r ymchwilwyr yng nghyd-destunau penodol yr astudiaethau achos. Ble nad oes tic o gwbl nid yw hyn yn golygu nad yw'r ymddygiadau yn bresennol yn yr astudiaeth achos. Yn hytrach, nid y rhain oedd canolbwynt yr ymchwil. Mae angen methodoleg llawer mwy trwyadl i ymchwilio maint effaith, neu arwyddocâd cymharol, y ffactorau amrywiol yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad. Mae Rhan 2 o'r adroddiad hwn yn nodi'r cwrpas posib ar gyfer ymchwil pellach.

Mae'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r astudiaethau achos yn awgrymu bod cyfuniad o ffactorau'n aml yn cyfrannu at welliannau mewn dysgu i *bob* disgybl. Mae nifer o'r arweinwyr ac athrawon yn y sampl yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ddata i ddilyn cynnydd disgyblion, canfod meysydd o dangyflawni a rhoi strategaethau cymorth priodol ar waith. Mae'r rhain yn cael eu monitro'n ofalus i asesu eu heffaith ac, mewn rhai achosion, mae arweinydd dynodedig yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros ddadansoddi tueddiadau a gwerthuso effaith strategaethau ymyrryd. Mae'n amlwg felly bod gan arweinyddiaeth ar bob lefel yn yr ysgol ran hanfodol i'w chwarae yn datblygu strategaethau cadarnhaol wedi eu cynllunio i leihau'r effaith y gall tlodi ei gael ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae ansawdd addysgu'n ffactor allweddol o ran codi safonau. Gan hynny mae trefnu staff a'u datblygiad proffesiynol yn cael blaenoriaeth uchel yn ysgolion yr astudiaethau achos. Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau i ddenu diddordeb dysgwyr. Mae'r cwricwlwm, yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol, yn aml yn cael ei deilwra i gwrdd ag anghenion, diddordebau a dewisiadau dysgwyr. Mae ysgolion yn defnyddio ystod o raglenni dal i fyny, sy'n bennaf yn targedu sgiliau llythrennedd. Yn ddieithriad, rhoddir pwyslais cryf ar wella presenoldeb, ymddygiad ar gyfer dysgu ac adeiladu hunan barch, hyder a chryfder disgyblion. Mae dysgwyr yn derbyn adborth sy'n canolbwyntio ar eu cynnydd a sut y gallant wella. Mewn rhai achosion, ceir canolbwynt cryf o fewn yr ysgol ar agweddau ar addysgeg fel hybu sgiliau meddwl annibynnol disgyblion.

Mae'r holl astudiaethau achos yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â rhieni ac wedi mynd o gwmpas hyn mewn gwahanol ffyrdd. Roedd nifer yn canolbwyntio ar ddatblygu hyder a sgiliau sylfaenol rhieni trwy ddosbarthiadau dysgu oedolion. Mae'r rhain yn cael eu gweld fel ffordd o adeiladu deialog gref rhwng y cartref a'r

ysgol. Roedd nifer o astudiaethau achos hefyd yn dangos arwyddocâd sefydlu, cynnal a gwerthuso partneriaethau strategol gyda'r gymuned ehangach.

Themau	Ffactorau penodol	Lleoliadau											
		YG	YY	Pe	YH	YU	Oa	BG	YB	MS	SM	EC	FP
Arweinyddiaeth	Uwch arweinydd dynodedig	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓								
	Defnydd cadarn o ddata a hunan werthusiad	✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓			✓	✓	
	Cynllun strategol yn canolbwyntio'n glir ar gyrhaeddiad y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim	✓✓											
	Hyfforddi a threfnu staff yn cynnwys arbenigwyr	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓		✓✓	✓		✓
	Cysylltiad cryf gyda llywodraethwyr	✓	✓	✓✓									
Addysgu a Dysgu	Strategaethau addysgu aml-synhwyrol	✓						✓✓		✓✓			
	Rhaglenni dal i fyny	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓				✓✓			
	Cwricwlwm wedi ei deilwra yn adeiladu ar ddiddordebau a galluoedd dysgwyr, yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol		✓	✓	✓	✓		✓✓		✓			
	Rhaglenni lles ac ymddygiad ar gyfer dysgu yn cynnwys canolbwyntio ar bresenoldeb, gwrando ar ddysgwyr ac adeiladu hunan barch		✓✓	✓✓	✓		✓✓	✓✓			✓✓		✓
	Adborth ac asesiad effeithiol	✓		✓	✓	✓	✓		✓✓				
	Strategaethau metawybyddol	✓							✓✓				
Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach	Dialog gref gyda rhieni	✓✓	✓✓	✓	✓	✓✓	✓✓			✓✓	✓✓	✓✓	✓✓
	Dysgu oedolion	✓								✓✓	✓	✓	✓
	Sefydlu a chynnal partneriaethau strategol	✓	✓✓							✓✓	✓✓	✓✓	✓✓

Lleoliadau	
Meithrin/Babanod	
Cynradd	
Uwchradd	
Arbennig	
Cymunedol	
Ymddygiadau	

Amlwg lawn	✓✓
Presennol	✓

Tabl 7. Ffactorau sy'n cyfrannu at safonau gwell mewn lleoliadau astudiaeth achos

Key

Ysgol Babanod Glan Gele	YGG
Ysgol y Dderi	YYD
Ysgol Gyfun Pencoeed	Pen
Ysgol Hen Felin	YHF
Ysgol Uwchradd Tywyn	YUT
Ysgol Gyfun Oakdale	Oak
Ysgol Gyfun Bishop Gore	BG
Ysgol Bassaleg	YB
Ysgol Gynradd Mount Stuart	MS
Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru St Mark	SMC
Partneriaeth Gymunedol Ysgolion Ffederasiwn Trelái Caerau	EC
Strategaeth a Chynllun Cyflawni Magu Plant Sir y Fflint	FP

Adroddiadau astudiaeth achos

1. Ysgol Babanod Glan Gele

LLEIHAU EFFAITH TLODI AR GYRHAEDDIAD ADDYSGOL

ARSYLLFA POLISI ASTUDIAETH ACHOS 1

Enw'r Ysgol/Lleoliad: **Ysgol Babanod Glan Gele**

Awdurdod Lleol: **Conwy**

Math o Ysgol/Lleoliad: **Babanod a Meithrin**

Cyfrwng Iaith: **Saesneg**

Nifer y Disgyblion: **283**

Canran Prydau Ysgol am Ddim: **34%**

Canolbwynt yr Astudiaeth Achos

Pwysigrwydd cael cynllun strategol mewn lle i fynd i'r afael â thlodi, yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, trefnu staff, strategaethau dysgu ac addysgu llwyddiannus ac ymgysylltu â rhieni/cymuned

Mae Ysgol Glan Gele yn ysgol babanod mawr o 300 o ddisgyblion o 3 i 7 oed yn Abergele, Conwy, gogledd Cymru. Mae pob grŵp blwyddyn yn cael ei drefnu'n dri dosbarth. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal ddifreintiedig yn bennaf ar hyd arfordir gogledd Cymru. Mae oddeutu 38% o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim (PYAdD) ar hyn o bryd.

Mae *Mynegai Amddifadedd Lluosog* Llywodraeth Cymru'n nodi ward Abergele - Pensarn fel y 195ed ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru.¹⁵

Astudiaeth Achos

Mae'r ysgol wedi datblygu agwedd ysgol gyfan tuag at leihau'r cysylltiad cryf iawn rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel. Mae'r agwedd hon yn cynnwys:

- *cynllun gweithredu* sy'n strategol, datblygiadol, cydweithrediadol, arfarnol a chynaliadwy ac sy'n dylanwadu ar y cynllun gwella ysgol (CGY)

¹⁵ Mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is fwyaf difreintiedig yn cael ei graddio yn 1, a'r lleiaf difreintiedig yn 1,896.

- gweithredu fel ysgol ymarferydd arweiniol a, thrwy ei chyllid Grant Amddifadedd Disgyblion, rhwydweithio ag ysgolion eraill yn lleol a ledled Cymru i ganfod ymarfer sy'n gallu gwella cyrhaeddiad a chynnydd disgyblion
- datblygu strategaethau i weithio â rhieni a'r gymuned i wella deilliannau addysgol
- trefnu cynorthwywyr addysgu sy'n gweithio â disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn effeithiol er mwyn datblygu eu sgiliau sylfaenol a chymdeithasol

Mae gan yr ysgol bwrpas moesol cryf sy'n llywodraethu pob agwedd ar ei bywyd a gwaith ac sy'n thema gylchol sy'n cael ei thrafod yn ystod cyfarfodydd staff. Mae hyn yn sicrhau bod athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn deall pa mor bwysig yw hi fod yr ysgol yn gwneud gwahaniaeth i gyfleoedd bywyd disgyblion trwy ymyriad cynnar (o fewn pedair blynedd gyntaf addysg plentyn) wrth fynd i'r afael ag amddifadedd a thangyflawni.

Cafodd cynllun gweithredu ei lunio i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion yn dilyn sesiwn HMS. Mae'n canolbwyntio ar ymyriadau sy'n seiliedig ar y pedair prif agwedd a nodir ym meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer gwario Grant Amddifadedd Disgyblion, sef:

- Cynorthwyo plant i wneud yn dda yn yr ysgol
- Datblygu arweinyddiaeth
- Cynlluniau trosglwyddo ysgol
- Gwella ymgysylltiad teuluol
- Gwella ymgysylltiad cymunedol

Rôl y Rheolwr Cynnydd

Cafodd swydd y Rheolwr Cynnydd ei chreu o fewn uwch dîm rheoli'r ysgol. Mae'n cynnwys cyfrifoldeb dros fonitro a gwerthuso cynnydd disgyblion yn defnyddio system tracio "ar-lein". Mae'r rheolwr cynnydd ynghyd â'r athro dosbarth yn gwneud y defnydd gorau posib o ddata asesiad ffurfiannol i osod targedau i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig sydd, gyda chymorth ychwanegol, yn cael eu herio i gyrraedd lefel uwch na'r un sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran (Cyfnod Sylfaen Deiliant 6).

Mae Proffil Boxhall yn cael ei ddefnyddio i ganfod a thargedu cymorth i ddisgyblion sydd ddim yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn yr ysgol. Yn aml mae gan y disgyblion hyn rwystrau rhag dysgu effeithiol fel diffyg hunan-barch a diffyg hyder. Mae cymorth yn cael ei ddarparu'n wythnosol o fewn grŵp meithrin bach i gryfhau sgiliau emosiynol, cymdeithasol a phersonol y disgyblion hyn.

Mae Cynorthwywyr Addysgu'n gweithio gyda disgyblion o gefndiroedd difreintiedig i ddatblygu eu sgiliau sylfaenol a chymdeithasol yn ystod grwpiau bugeiliol amser cinio wedi eu targedu at ddisgyblion PYADd. Mae Cynorthwywyr Addysgu'n

gweithio'n agos gydag athrawon dosbarth i ddilyn cynnydd a chyrhaeddiad y disgyblion hyn. Maen nhw'n gweithio gyda disgyblion ar dargedau unigol yn ystod y sesiynau bugeiliol amser cinio hyn i godi cyrhaeddiad mewn Llythrennedd a Rhifedd a chadw cofnod o'r holl weithgareddau a chyrhaeddiad. Maen nhw hefyd yn rhedeg Clybiau Gwaith Cartref i ddisgyblion blwyddyn 2 er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i gwblhau tasgau cartref a gweithgareddau Cofnod Dysgu.

Mae ysgolion Coedwig a Thraeth, dan arweiniad saith aelod staff hyfforddedig yn cynnwys dau fentor Dysgu Awyr Agored, yn cynorthwyo gyda lles a datblygiad sgiliau cymdeithasol ac emosiynol.

Mae'r ysgol wedi defnyddio'r *Blwch Offer Sutton Trust*¹⁶ i dargedu gwelliannau pellach mewn cyrhaeddiad a lles disgyblion. Mabwysiadwyd y strategaethau y canfuwyd iddynt fod yn fwyaf effeithiol o fewn dosbarthiadau ac mewn grwpiau meithrin ac maen nhw'n cynnwys datblygu:

- Adborth effeithiol i ddisgyblion ynglŷn â'u dysgu
- Hyfforddiant gan gymheiriaid – yn ystod y rhan fwyaf o wersi (Partneriaid siarad)
- Metawybyddiaeth – sicrhau bod disgyblion yn deall sut i ddatblygu eu sgiliau dysgu yn cynnwys dysgu'n annibynnol.

Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau ymyriad cynnar a chymorth ychwanegol ble a phryd y mae eu hangen a chredir eu bod yn effeithiol wrth helpu i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn aros ar y llwybr iawn i gyflawni eu potensial erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Datblygu Arweinyddiaeth

Mae'r pennaeth yn cymryd cyfrifoldeb dros ddadansoddi data gyda'r Uwch Dîm Rheoli a'r Llywodraethwyr ac yn datblygu cynllun gweithredu blynyddol yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i fynd i'r afael â dylanwad tlodi ar gyrhaeddiad. Mae hefyd yn sicrhau bod y cynllun a'i weledigaeth yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd staff a bod pawb yn eu deall. Mae'r Rheolwr Cynnydd yn goruchwyllo rhoi'r cynllun ar waith.

Penodwyd Cynorthwyydd Addysgu Cyswllt â Theuluoedd yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ym Medi 2012 i ddatblygu cysylltiadau presennol gyda'r gymuned ac i sicrhau eu bod yn rhan o'r weledigaeth y mae'r ysgol wedi ei datblygu.

Mae Arweinydd Datblygiad Personol a Chymdeithasol yn cydlynu agweddau tuag at les yn yr ysgol ac yn dilyn cynnydd disgyblion PYADd o fewn grwpiau bugeiliol.

Mae aelod o'r Corff Llywodraethu yn arwain ei waith yn dadansoddi a monitro cyrhaeddiad disgyblion PYADd, helpu i osod targedau a llunio'r cynllun gweithredu

¹⁶ <http://educationendowmentfoundation.org.uk/toolkit/>

amddifadedd. Mae Cadeirydd y Corff Llywodraethu hefyd yn monitro cynnydd disgyblion PYADd.

Mae Cynorthwyr Cyswllt â Theuluoedd yn arwain y grŵp meithrin bob dydd ac yn cynnal ystod o weithgareddau ymgysylltu, hyfforddi a chymorth gyda rhieni. Maen nhw hefyd yn mynychu cyfarfodydd aml-asiantaeth ac amddiffyn plant.

Cynllun Trosglwyddo'r Ysgol

Mae hwn yn cael ei nodi yng nghynllun gweithredu'r ysgol fel maes ar gyfer datblygiad yn ystod gwanwyn 2014. Mae protocolau newydd ar drefniadau trosglwyddo yn cael eu llunio gyda'r ysgol gynradd sy'n golygu rhannu data ffurfiannol ar gyrhaeddiad disgyblion wrth iddynt ddatblygu trwy'r Cyfnod Sylfaen. Bwriad hyn yw gwella gweithio mewn partneriaeth rhwng yr ysgol babanod a'r ysgol gynradd i wella cysondeb a chynnydd o ran dysgu'r disgyblion a chodi disgwyliadau'r athrawon pan fydd disgyblion yn cael eu derbyn i CA2.

Gwella Ymgysylltiad Teuluol

Ar ôl derbyn tystiolaeth o bwysigrwydd ymgysylltiad teuluol, cyflwynodd yr ysgol *gofnodion dysgu* (gweler isod) i rieni allu cynorthwyo eu plant gyda thasgau cartref. Mae'r rhain wedi eu cynllunio i hyrwyddo dialog parhaus rhwng rhieni, disgyblion a'r ysgol ac maent wedi gwella cyfathrebu o ran cynnydd disgyblion a thargedau unigol.

Rhianta cadarnhaol i gynorthwyo tasgau cartref eu plentyn trwy 'Gofnodion Dysgu'

Beth yw Cofnod Dysgu?

Mae cofnodion dysgu'n rhoi gwybodaeth i rieni ynghylch yr hyn y bydd eu plant yn ymgymryd â'i ddysgu bob wythnos. Mae'r cofnodion dysgu'n cael eu hanfon adref bob dydd Gwener ac maent yn cynnwys gwaith sy'n cyflwyno'r disgybl a'r rhieni i'r tasgau a heriau ar gyfer y disgyblion yr wythnos ganlynol.

Sut mae Cofnodion Dysgu'n cael eu defnyddio?

Mae'r athro dosbarth yn ychwanegu tasgau dysgu priodol i'r cofnod yn wythnosol. Mae'r tasgau cartref yn gyflwyniad ac estyniad i'r gwaith a fydd yn cael ei gwblhau yn y dosbarth yr wythnos ganlynol. Mae'r tasgau cartref wedi eu cynllunio i helpu disgyblion i ddatblygu eu chwilfrydded a helpu dysgu annibynnol wedi ei bersonoli.

Beth yw rôl rhieni yn cyfrannu at dasgau cartref a chofnod dysgu eu plant?

Disgwylir i rieni:


- ddangos diddordeb a thrafod y dasg gartref gyda'u plentyn;
- ddarparu cymorth ble a phryd y mae ei angen;
- ddweud wrth yr athro dosbarth, naill ai ar lafar neu trwy gofnod dysgu os yw'r plentyn yn cael y gwaith yn rhy anodd neu'n rhy hawdd;

- fwynhau cael eu “haddysgu” gan eu plentyn a rhannu yn y dysgu; a
- sicrhau bod y cofnod dysgu yn cael ei ddychwelyd i'r ysgol ar amser bob wythnos.

Gwella Ymgysylltiad Cymunedol

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda'r gymuned. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu tynnu o blith rhieni, mam-gu a thad-cu, ffrindiau'r ysgol, hyfforddeion o sefydliadau hyfforddi athrawon addysg uwch, unigolion yn hyfforddi fel cynorthwyr cymorth dysgu o golegau addysg bellach, pobl â chysylltiadau â busnesau a diwydiannau lleol a gwirfoddolwyr chwaraeon. Mae'r ysgol yn cynnal sesiynau Dysgu Teuluol wythnosol sy'n cael eu rhedeg gan goleg lleol gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grŵp hwn yn canolbwyntio ar helpu rhieni a gofalwyr i ddatblygu sgiliau sylfaenol eu plant. Mae'r ysgol hefyd yn darparu Cyrsiau Rhianta ('Rhianta Cadarnhaol') ar sail reolaidd mewn partneriaeth â grŵp cymunedol lleol. Mae coleg lleol hefyd yn cydweithio gyda'r ysgol i ddarparu cyrsiau TG i rieni – 'Cyflwyniad i'r i-pad' yw'r mwyaf diweddar. Mae sesiynau Rhieni Partner yn cael eu cynnal unwaith y tymor. Mae pob dosbarth yn gwahodd rhieni a gofalwyr i mewn am y prynhawn i gael mynediad at y cwricwlwm gyda'u plant. Mae hyn hefyd yn gyfle i arddangos gwaith diweddar ac ymgysylltu rhieni ymhellach ag addysg eu plant.

Tystiolaeth o Effaith




Ysgol Glan Gele
Conwy

LA/School no: 662/2111


School comparative information: Foundation Phase Outcomes 2013 with benchmarking

Percentage of boys, girls, and pupils achieving at least the expected outcome (Outcome 5+):


	Boys			Girls			Pupils		
	School 2013	LA 2013	Wales 2013	School 2013	LA 2013	Wales 2013	School 2013	LA 2013	Wales 2013
PSD	97	88	90	97	96	96	97	92	93
LCW	0	68	82	0	87	91	0	77	87
LCE	94	80	81	94	91	89	94	86	85
MDT	94	84	85	97	90	89	96	87	87
FPI	94	74	79	94	87	87	94	80	83



School Performance over time (2009 - 2013)



How did pupils who receive free school meals do in terms of proportion of pupils reaching the expected level at Foundation Phase and how does it compare to local authority and national averages?




Ble'r ydym ni nawr? Cyrrhaeddiad Cyfnod Sylfaen 2 Haf 2013

	Deilliant 4	Deilliant 5	Deilliant 6	Gwahaniaeth ar 06
Prydau ysgol am ddim ILIaCh – Llythrennedd	9%	61%	30%	22%
ILIaCh Llythrennedd Dim prydau ysgol am ddim	6%	42%	52%	
Prydau ysgol am ddim DM Mathemateg	4%	61%	35%	17%
Dim prydau ysgol am ddim DM	4%	44%	52%	
Prydau ysgol am ddim DPaCh	0%	61%	39%	16%
Dim prydau ysgol am ddim DPaCh	4%	31%	65%	

Section 1 - Foundation Phase Indicator

[Home](#)

1.2a FSM / non-FSM trend



Fe wnaeth disgyblion PYADd berfformio'n well na disgyblion dim PYADd yn 2012 gan fod gan dri disgybl dim PYADd Ddatganiadau o AAA

School Comparative/Validation 2013 (End of Foundation Phase Outcomes - Pupils)



(Table 1 of 2 - PERCENTAGES)

Conwy

Ysgol Glan Gele

		N	D	W	1	2	3	4	5	6
Personal and social development, well-being and cultural diversity	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.8	40.8	56.3
	Wales	0.1	0.1	0.2	0.3	0.5	1.3	6.7	52.3	38.4
Language, literacy and communication skills (in Welsh)	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
	Wales	0.1	*	*	0.1	0.3	2.1	11.4	61.1	24.8
Language, literacy and communication skills (in English)	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	5.6	49.3	45.1
	Wales	0.1	0.1	0.3	0.3	0.5	2.6	12.7	57.9	25.2
Mathematical development	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.2	47.9	47.9
	Wales	0.1	0.1	0.3	0.2	0.5	1.7	10.5	62.5	23.9
Optional Areas of Learning:										
Creative development	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Physical development	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Knowledge and understanding of the world	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Welsh language development	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0

Datblygiadau i'r Dyfodol

Mae Babanod Glan Gele yn Ysgol Ymarferydd Arweiniol ac mae'n rhoi llety i ymweliadau gan nifer o ysgolion yn rhanbarth gogledd Cymru a mannau eraill yng Nghymru sy'n dod i weld arfer da wrth fynd i'r afael ag anfantais. Mae'r pennaeth hefyd yn ymweld ag ysgolion eraill i rannu arbenigedd a chynghori ar yr holl faterion yn ymwneud ag arfer yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn dymuno datblygu yn ganolfan o ragoriaeth yn darparu cymorth o ysgol i ysgol.

Mae'r pennaeth yn credu pe bai pob ysgol gynradd ac uwchradd yn y clwstwr yn mabwysiadu system tracio disgyblion cyffredin y byddai hyn yn cynorthwyo ymdrechion i wella cyrhaeddiad, yn arbennig cyrhaeddiad y disgyblion mwyaf difreintiedig. Bydd polisi trosglwyddo newydd yr ysgol yn ymchwilio'r syniadau hyn i ddechrau gyda'r ysgol gynradd y bydd y disgyblion yn trosglwyddo iddi pan fyddant yn saith oed. Y gobaith yw y gellir ei fabwysiadu trwy gydol y clwstwr i CA3.

Cyllid

Mae ymyriadau'n cael eu cyllido trwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgol a'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

Crynodeb

Y neges allweddol o'r astudiaeth achos hon yw pa mor bwysig yw hi fod arweinwyr yn datblygu agwedd ysgol gyfan tuag at leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Themau	Ffactorau penodol	YGG
Arweinyddiaeth	Uwch arweinydd dynodedig	✓✓
	Defnydd cadarn o ddata a hunan werthusiad	✓
	Cynllun strategol yn canolbwyntio'n glir ar gyrhaeddiad y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim	✓✓
	Hyfforddi a threfnu staff yn cynnwys arbenigwyr	✓✓
	Cysylltiad cryf gyda llywodraethwyr	✓
Addysgu a Dysgu	Strategaethau addysgu aml-synhwyrol	✓
	Rhaglenni dal i fyny	✓✓
	Adborth ac asesiad effeithiol	✓
	Strategaethau metawybyddol	✓
Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach	Dialog gref gyda rhieni	✓✓
	Dysgu oedolion	✓
	Sefydlu a chynnal partneriaethau strategol	✓

Cyswllt Allweddol

Julia Buckley Jones
Pennaeth
Ysgol Glan Gele
Abergele, Conwy
LL22 7NU

Ffôn: 01745 823584

<http://www.glangele.conwy.sch.uk/>

2. Ysgol y Dderi

LLEIHAU EFFAITH TLODI AR GYRHAEDDIAD ADDYSGOL

ARSYLLFA POLISI ASTUDIAETH ACHOS 2

Enw'r Ysgol/Lleoliad: **Ysgol y Dderi**

Awdurdod Lleol: **Ceredigion**

Math o Ysgol/Lleoliad: **Cynradd**

Cyfrwng Iaith: **Cymraeg**

Nifer y Disgyblion: **139**

Canran Prydau Ysgol am Ddim: **21%**

Canolbwynt yr Astudiaeth Achos

Defnyddio data i adnabod disgyblion sy'n disgyn ar ei hôl hi ac sydd wedyn yn derbyn cymorth gan yr ymyriadau seiliedig yn yr ysgol priodol gyda chefnogaeth staff arbenigol sy'n codi hunan barch a hunan effeithlonrwydd

Mae Ysgol y Dderi yn Ysgol gynradd ardal gymunedol dan reolaeth Awdurdod Addysg Lleol (AALI) Ceredigion, ym mhentref Llanyby, ger Llanbedr Pont Steffan ac mae'n gwasanaethu ardal wledig eang sy'n cynnwys pentrefi Silian, Betws Bledrws, Cellan, Llanfair Clydogau, Llanyby, a Llwynygroes. Mae'r AALI wedi dynodi categori A i'r ysgol, sy'n golygu mai Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu a dysgu, ond anelir at sicrhau bod disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Ym marn yr ysgol, nid yw ei dalgylch naturiol yn ffyniannus nac yn economaidd ddifreintiedig¹⁷. Ar hyn o bryd mae 139 o ddisgyblion ar y gofrestr¹⁸ ac mae canran pum mlynedd cyfartalog yr ysgol o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (PYADd) oddeutu 21% sydd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr Awdurdod Lleol ac yn genedlaethol ledled Cymru.¹⁹

Yr Astudiaeth Achos

¹⁷ Estyn (2008) *Adroddiad Arolwg o Ysgol y Dderi*, Caerdydd: Estyn

¹⁸ Fy Ysgol Leol 2014

¹⁹ Stats Cymru

'Dysgu, Rhannu a Gofalu' - yw gwerthoedd craidd yr ysgol ac mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar y defnydd o ddata i adnabod disgyblion sy'n disgyn ar ei hôl hi ac sydd yna'n derbyn cymorth gan ymyriadau priodol seiliedig yn yr ysgol ochr yn ochr â staff arbenigol sy'n adeiladu hunanhyder a hunan-effeithiolrwydd.

Mae athrawon yn credu mewn amgylchedd cynnes a chyfeillgar ble y dangosir parch tuag at bob plentyn fel unigolyn. Mae Ysgol y Dderi'n anelu at greu ysgol gymunedol hapus i'w holl ddisgyblion trwy:

- Hyrwyddo perthnasau cyfeillgar a chymdogol sy'n bodoli eisoes, creu synnwyr o berthyn i ardal ehangach sy'n cael ei gweinyddu gan yr ysgol.
- Hyrwyddo'r teimlad o berthyn i gymuned wledig, ddwyieithog.
- Galluogi disgyblion i sefydlu cysylltiadau a ffurfio cyfeillgarwch gyda chyfoedion sy'n dod o wahanol ddiwylliannau a chefnidiroedd.
- Gwrando ar farn disgyblion o fewn "Bwrdd y Plant" a'r "Bwrdd Eco ac Iach".

"Mae ein hathrawon yn deall pwysigrwydd meithrin ac addysgu hunan-barch, yn ogystal â pharch at eraill ac eiddo."²⁰

Llais Disgybl

Cydraddoldeb

Mae Ysgol Y Dderi'n falch o fod yn ysgol ardal gymunedol gynhwysol. Yn 2008 adroddodd Estyn "nodwedd ragorol ar y ddarpariaeth yw llwyddiant yr ysgol o ran hyrwyddo cyfle cyfartal, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a herio stereoteipiau."²¹ Mae gan yr ysgol 'gymysgedd eclecticig' o blant a rhieni o nifer o wahanol gefndiroedd sydd wedi amlygu ethos gofalgarg. Mae gan yr ysgol rai disgyblion o deuluoedd sy'n teithio, rhai o gartrefi difreintiedig a rhai sydd wedi cael eu haddysgu gartref ac wedi dechrau yn hŷn yn yr ysgol.

"Mae ein plant yn oddefgar iawn, nid oes fawr ddim yn tarfu arnynt, ceir cymysgedd go iawn o bobl yma, maen nhw'n ei weld fel gweithio gyda ffrindiau a theulu. Gwerth craidd yr ysgol yw bod yn oddefgar a pharchus waeth beth yw eich cefndir."

Pennaeth

Mae adeiladu perthnasau gyda phlant yn allweddol i godi hunanhyder a chyflawniad yn Ysgol Y Dderi ac mae staff yn hynod o ystyriol y gall tlodi ac amddifadedd ddigwydd ar sawl ffurf ac yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu trin yn yr un ffordd ac na wneir iddynt deimlo eu bod yn wahanol. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod

²⁰ Gwefan Ysgol y Dderi - <http://www.ydderi.ceredigion.sch.uk/ethos>

²¹ Estyn (2008) *Adroddiad Arolwg Ysgol y Dderi*, Caerdydd, Estyn, pwynt 46.

costau gwisg ysgol yn cael eu cadw mor isel â phosib ac mae eisiau i bawb allu gwisgo'r siwmpwr ysgol a bod yn falch o wneud hynny.

“Rydym eisiau i’n holl ddisgyblion deimlo’n rhan o’r ysgol, fel pawb arall. Rydym yn sensitif iawn os yw pobl yn teimlo’n wahanol. Rydym yn mynd yr ail filltir, os allwn helpu fe wnawn trwy ddefnyddio adnoddau ariannol i brynu gwisg ysgol a chynnig cymorth emosiynol i blant bregus.”

Pennaeth

Pan fydd plant yn dechrau yn yr ysgol maen nhw’n cael bag llyfrau ac wrth iddynt ddatblygu maen nhw’n cael cas pensiliau ysgol gydag ysgrifbin, pensiliau, pren mesur a rwber, a ‘smart sack’ personol sy’n mynd dros gefn eu cadair i gadw eu llyfrau.

“Rydym yn sicrhau bod gan bawb yr un offer ar gyfer gweithio, mae hynny’n cyfrannu at hunan-barch ac yn ysgogiad i ddysgu hefyd.”

Cydlynnydd AAA

Mae amgylchedd cefnogol amlwg yn yr ysgol ble y gwerthfawrogir pob plentyn ac mae’r holl staff eisiau i bob plentyn wneud yn dda waeth beth yw eu hamgylchiadau, a gallu cyrraedd a chyflawni eu potensial llawn ar ba bynnag lefel a pha bynnag ffurf.

“Rydym yn parchu disgyblion sydd ddim yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd pob cyfnod sylfaen, i ni, os yw disgyblion wedi gweithio’n galed ac yn cyflawni eu potensial eu hunain, rydym yn dathlu ac yn parchu hynny.”

Pennaeth

Profiadau Bywyd

Mae Ysgol y Dderi yn gweithredu’r Cwricwlwm Dysgu Creadigol Trwy Brofiad ‘Cornerstones’²² sy’n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

YMGYSYLLTU - DATBLYGU - ARLOESI - MYNEGI

Mae’r pennaeth eisiau i’r holl ddisgyblion gael dysgu gwerthfawr ac mae’n credu bod profiadau cyfoethog wedi helpu i godi safonau. Mae Estyn yn cytuno:

Mae nodweddion rhagorol i’r profiadau dysgu a ddarperir i’r disgyblion. Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy’n cynnwys yr holl ofynion statudol. Cyfoethogir dysgu’r disgyblion yn effeithiol gan amrywiaeth eang o ymweliadau addysgol a gweithgareddau allgyrsiol, a’r defnydd arbennig o

²² <http://www.cornerstoneseducation.co.uk/>

bartneriaethau. Mae'r nodweddion hyn yn gwella profiadau dysgu'r disgyblion ac yn cyfrannu'n sylweddol at godi safonau.

Adroddiad Arolwg Ysgol Estyn (2008)

Mae staff yn ymwybodol nad yw rhai plant yn cael gweithgareddau cyfoethogi â phwrrpas gartref ac felly nid ydynt yn cymryd yn ganiataol bod plant wedi cael profiadau bywyd gyda'u teuluoedd; yn hytrach mae'r ysgol yn darparu hynny ar gyfer ei disgyblion.

“Nid ydym yn mynd â phlant ar deithiau fel digwyddiad arbennig; maen nhw'n rhan o'n cwricwlwm.”

Cydlynnydd AAA

Mae rhai themâu ac ymweliadau diweddar yn cynnwys

- 7 Rhyfeddod y Byd / The 7 Wonders of the World – yn dilyn ymchwil fe gyflwynodd y disgyblion eu canfyddiadau i Fwrdd Croeso Cymru.
- Ar yr Wyneb / Skin Deep – fe wnaeth disgyblion hysbyseb teledu ar gyfer yr GIG yn hysbysebu atal lledaenu germau.
- Enfys Drydan / Electric Rainbow – cynhaliodd disgyblion orymdaith oleuadau i'r brenin yn y tywyllwch.
- Oriel Gelf / Art Gallery – aeth disgyblion ar ymweliad â Tate Modern, Llundain a chreu a rhedeg eu harddangosfeydd celf eu hunain i ymwelwyr.

Fel ysgol wledig mae teithio'n ddrud ac mae'r CRhA yn cefnogi ymweliadau trwy brofiad oddi ar y safle trwy roi arian cyfatebol ar gyfer costau teithio bob tro, ac felly'n helpu rhieni gydag ymrwymadau ariannol. Os na fydd ffurflenni caniatâd disgyblion yn cael eu dychwelyd i'r ysgol bydd y pennaeth yn ffonio rhieni a gweld pam nad yw'r plant yn cael mynediad at y profiadau ac yn datrys y sefyllfa. Bydd y pennaeth yn helpu gyda chostau, ond mae wedi darganfod nad rhesymau ariannol yn unig sy'n rhwystr ac weithiau ceir rhesymau teuluol e.e. mae rhieni bregus yn gyndyn i adael i'w plant deithio'n bell, neu nid ydynt yn gallu eu casglu nhw oddi ar y bws gyda'r nos. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd staff yn tawelu meddwl disgyblion a rhieni a byddant yn cludo plant unigol adref os oes angen.

Ymyriadau

Mae Ysgol Y Dderi yn gweithredu system o ymyriad cynnar. Mae asesiadau'n cael eu cynnal ar sail reolaidd ledled yr ysgol i ganfod disgyblion sydd ar ei hôl hi neu sydd angen anogaeth ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys asesiadau athrawon a phrofion SCYA ble mae disgyblion yn cael eu bandio mewn lliwiau – coch, oren a gwyrdd. Yna dilynir canllawiau'r Sir ar gyfer cymhwyster ar gyfer rhaglen ymyriad (gweler y tabl isod).

Mae'r Cydlynnydd AAA hefyd yn croesgyfeirio'r sgoriau SCYA gyda phob athro i sicrhau eu bod yn adlewyrchiad cywir o'r plentyn ac nid yn ddigwyddiad 'un diwrnod gwael'. Yna mae'r Cydlynnydd AAA yn gwahodd rhieni am sgwrs a chytuno ar gamau gweithredu addas i'w dilyn.

“Mae rhieni'n gwybod bod ymyriadau o gymorth, nid yw'n cael ei ystyried i fod yn warth yma.”

Cydlynnydd AAA

Grwpiau Ymyriad	Meini Prawf Mynediad
SATPIN (Ffoneg Cynnar)	Plant band coch mewn sillafu Saesneg Sgoriau SCYA safonedig o 84>
TRANDEP (Ffoneg Cynnar)	Plant band coch mewn sillafu Cymraeg Sgoriau SCYA safonedig o 84>
Catch Up (Darllen)	Plant band oren mewn darllen Saesneg Sgoriau SCYA safonedig o (85-94)
Dyfal Donc (Darllen)	Plant band oren mewn darllen Cymraeg Sgoriau SCYA safonedig o (85-94)
Toe by Toe + Word Wasp (Tueddiadau Dyslecsig)	Ble y ceir anghysondeb rhwng gallu llafar ac ysgrifenedig disgybl. Dangos arwyddion o dueddiadau dyslecsig.
Grwpiau Cof Gweledol a Chlywol	Dadansoddi sgoriau profion LASS. Os ceir gwahaniaeth mawr rhwng y cof clywol a gweledol ceisio rhoi hwb i'r cof isaf.
Mathemateg Sbardun	Plant band oren mewn Mathemateg Sgoriau SCYA safonedig o (85-94)
Ceredigion yn Cyfri / Ceredigion Counting Mathemateg	Plant band coch mewn Mathemateg Sgoriau SCYA safonedig o 84>
Sesiwn Synhwyrdd / Sensory Circuit (Rhyddhau egni neu paratoi'r plant ar gyfer y diwrnod ysgol)	Mae cymryd rhan mewn sesiwn echddygol synhwyrdd yn paratoi plant ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol gyda'r diwrnod i ddod. Gall awgrymiadau ymddygiadol fel gwingo, diffyg canolbwyntio, cyswllt corfforol gormodol neu syrthni cyffredinol ddynodi bod plentyn yn ei chael hi'n anodd i gysylltu â'r broses ddysgu.
SULP (Grŵp Cymdeithasol)	Pan fydd gan blant hunan-ymwybyddiaeth a hunan- barch isel a phroblemau rhyngweithio cymdeithasol. Cynllun strwythuredig wedi ei ysgrifennu gan Alex Kelly.
ELCLAN (Grŵp Gwella Gwrandod)	Plant dosbarth derbyn sy'n cael gwrandod'n anodd. Sesiynau byr unwaith yr wythnos sy'n datblygu eu gwrandod cynnar.

Fel ysgol cyfrwng Cymraeg mae staff yn ymwybodol petai eu data'n cael ei gymharu gydag ysgol cyfrwng Saesneg y byddai eu sgoriau'n is gan nad yw plant yn dechrau gwersi ffurfiol Saesneg tan Blwyddyn 3 yn Ysgol Y Dderi. Ceir cromlin ddysgu serth ym Mlwyddyn 3, fodd bynnag nid yw disgyblion dan anfantais, mae staff yn gallu gweld bod meddyliau'r disgyblion yn fwy agored i ddeall iaith ac maen nhw'n dal i

fyny yn fuan. Mae'r ysgol yn tynnu ar ei chryfderau dwyieithog ac yn darparu blociau o ymyriadau Cymraeg neu Saesneg bob hanner tymor; nid ydynt yn gorlwytho'r plant trwy gyflwyno'r ddwy iaith gyda'i gilydd.

Mae staff yn gweithio'n agos gyda rhieni a'r Awdurdod Lleol sy'n darparu hyfforddiant a chymorth i redeg y rhaglenni ymyriad. Mae pob Cynorthwydd Addysgu wedi cael ei hyfforddi mewn ymyriad arbenigol ac mae plant yn gwybod pwy sy'n rhoi cymorth iddynt trwy 'weithiwr ymyriad dynodedig'. Mae Ysgol Y Dderi'n cyflwyno eu hymyriadau am gyfnodau byr, dwys am 10 i 20 munud ar yr un amser bob dydd, 5 diwrnod yr wythnos, mewn grwpiau bach i godi hyder.

Mae 'Cynlluniau Addysg Unigol' (CAU) yn cael eu llunio ac mae gan bob aelod staff gopi sy'n ffurfio dogfen weithio ar gyfer adolygu a myfyrio. Mae plant hefyd yn llunio eu CAU eu hunain er mwyn perchnogi eu dysgu, ac maen nhw'n gallu ei gymryd adref gyda nhw i ddangos i rieni a thrafod eu dysgu a'u cynnydd.

“Fel rhiant rwy’n gwerthfawrogi’r polisi drws agored, os oes gennych chi bryderon gallwch ddod i mewn a siarad â rhywun a gwybod y byddant yn eich cymryd o ddifrif. Maen nhw’n gadael i ni wybod beth sy’n digwydd ar bob cam; rwy’n gwybod yn union beth sy’n digwydd.”

Rhiant

“Mae ef [fy mab] yn gallu gweld ei gynnydd, mae ganddo CAU y gall plentyn ei ddeall felly mae’n gallu gweld pa mor bell mae wedi dod.”

Rhiant

Ar ddechrau pob ymyriad anogir plant i asesu eu hunain trwy edrych ar bob un o'r pynciau, yna defnyddio ystod o ystumiau wynebol i raddio pa mor hyderus ydyn nhw.

“Ar ddechrau’r tymor roeddwn yn cael wynebau’n gwenu ar gyfer popeth, nawr mae plant yn gwybod y gallant ddweud wrthyf yn onest sut maen nhw’n teimlo am bwnc a byddaf yn eu helpu.”

Cydlynnydd AAA

Ledled yr ysgol, ym mhob gwers anogir plant i roi cynnig arni a chymryd risgiau. Os yw plentyn yn teimlo'n ansicr ynglŷn â'r hyn mae'n ei wneud ar unrhyw adeg mae'n rhoi R mewn cylch yn ei lyfr i ddangos i'r athro ei fod yn 'cymryd risg'. Mae'r ffordd hon o weithio hefyd yn cysylltu ag arferion y meddwl a meddwl am feddwl, ac mae hefyd yn galluogi'r athro i asesu lefelau o ddealltwriaeth a gwybod nad yw plant yn dyfalu'r ateb.

Rôl Ymyriad Arbenigol – Athro Disgyblion Dyslecsig

Mae Ysgol Y Dderi yn ystyried ei hun i fod yn hynod o ffodus i fod wedi sicrhau gwasanaeth “Miss Collette” sydd, trwy brofiad personol rhienioli wedi ei hyfforddi fel athro disgyblion dyslecsig. Mae Miss Collette yn gweithio yn yr ysgol dau fore'r wythnos, naill ai gyda rhieni ar sail un i un neu mewn grwpiau bach.

Mae plant yn cael eu hatgyfeirio at Miss Collette ar gyfer eu sgrinio yn 8 oed os yw athrawon yn pryderu am anghysondebau rhwng eu gallu i weithio'n dda ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae disgyblion gyda thueddiadau dyslecsig yn gallu disgrifio a chyflwyno syniadau trwy siarad yn uchel, ac eto maen nhw'n cael anhawster yn rhoi pin ar bapur i ffurfio llythrennau ac yn brwydro gyda llawysgrifen a llunio syniadau ar bapur.

Yn gyntaf bydd Miss Collette yn gweld yr athro a chael sampl o waith dosbarth ac yna'n siarad â'r rhieni y mae'n rhaid cael eu caniatâd i gynnal y Prawf LASS (Lucid Assessment System for Schools). Mae'r prawf yn set o gemau cyfrifiadur difyr wedi eu cynllunio i asesu'r canlynol:

- Cof Gweledol
- Cof Clywol
- Sgiliau Datgodio Ffones
- Prosesu Ffonolegol
- Darllen Gair Unigol
- Darllen Dull Cloze
- Sillafu Geiriau Unigol
- Darllen Gwybodaeth Aneiriol

Yn dilyn prawf, mae adroddiad gweledol eglur yn cael ei gynhyrchu y mae Miss Collette yn ei ddadansoddi ac yna'n argymhell pa ddulliau, strategaethau a thechnegau sy'n mynd i weithio'n dda a bod o fudd i bob disgybl.

“Heb y prawf ‘LASS’ dyfalu sut i'w dysgu byddem ni'n.”

Cydlynnydd AAA

Anogir staff i ganolbwyntio ar un agwedd o welliant ar y tro a bod yn sensitif i liwiau a ffontiau. Mae Miss Collette yn cynghori nad yw du ar wyn yn addas ar gyfer disgyblion â thueddiadau dyslecsig ac nid yw staff yn defnyddio du a gwyn ar gyfer cyflwyniadau PowerPoint nac yn gofyn i ddisgyblion gopïo'r hyn sydd ar y bwrdd. Ble'n bosib mae disgyblion yn gwisgo sbectol arlliwedig gan fod hyn yn lleihau ymyrraeth weledol fel llythrennau'n neidio o amgylch, neu'n disgyn oddi ar y dudalen. Bydd staff yn profi haenau o liwiau gwahanol i weld beth sy'n gweithio i bob plentyn.

“Mae hunan-barch a hyder fy mab wedi cynyddu. Nawr mae'n mynd i nôl llyfr ac yn eistedd ar ei ben ei hun. Byddai'n dweud wrthyf chi na fyddai byth wedi darllen llyfr ar ben ei hun o'r blaen, dim nes iddo ddechrau

gweithio gyda Miss Collette. Mae'n fwy parod i dreulio amser ar ei waith cartref nawr ei fod yn gallu darllen a mynd at yr wybodaeth."

Rhiant

Tystiolaeth o Effaith

Rhwng 2012 a 2013 roedd 44% o ddisgyblion sy'n derbyn PYADd yn Ysgol Y Dderi ar raglen ymyriad. Fe ddilynodd yr ysgol gynnydd y disgyblion yn ofalus ac mae'r cynnydd mewn canlyniadau yn cael ei ddangos isod.

"Mae sgoriau gweithio'n codi ac mae ymddygiad yn gwella. Mae gennym ddata sy'n mynd yn ôl ychydig o flynyddoedd; rydym yn gallu gweld bod y pethau hyn yn gweithio."

Cydlynnydd AAA

Prawf LASS	2012	2013	Cynnydd Cyfartalog
Cof Gweledol	40.4	70.5	+30.1%
Cof Clywol	18.8	32.3	+13.5%
Sgiliau Datgodio Ffoneg	24.4	57.6	+33.2%
Prosesu Ffonolegol	32.6	57.1	+24.5%
Darllen Gair Unigol	18.8	57.6	+38.8%
Darllen Dull Cloze	34.6	54.8	+20.2%
Sillafu Geiriau Unigol	13.3	27.3	+14.0%
Darllen Gwybodaeth Aneiriol	25.0	58.4	+33.4%

"Mae dyslecsia'n gallu ymddangos mewn cymaint o ffyrdd gwahanol, oni bai am 'LASS a 'Toe by Toe' fyddem ni ddim wedi gallu adnabod a helpu'r plant hynny. Y llynedd cafodd 16 o blant eu hadnabod i fod â thueddiadau dyslecsig, eleni mae 9 o blant. Pe na bai'r plant hynny'n gweithio gyda Miss Collette ni fyddant wedi cael Lefel 4 yn Saesneg."


Pennaeth

Ymyriad Darllen	2012	2013	Cynnydd Cyfartalog
Dyfal Donc	87	92	+5
Dal i fyny	91	105	+14

"Cyn i fy mab ddod i'r ysgol hon roedd yn ymddieithrio mwy a mwy. Nawr mae ganddo ddisgwyliadau ei fod yn gallu ei wneud, mae'r ysgol hon yn mynd y tu hwnt i beth mae ysgolion eraill yn ei wneud."

Rhiant

Mae'r ysgol wedi cofnodi sgoriau cyn ac ar ôl ymyriad ar gyfer y Rhaglen 'Talk About' gan Alex Kelly sy'n helpu plant gyda datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.



Graff yn Dangos Newidiadau – Cyn ac Ar Ôl 'Talk About'

Dros y pum mlynedd diwethaf mae ffigyrau cyfartalog cyrhaeddiad y Cyfnod Sylfaen (CS) a adroddwyd gan Ysgol y Dderi yn dangos bod disgyblion PYADd wedi perfformio'n well na disgyblion dim PYADd gan +1.856%. Mae'r pennaeth yn nodi bod y ffigyrau ar gyfer 2013 yn ymddangos yn is na rhai 2012; mae hyn yn cynnwys y canlyniadau ar gyfer 3 o blant gydag anghenion difrifol, cymhleth yn y garfan.

Canlyniadau Cyfnod Allweddol 1 DPC 2009-2011, DCS 2012-2013

Disgyblion	2009	2010	2011	2012	2013
PYADd	100%	86.67%	77.87%	100%	80%
Dim PYADd	90.91%	86.67%	79.41%	90.91%	87.36%

Canlyniadau Cyfartalog CS 2009-2013

Prydau Ysgol am Ddim	Dim Prydau Ysgol am Ddim
88.908%	87.052%

Mae canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 a adroddir gan Ysgol y Dderi dros y pum mlynedd diwethaf hefyd yn dangos bod disgyblion PYADd wedi perfformio'n well na disgyblion dim PYADd gan +13.826%.

Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 DPC 2009-2013

Disgyblion	2009	2010	2011	2012	2013
PYADd	100%	100%	75%	100%	95.65%

Dim PYADd	66.67%	63.64%	93.33%	90.91%	86.97%
------------------	---------------	---------------	---------------	---------------	---------------

Canlyniadau Cyfartalog CA2 2009-2013

Prydau Ysgol am Ddim	Dim Prydau Ysgol am Ddim
94.13%	80.304%

Datblygiadau i'r Dyfodol

Mae Ysgol Y Dderi wedi croesawu newidiadau mewn addysg, ac mae wedi gosod mwy o ffocws ar ddiwylliant seiliedig ar y dyfodol, ac mae'n gyson yn chwilio am ffyrdd i wella a symud ymlaen.

“Beth bynnag sydd ei angen ar y plant rydym yn ceisio canfod rhywbeth i'w helpu nhw, os nad yw'n gweithio mae angen i ni newid, nid yw'r un peth yn addas i bawb.”

Pennaeth

Mae'r Cydlynnydd AAA, gyda chymorth y pennaeth wrthi'n ymchwilio 'grŵp cymorth datblygiad emosiynol rhithwir ar-lein'. Mae staff wedi bod ar gwrs hyfforddi ac yn credu y gall fod o fudd i'r plant yn yr ysgol i gysylltu gyda phlant dros y byd er mwyn dod yn rhan o 'grŵp cymorth cyfoedion rhyngwladol'. Mae gwaith ymchwilio pellach yn digwydd ar hyn o bryd a byddwn yn rhoi prawf arno gyda phlant wedi eu targedu.

Cyllid

Mae rhan o'r GAD yn talu am:

- Hyfforddiant staff
- Rolau arbenigol
- Offer ymyrryd cysylltiedig

Crynodeb

Y neges allweddol o'r astudiaeth achos hon yw pa mor bwysig yw hi fod arweinwyr yn defnyddio data'n effeithiol i adnabod y disgyblion hynny sy'n disgyn ar ei hôl hi ac i ddarparu a gwerthuso ymyriadau cynnar priodol.

Themau	Ffactorau penodol	YYD
Arweinyddiaeth	Uwch arweinydd dynodedig	✓✓
	Defnydd cadarn o ddata a hunan werthusiad	✓✓
	Hyfforddi a threfnu staff yn cynnwys arbenigwyr	✓✓
	Cysylltiad cryf gyda llywodraethwyr	✓
Addysgu a Dysgu	Strategaethau addysgu aml-synhwyrol	
	Rhaglenni dal i fyny	✓✓
	Cwricwlwm wedi ei deilwra yn adeiladu ar ddiddordebau a galluoedd dysgwyr, yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol	✓
	Rhaglenni lles ac ymddygiad ar gyfer dysgu yn cynnwys canolbwyntio ar bresenoldeb, gwrando ar ddysgwyr ac adeiladu hunan barch	✓✓
Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach	Dialog gref gyda rhieni	✓✓
	Sefydlu a chynnal partneriaethau strategol	✓✓

Cyswllt Allweddol

Heini Thomas
Pennaeth
Ysgol Y Dderi
Llangybi
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 8LY
01570 493424
prif@ydderi.ceredigion.sch.uk

3. Ysgol Gyfun Pencoed

LLEIHAU EFFAITH TLODI AR GYRHAEDDIAD ADDYSGOL

ARSYLLFA POLISI ASTUDIAETH ACHOS 3

Enw'r Ysgol/Lleoliad: **Ysgol Gyfun Pencoed**

Awdurdod Lleol: **Pen-y-bont Ar Ogwr**

Math o Ysgol/Lleoliad: **Uwchradd**

Cyfrwng Iaith: **Saesneg**

Nifer y Disgyblion: **879**

Canran Prydau Ysgol am Ddim: **13%**

Canolbwynt yr Astudiaeth Achos

Defnydd effeithiol o ddata i gefnogi dyheadau pobl ifanc er mwyn iddynt allu datblygu'r cryfder i gyflawni eu potensial; ac i adnabod disgyblion sy'n disgyn ar ei hôl hi sydd wedyn yn cael cymorth gan ymyriadau priodol

Mae Ysgol Gyfun Pencoed yn ysgol gyfun gymunedol gymysg 11 – 18 o oddeutu 879 o ddisgyblion²³. Mae'r ysgol yn nhref fechan lled-wledig Pencoed, pedair milltir i'r dwyrain o Ben-y-bont Ar Ogwr ger traffordd yr M4. Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch sy'n croesi dau Awdurdod Lleol. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r Awdurdod Lleol Pen-y-bont Ar Ogwr ac mae lleiafrif mawr o ddisgyblion yn dod o Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf. Ceir amrywiaeth mawr yn y dalgylch gyda sawl piced o amddifadedd. Mae cyfraddau cyflogaeth yn gymharol uchel oherwydd agosrwydd at goridor yr M4; fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod o gartrefi gydag incwm canolig i isel.²⁴ Canran cyfartalog pum mlynedd y disgyblion cymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 13% sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer yr Awdurdod Lleol ac yn genedlaethol ledled Cymru.²⁵

Yr Astudiaeth Achos

Mae disgyblion o bob gallu yn mynychu'r ysgol ac mae'r holl staff yn credu'n gryf yn y gwerthoedd craidd canlynol, sydd wedi eu gosod yn sail i arfer dyddiol:

- *Disgyblion yn Gyntaf*

²³ Fy Ysgol Leol 2013

²⁴ Estyn 2010 Adroddiad Arolwg Ysgol

²⁵ Stats Cymru

- *Mae Amser Dysgu'n Hollbwysig*
- *Parch gan y Naill a'r Llall*
- *Gweithio Gyda'n Gilydd yn Gyson*
- *Dathlu'r Gorau - Herio'r Gweddill*

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar ddefnyddio data'n effeithiol i gefnogi dyheadau pobl ifanc er mwyn iddynt allu datblygu'r cryfder i gyflawni eu potensial; ac i adnabod disgyblion sy'n disgyn ar ei hôl hi sydd wedyn yn cael cymorth gan ymyriadau priodol.

Cymuned

Mae Ysgol Gyfun Pencoed yn ymfalchïo mewn bod yn ysgol hapus a gofalgaf²⁶. Saif yr ysgol ar safle maes glas helaeth gydag adnoddau o safon uchel ym mhob maes, mae'r ysgol yn cynnig cyfleusterau rhagorol ar gyfer chwaraeon a'r celfyddydau perfformio, sydd hefyd yn cael eu defnyddio'n helaeth gan y gymuned leol.

Mae gan yr ysgol ethos teuluol a chymunedol cryf, sy'n cael ei amlygu gan ei systemau 'Tŷ a Bugeiliol' unigryw, sydd yn boblogaidd iawn gyda disgyblion. Mae disgyblion Pencoed yn weithgar iawn yn codi arian ar gyfer elusennau lleol. Ceir llif cyson o wahanol weithgareddau gan yr holl ddisgyblion trwy gydol y flwyddyn ysgol. Cafodd enghraifft diweddar sylw ym mhapur newydd 'The Gem'²⁷, gyda stori am blant blwyddyn 12 yn codi £1420.00 ar gyfer offer i Cerys Griffiths, disgybl yn Ysgol Gynradd Croesty.

“Rydym yn credu y bydd gan berson ifanc hapus, iach sy'n derbyn cefnogaeth bob cyfle i ddatblygu i'w potensial llawn yn academiaidd, yn bersonol ac yn gymdeithasol.”²⁸

Gweledigaeth Ysgol

Mae mentrau presennol yr ysgol sydd naill ai dan arweiniad yr ysgol neu mewn partneriaeth ag eraill yn cynnwys: Clwb Amser Cinio'r Dinasyddion Hŷn, Prosiect 1932 gyda Dr Louisa Evans, Clwb Gofal Plant ar ôl Ysgol 'The Zone', a Dosbarthiadau Cadw Lan gyda'ch Plentyn i rieni.

Siwrnai Pencoed

Yn Ebrill 2010, cynhaliodd Estyn arolwg craidd o'r ysgol ac o ganlyniad fe wnaeth argymhellion sylweddol ar gyfer gwelliant. Yn dilyn arolwg 2010 aeth yr ysgol i gyfnod o adolygiad llawn a chynhyrchwyd 'Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolwg' sydd wedi parhau i mewn i'r 'Cynllun Gwella Ysgol' a'r 'Cylch Ansawdd' sydd wedi ei fabwysiadu'n llawn. Nod allweddol yn ystod y cyfnod adolygu oedd newid ethos yr

²⁶ <http://www.pencoedcs.bridgend.sch.uk/information.shtml>

²⁷ The Gem Ionawr 23^{ain} 2014 Codi arian gan ddisgyblion Pencoed yn helpu teulu lleol

²⁸ Gwefan Ysgol Gyfun Pencoed <http://www.pencoedcs.bridgend.sch.uk/index.shtml>

ysgol, gyda nod tymor hirach o welliant sylweddol mewn safonau. Cafodd Grŵp Strategol y Llywodraethwyr ei sefydlu a bu'n gweithredu fel 'ffrind beirniadol' ac mae wedi cyfrannu at godi atebolrwydd ac o ganlyniad derbyniodd y Corff Llywodraethu Wobr Efydd gan Llywodraethwyr Cymru fel cydnabyddiaeth o'i waith caled. Ym Medi 2010 lansiodd yr ysgol ei 'System Tracio Disgyblion' newydd, sy'n cael ei hadolygu'n gyson ac sy'n dal i esblygu.

System Tracio Disgyblion

Mae Ysgol Gyfun Pencoed yn rhoi pwyslais mawr ar ddata. Y Pennaeth Cynorthwyol sy'n arwain fel Rheolwr Data ac mae ganddo dîm o staff cymorth yn cynnwys Rheolwyr Perfformiad Disgyblion. Ers 2010 mae'r ysgol gyfan wedi mabwysiadu'r defnydd effeithiol o ddata i godi dyheadau ac i wella perfformiad wrth i'r ysgol sylweddoli ar adeg yr arolwg bod disgwyliaid yn rhy isel a bod angen i staff a disgyblion gael eu herio i gyrraedd at goliau newydd.

Mae'r Rheolwr Data yn gosod targedau yn defnyddio 'Data Set D' Fischer Family Trust²⁹ sy'n rhagfynegi deilliannau disgyblion ar Gyfnod Allweddol 4, yna mewn ymgynghoriad â disgyblion ac athrawon mae'n gosod targedau hyd yn oed yn uwch i ymgyrraedd ato ac yn llunio taflwybr i ddangos sut y mae disgyblion yn mynd i gyrraedd eu goliau. Mae llywodraethwyr yn adolygu targedau ac yn herio athrawon os nad ydynt yn ddigon uchel. Yn ôl y pennaeth mae disgyblion wedi ymateb yn dda i'r targedau dyheadol hyn ac maen nhw'n sail i bob agwedd ar addysgu a dysgu, yn cynnwys gwaith cartref ac agwedd.

“Mae ein targedau'n seiliedig ar y FFT.”

“Weithiau pan fyddwch yn cael eich targedau chi'n meddwl, hei, nai byth gael hynna, ond yna rydych yn cael arweiniad clir a help ar sut i gyrraedd yno ac rydych yn teimlo'n llawer gwell.”

“Rydych yn cael eich herio'n gyson i ragori ar eich disgwyliaid eich hunan.”

Llais Disgybl

Mae disgyblion yn cael eu rhannu i 'Dai' ac mae Pennaethiaid y Tai yn ysgrifennu adroddiad 'Adolygiad o Safonau' 3 gwaith y flwyddyn sy'n canolbwyntio ar ddadansoddi presenoldeb, perfformiad ac ymddygiad pob disgybl unigol. Mae penaeithiaid adran hefyd yn cynhyrchu adroddiadau 3 gwaith y flwyddyn ac mae'r ddau adroddiad hyn yn cael eu cyflwyno i'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr er mwyn iddynt eu trafod.

“Rydym yn edrych ar gyflawniad a phresenoldeb, lle mae ymyriadau yn cael eu cyflwyno, pob lefel, oedran a chyfnod, pob gallu, pob grŵp ar draws yr ysgol, rydym yn

²⁹ <http://www.fft.org.uk/fft-live/target-setting.aspx>

dadansoddi yn ôl prydau ysgol am ddim, AAA, mwy abl a thalentog, bechgyn a merched.”

Pennaeth

Mae'r holl staff, disgyblion a llywodraethwyr yn cydnabod bod rheoli data wedi bod yn offeryn pwerus yn codi safonau mewn addysgu a dysgu. Mae atebolrwydd y data yn hollol gadarn gan fod y pennaeth yn hyderus ac yn sicr bod y data sy'n cael ei gadw yn gywir a chadarn.

Mae cynnydd disgyblion yn cael ei ddilyn yn gyson ac yn cael ei fapio mewn fformat cod lliw cyson ac mae pawb yn deall yr eirfa. Cod lliw- gwyrdd= ar drac, melyn = 1 gradd islaw, coch= 2 radd neu fwy islaw. Yn weledol mae hyn yn ei gwneud yn hawdd gweld ble ceir pocedi o dangyflawni.

“Gallwn weld, o'r data, pa ddisgyblion sy'n tangyflawni a gosod targedau staff i ddod â nhw at lefel y targed FFT y maen nhw'n ymgynhyrchu amdano. Mae'r data'n cael ei drafod yn gyson, gydag athrawon, disgyblion a rhieni sy'n golygu bod disgwyliadau ynghylch cyflawniad a chyrhaeddiad cymaint yn uwch.”

Pennaeth

Mae pob disgybl yn cael adroddiad cod lliw unigol bob tymor ac mae crynodeb yn cael ei anfon at rieni. Mae'n cynllunio graddau a hefyd yn mesur agweddau at ddysgu. Y tu fewn i bob cynllunydd disgybl mae llyfyrdd gwag wedi eu gosod ar gyfer sticeri data ac mae disgyblion yn gosod targedau, cynllunio tracio a gwneud sylwadau ar eu cynnydd eu hunain y tu fewn i bob llyfr gwaith unigol. Mae rhieni hefyd yn derbyn neges destun yn eu hysbysu bod disgybl wedi cael sticer data yn eu cynllunydd ac mae'r holl system ar sail cod lliw. Dangosir enghraifft yma:

Pupil A OPW Achievement Points: 90			
SUBJECT	TARGET	CP2	ATTITUDE
BUSINESS	C	C	GOOD
DRAMA	A	B+	EXCELLENT
ENGLISH	B	B	EXCELLENT
HISTORY	A	B+	EXCELLENT
IT	B	B	EXCELLENT
MATHS	B	F	SATISFACTORY
RE	B	B	GOOD
SCIENCE	B	C	GOOD
WELSH	B	B-	EXCELLENT

“Rwy'n credu ei fod yn dda, mae'r sticeri data yn helpu achos rydych yn gwybod yn union ble'r ydych chi.”

“Mae'r lliwiau'n dda, mae'n hawdd gweld eich targedau a chanlyniadau.”

“Gallwch herio eich marciau os ydych yn meddwl eu bod nhw’n anghywir, cyn belled â’ch bod chi’n gallu dangos eich pwynt mewn ffordd resymol bydd yr athrawon bob amser yn gwrandao arnoch chi.”

Llais Disgybl

Mae’r system tracio data soffistigedig wedi cael ei datblygu yn yr ysgol. Roedd staff yn sylweddoli bod angen system ddiogel arnynt ac fe wnaethant ddyfeisio un ar gyfer eu hanghenion eu hunain. Aeth sawl aelod o staff ati i ymchwilio’r hyn oedd ar gael ac ymweld ag ysgolion eraill. Yna daethant at ei gilydd, rhannu syniadau a dyfeisio system newydd.

Gyda chymorth arbenigwr data’r Awdurdod Lleol gosododd y tîm y meini prawf yn y System Rheoli Gwybodaeth Ysgol (SIMS) a thrin eu data, ac yna’i allforio i mewn i’w taenlenni Excel yr oeddent wedi eu cynllunio eu hunain. Roedd y system hon yn llwyddiannus ac mae’r tîm yn parhau i weithio yn y ffordd hon gan eu bod yn hyderus ei bod yn ddibynadwy, ac maen nhw hyd yn oed yn gwirio ansawdd ei gadernid:

“Pan fyddwn ni’n cael data o brofion cenedlaethol rydym yn ei ddefnyddio’n effeithiol iawn i groes gyfeirio ein system tracio data a data canlyniadau ein hunain.”

Rheolwr Data

Dangosir llun sgrin o ddata tracio yma:

Gifted/Talented	Reg Group	House	CP3 ART KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 DRAMA KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 ENGINEERING RITEC KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 ENGLISH KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 FRENCH KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 GEOG KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 HES KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 HEC KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 HISTORY KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 ICT DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 MATHS KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 MEDIA KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 MUSIC KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 PE KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 PRE-ADTS KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 RE KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 SCIENCE KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 SPANISH KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 SPORT DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 SYSTEMS KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP3 WELSH KS4 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP A-C INC ENGLISH & *2 DATA TRACKING 3 2013-14	CP A-C ENGLISH *2 DATA TRACKING 3 FORMULA	CP A-C MATHS *2 DATA TRACKING 3 FORMULA	A*-A GRADE TALLY
	OPW	OWAIN	B-																								
	GLC	GWENLLIA	B+																								
	GRJ	GWENLLIA																									
	LHW	LLYWELYN																									
	GSK	GWENLLIA																									
	BJR	BRANIWEN																									
	GKD	GWENLLIA																									
	ONMP	OWAIN																									
	GRJ	GWENLLIA																									
x	BAR	BRANIWEN																									
	BAR	BRANIWEN																									
	LR																										
	LKJ	LLYWELYN																									
	LHW	LLYWELYN																									

Mae sicrhau bod pawb yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am dracio data a bod pawb yn cymryd rhan ynddo wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r ffordd mae addysgu'n cael ei gynllunio. Mae cyfrifoldeb dros Saesneg yn uchel iawn gan y gellir canfod a monitro pocedi o dangyflawni yn gyflym. Mae pob athro'n gallu cael gafael ar y system rheoli data yn barhaus ac yn gyson, ac mae gan bob adran ei ffolder eu hun yn y system er mwyn gallu gweld beth sydd wedi mynd yn dda, beth sydd wedi gweithio, a beth sydd angen ei addasu ar gyfer setiau penodol o ddisgyblion. Mae staff yn gallu gweld yn glir faint o gymorth mae plant wedi ei gael a pha strategaethau y gallant eu rhoi mewn lle ar gyfer gwelliant y tro nesaf.

Ymyriadau Wedi eu Targedu at Ddisgyblion

Mae Ysgol Gyfun Pencoed yn cynnig dros 20 o ymyriadau, y mae'r ysgol yn eu defnyddio i fapio cynnydd a lles disgyblion yn effeithiol ar ei system data.

“Gofyn am help – mae ein plant yn sylweddoli ei fod yn iawn, does ‘na ddim methiant, mae’n iawn i gael cymorth.”

Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae pob disgybl ym mlwyddyn 7 yn cael eu profi ar BKS Live.³⁰ Mae'r rhaglen yn gofyn i ddisgyblion ymgymryd ag asesiad dechreuol, sydd yna'n eu cyfeirio at ddiagnostig priodol ar gyfer eu gallu mewn llythrennedd a rhifedd. Yn dilyn prawf mae pob disgybl yn derbyn argraffiad unigol o'u cryfderau a meysydd i'w datblygu mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd, a thrwy hynny'n derbyn cynllun dysgu. Mae athrawon dosbarth yn gallu defnyddio'r data proffil i gynllunio amser mewn gwrs i dargedu anghenion grwpiau allweddol o ddisgyblion ac i atgyfnerthu'r bylchau yn sgiliau sylfaenol y plant yn eu dosbarth.

Yn dilyn BKS, mae gan yr ysgol ymyriadau un i un dwys fel 'Spotlight' a 'Catch Up'. Mae Spotlight yn rhaglen ymyriad sydd wedi ei chynllunio i helpu disgyblion gyda sgiliau rhifedd. Mae nifer o'r disgyblion ar Spotlight wedi methu â dysgu cysyniadau a sgiliau rhifedd yn yr ysgol gynradd, mae rhai wedi camddeall y ffordd yr oedd yn cael ei addysgu neu wedi methu ysgol pan oedd sgiliau sylfaenol yn cael eu dangos i weddill y dosbarth. Mae disgyblion yn mynychu am 30 munud bob wythnos ac yn canolbwyntio ar sgil penodol; maen nhw'n symud ymlaen unwaith y maen nhw wedi deall y cysyniad yn llawn ac yn gallu ei ddangos yn effeithiol.

Mae 'Catch Up' yn ymyriad llythrennedd sydd wedi ei strwythuro ac sy'n rhaglen ddwys un i un gyda'r bwriad o ddatblygu ac annog sgiliau darllen da. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ffoneg, seiniau a llythrennau sy'n cynnwys gweithgaredd ysgrifenedig byr i ddatblygu strwythur brawddeg, a darllen a deall ysgrifenedig. Ychwanegir at yr ymyriad hwn gan y cynllun 'stAR Reader'. Mae pob disgybl ym

³⁰ Mae BKS yn darparu datrysiadau rhyngweithol i wella Saesneg, Mathemateg a sgiliau TGCh. Gweler: <http://www.bksb.co.uk/about/>

mlwyddyn 7 bellach ar y rhaglen hon. Ar ôl cael prawf, mae disgyblion yn derbyn Parth Datblygiad Procsimol (Zone of Proximal Development - ZPD) sy'n golygu na fydd y llyfrau y maent yn gweithio gyda nhw yn rhy anodd nac yn rhy hawdd ac sy'n dangos pa mor bell y gellir ymestyn y disgybl. Mae disgyblion o'r chweched dosbarth yn gweithio gyda disgyblion wedi eu targedu fel Bydi Darllen i annog darllen ymhellach. Unwaith y mae disgyblion wedi darllen llyfr maen nhw'n cwblhau cwis ar-lein, a fydd yn asesu a ydynt wedi deall y llyfr yn iawn. Gellir cynhyrchu adroddiadau unigol ar y cwisiau i ddylanwadu ar gynnydd. Yn ogystal, mae'r rhaglen yn gweithio ar y cyd â chynllun dysgu'r adran Saesneg. Mae pob dosbarth yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cael un wers bob pythefnos yn y llyfrgell i ddarllen a chwblhau profion a chwisiau 'stAR Reader'.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol hefyd yn cynnig y cwrs 'PUPIL'. Ystyr PUPIL yw 'Pupils Understanding Problems in their Locality'. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen hon yn targedu grwpiau o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 trwy weithio ar brosiectau sy'n codi ymwybyddiaeth disgyblion o'u gweithredoedd a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy wella sgiliau cyfathrebu a meithrin tîm. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn mynychu'n aml i roi cymorth i ddisgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned.

Gwobrau

Mae'r system tracio data yn dal tablau cynghrair am bresenoldeb - mae dosbarthiadau gyda'r presenoldeb gorau yn derbyn gwobr 'Bacon Buttie Reward' bob hanner tymor. Mae'r dosbarth cyfan yn derbyn brechdanau cig moch twym.

Mae disgyblion hefyd yn gallu ennill 'Fast Pass' ar gyfer cinio. Mae disgyblion gyda phresenoldeb o 100% yn mynd yn syth i flaen y ciw cinio am wythnos gyfan.

Clwb 1000 – ar ddechrau pob tymor mae pob disgybl yn cael 500 pwynt. Maen nhw'n gallu ennill pwyntiau cadarnhaol o wers i wers naill ai trwy bresenoldeb da, bod yn weithgar yn y dosbarth, bod yn aelodau o glwb, a gwella perfformiad tracio bob hanner tymor. Mae'r cynllun yn cael cymorth nawdd gan fusnesau lleol ac mae disgyblion yn cael cyfle i ennill gwobrau mewn raffl fel beiciau, sgwteri, llechi electronig, talebau ac ati. Mae'r raffl yn digwydd ar ddiwedd y tymor yn ystod y 'Diwrnodau Gwobrau Dathlu Llwyddiant' ac mae presenoldeb wedi cynyddu'n sylweddol ar ddiwedd y tymor oherwydd y diwrnodau hyn.

“Rydym yn gwybod bod rhaid i ni fod yma i wneud yn dda.”

“Mae'r gwobrau'n dda iawn, gallwch chi ennill beic, llechen, talebau, arian, losin. Roeddwn i wir eisiau ennill y sgwter y llynedd.”

Llais Disgybl

Derbyniodd disgyblion oedd yn cael eu hamlygu yn y 'Band Gwyrdd' ar y system data lythyrau o longyfarchiadau am fod ar neu yn uwch na'u targed. Cafodd

disgyblion oedd wedi gwneud cynnydd sylweddol yn anelu at gyrraedd eu targed eu cydnabod hefyd, h.y. symud o goch i felyn, neu wneud cynnydd sylweddol rhwng lefelau. Gosodwyd poster i amgylch yr ysgol i gydnabod a llongyfarch y disgyblion hyn ac roedd enwau hefyd yn cael eu galw yn y gwasanaeth ac yn cael eu cyfathrebu i rieni.

“Does dim un rhiant eisiau i’w plentyn fethu; rydym wedi darganfod bod trafodaethau am ddysgu a dyheadau yn digwydd adref yn awr ac efallai nad oedd hynny’n digwydd o’r blaen.”

Pennaeth

Tystiolaeth o Effaith

Mae data monitro’r ysgol yn dangos cynnydd mewn presenoldeb o 92.3% yn 2012 i 93.8% yn 2013 ac fe gwmpodd cyfraddau gwahardd yn sylweddol.

Bob tro mae disgyblion yn mynd at wasanaeth mae’n cael ei nodi ar y System Rheoli Ymddygiad yn SIMS a gellir mesur pob ymyriad. Mae gwasanaethau lles ac ymyriadau emosiynol yn cael eu mesur yn defnyddio holiaduron ar ddechrau a diwedd y rhaglen ac mae’r rhain wedi profi i fod yn effeithiol.

Fel ysgol gynhwysol mae Pencoed yn monitro’r holl ddisgyblion i sicrhau eu bod yn derbyn ymyriadau priodol yn unol ag angen ac mae effaith hefyd yn cael ei gofnodi.

“Mae llwyddiant yn gallu digwydd ar nifer o lefelau gwahanol. Symudodd un o’n plant ni o’r uned anghenion arbennig i’r ysgol prif ffrwd, roedd hyn yn llwyddiant ysgubol.”

Llywodraethwr


Mae nifer o staff yn rhannu hanesion am blant sydd wedi pasio ystod o arholiadau TGAU na fyddent byth wedi credu iddo fod yn bosib. Yn 2013 enillodd 96% o fyfyrwyr TGAU gymwysterau’n cyfateb i 5 gradd 5 A*-i-C.

Mae’r ysgol hefyd wedi bod yn effeithiol yn cau’r bwlch rhwng disgyblion prydau ysgol am ddim a disgyblion dim prydau ysgol am ddim fel y mae’r dystiolaeth data cyflawniad ‘Lefel 2 Cynhwysol’ isod dros y pum mlynedd diwethaf rhwng 2009 a 2013 yn ei dangos.

Disgyblion	2009	2010	2011	2012	2013
Prydau Ysgol am Ddim	13.0%	16.7%	35.3%	50.0%	50.0%
Dim Prydau Ysgol am Ddim	51.4%	45.1%	45.1%	59.4%	61.0%

% Pupils achieving the level 2 threshold including English/Welsh and Maths

The percentage of pupils who have achieved the Level 2 threshold, which is a volume of qualifications equivalent to the volume of 5 GCSEs at Grade A*-C including one in English or Welsh first language and one in Mathematics.



Data Fy Ysgol Leol³¹

Datblygiadau i'r Dyfodol

Mae'r pennaeth yn awyddus i ddatblygu llais y disgyblion ac yn cynnig 'cynllun gwella ysgol dan arweiniad disgyblion' i gynnal y diwylliant o lwyddiant.

Mae'r Tîm Data hefyd yn edrych ar ffyrdd newydd o weithio gyda gwybodaeth a sut y gallant barhau i ddefnyddio data er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau posib i ddysgwyr.

Cyllid

Mae gan yr ysgol gynlluniau cynhwysfawr ar gyfer gweithgaredd Grant Amddifadedd Disgyblion yn cynnwys:

- Adnabyddiaeth gadarn o angen disgyblion a dilyn cynnydd.
- Agwedd systematig tuag at ymyriad, cymorth ac adborth, yn cynnwys y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag dysgu a'r rhai y mae eu presenoldeb yn achosi pryder.
- Sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr sy'n profi anfantais faterol sydd ag ADY, yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, neu sydd ag anghenion emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiad.

³¹ <http://mylocalschool.wales.gov.uk/school.htm?estab=6724076&iaith=eng>

- Mynediad at weithgareddau cyfoethogi, cael gwared ar rwystrau ariannol i gyfranogiad, darparu gweithgareddau a chyfleoedd y tu allan i'r ysgol: clybiau brecwast am ddim, ymweliadau, prynu adnoddau.
- Hyfforddiant ychwanegol a dysgu annibynnol wedi ei bersonoli trwy lechi TGCh ar fenthyg.
- Cymorth a mentora personol i wella lles a pharodrwydd i ddysgu: prynu 'Rapid Reading Scheme'.
- Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd (yn gweithio ar hyn o bryd gyda chleientiaid y mae 60% ohonynt yn derbyn prydau ysgol am ddim) i ddatblygu strategaethau sy'n cynnwys y teulu a'r gymuned i ddangos y ffordd at ddysgu, e.e. Caffi Darllen.
- Sicrhau cyfleoedd i wneud llais y dysgwr yn sail i bob penderfyniad sy'n cael ei wneud.

Crynodeb

Y neges allweddol o'r astudiaeth achos hon yw pa mor bwysig yw hi fod arweinyddion yn defnyddio data yn effeithiol i adnabod y disgyblion hynny sy'n disgyn ar ei hôl hi ac i fonitro a gwerthuso effaith ymyriadau er mwyn mynd i'r afael â thangyflawni.

Themau	Ffactorau penodol	Pen
Arweinyddiaeth	Uwch arweinydd dynodedig	✓✓
	Defnydd cadarn o ddata a hunan werthusiad	✓✓
	Hyfforddi a threfnu staff yn cynnwys arbenigwyr	✓✓
	Cysylltiad cryf gyda llywodraethwyr	✓✓
Addysgu a Dysgu	Rhaglenni dal i fyny	✓✓
	Cwricwlwm wedi ei deilwra yn adeiladu ar ddiddordebau a galluoedd dysgwyr, yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol	✓
	Rhaglenni lles ac ymddygiad ar gyfer dysgu yn cynnwys canolbwyntio ar bresenoldeb, gwrando ar ddysgwyr ac adeiladu hunan barch	✓✓
	Adborth ac asesiad effeithiol	✓
Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach	Dialog gref gyda rhieni	✓

Cyswllt Allweddol

Mr David George, Pennaeth
 Heol Llangrallo
 Pencoed, Pen-y-bont Ar Ogwr, CF35 5LZ
 Ffôn: 01656 867100

admin.pencoedcomp@bridgend.gov.uk

4. Ysgol Hen Felin

LLEIHAU EFFAITH TLODI AR GYRHAEDDIAD ADDYSGOL

ARSYLLFA POLISI ASTUDIAETH ACHOS 4

Enw'r Ysgol/Lleoliad: **Ysgol Hen Felin**

Awdurdod Lleol: **Rhondda Cynon Taf**

Math o Ysgol/Lleoliad: **Arbennig**

Cyfrwng Iaith: **Saesneg**

Nifer y Disgyblion: **164**

Canran Prydau Ysgol am Ddim: **52%**

Canolbwynt yr Astudiaeth Achos

Datblygu gweithlu trwy hyfforddiant a hunan werthusiad staff ac arweinyddiaeth ddosbarthedig

Mae Ysgol Hen Felin yn Ysgol ddydd, gymunedol arbennig yn Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf. Mae'n darparu ar gyfer 164 o ddisgyblion o 3 i 19 oed gyda datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) sy'n cynnwys anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog, nam ar y clyw, ac anawsterau emosiynol ac ymddygiadol³². Mae disgyblion yn dod o ardaloedd o fewn y fwrdeistref leol, llawr ohonynt â phocedi o amddifadedd cymdeithasol. Mae 17 o ddisgyblion 'sy'n derbyn gofal' yn yr ysgol ac ar hyn o bryd mae 52% o ddisgyblion yn gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim (PYADd); mae hyn yn sylweddol uwch na'r ffigyrau lleol a chenedlaethol ledled Cymru.

Yr Astudiaeth Achos

Cenhadaeth Ysgol Hen Felin yw darparu amgylchedd diogel sy'n meithrin plant ble mae'r holl blant yn gallu cyflawni eu potensial.

Datganiad Gweledigaeth³³

Cymuned Hapus, groesawgar ble mae'r
Ethos o ymddiriedaeth rhwng disgyblion, staff, rhieni ac ymwelwyr yn cynhyrchu
Amgylchedd sy'n meithrin ac sy'n sicrhau y gall unigolion gyflawni eu potensial.

³² Estyn 2009 Adroddiad Arolwg Ysgol

³³ Gwefan Ysgol Hen Felin <https://rctmoodle.org/ysgolhenfelin/course/view.php?id=16>

Ysgol flaengar ble mae gweithwyr proffesiynol yn rhannu ac ymestyn eu harbenigedd
Ac mae cyfle cyfartal yn cael ei hwyluso trwy werthfawrogi pob unigolyn yn gyfartal
Ysgol sy'n weithgar yn Lleol ble mae datblygu sgiliau bywyd yn sicrhau llwyddiant
Mentrau Cynhwysol o fewn yr ysgol a'r gymuned wrth dalu sylw at Dueddiadau
Cenedlaethol mewn addysg, hyfforddiant a chynhwysiant cymdeithasol.

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar ddatblygu gweithlu trwy hyfforddiant staff, hunan arfarnu, ac arweinyddiaeth ddosbarthedig.

Siwrnai Ysgol Hen Felin

Mae Ysgol Hen Felin yn gweithredu nifer o strategaethau i ennyn diddordeb disgyblion ac i gael disgyblion i gyfranogi at fywyd yr ysgol. Er mwyn cyflawni deilliannau dysgu mae gan rai disgyblion eu hamserlenni eu hunain neu gwricwlwm cyfyng addas gyda mynediad at brif weithgareddau'r ystafell ddosbarth. Fe all fod angen adnoddau arbenigol ac mewn rhai achosion mae disgyblion yn cael amser ychwanegol i gwblhau tasgau. Mae ymddygiad mwy heriol yn cael ei fonitro gan gynlluniau ymddygiad unigol (CYU), ac mae'r ysgol yn helpu athrawon a gofalwyr trwy roi hyfforddiant a strategaethau priodol iddynt a rhwydweithiau ymdopi emosiynol cefnogol.

Mae Ysgol Hen Felin yn gorfodi polisi ysgol gyfan, sy'n amddiffyn unigolion rhag rhagfarn a gwahaniaethu amlwg a chudd. Mae'n rhoi cyfle i ddisgyblion fyw bywyd llawn a gwerthfawr a chymryd rhan mewn nifer o ymweliadau sy'n cyfoethogi addysg e.e. archwilio orielau celf fel Tate Modern, Llundain ac ymweld â Stadiwm Mileniwm Cymru i weld Cymru'n chwarae rygbi.

“Rwy’n hoffi mynd ar deithiau bws a mynd mewn lifft – pwyso botymau.”

Llais Disgybl

Mae'r pennaeth yn aelod gweithredol o'r gymuned Ysgol Arbennig a thrwy nifer o bartneriaethau mae wedi gallu rhoi prawf ar a sefydlu ymyriadau effeithiol er mwyn mynd i'r afael ag amddifadedd ac anfantais. Mae nifer o'r rhain yn cael eu rhannu'n agored gyda chydweithwyr eraill gyda'r bwriad o ddatblygu arfer gorau yn y sector.

“Dyna ddylai ein harwyddair ei ddweud - “pam ddim - pam na allwn ni ei wneud?”

Pennaeth

Yn y blynyddoedd mwyaf diweddar mae staff yn Ysgol Hen Felin wedi dod yn ymwybodol iawn eu bod eisiau datblygu eu hymrwymiad ag arfer a pholisi addysg ymhellach ac maen nhw'n datblygu ffyrdd i bontio'r bwlch rhwng ysgolion prif ffrwd ac arbennig. O ganlyniad i'r meddwl myfyriol hwn mae staff wrthi'n gweithio ar ganfod sut i 'adrodd yr hanes' a 'dangos y gwahaniaeth' y mae eu harfer yn ei wneud.

“Rydym eisiau i bobl ymgysylltu â ni a gwybod beth rydym yn ei wneud – rydym eisiau rhannu hynny.”

Pennaeth

Mae'r neges hon yn arbennig o berthnasol gan fod y mwyafrif o ddisgyblion yn Ysgol Hen Felin eisoes wedi derbyn profiad prif ffrwd; ac wedyn wedi ymuno â'r ysgol ar gam diweddarach yn eu bywyd ysgol yn ystod Cyfnod Allweddol 3.

“Mae gennym ni system addysg llawer mwy cynhwysol yng Nghymru, beth ddylai pobl ei wneud yw edrych atom ni i weld sut y gallan nhw ddefnyddio'r hyn yr ydym ni wedi ei ddysgu a'i ddefnyddio mewn ysgol prif ffrwd.”

Pennaeth

Ymyriad Arbenigol- DIR (Developmental Individual Relationships)

Mae CTC Autism³⁴ yn dîm o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaeth brwdfrydig sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau gyda chyfathrebu, rhyngweithio a meddwl. Mae ymyriad y tîm yn seiliedig ar y model 'Developmental Individual Relationship' (DIR®) sy'n gweithio o safbwynt sy'n hwylus i'r plentyn ac sy'n canolbwyntio ar y person. Mae ymarferwyr DIR yn gwerthfawrogi pob plentyn a theulu unigol ar eu rhinwedd eu hunain a byddant yn teilwra'r dull gwaith i gwrdd ag anghenion penodol.

Mae CTC yn gweithio gyda theuluoedd i'w cefnogi gyda'u profiad o fagu plentyn eithriadol, ac mae'n darparu hyfforddiant i staff Ysgol Hen Felin, gan hyrwyddo arfer gorau gwasanaethau o ansawdd i deuluoedd trwy:

- Ragdybio cymhwysedd gan bawb
- Hybu unigolion rheoledig ac ymrwymedig
- Helpu unigolion i fyw yn annibynnol a byw bywyd llawn
- Sicrhau bod unigolion yn datblygu synnwyr da o'r hunan
- Paratoi unigolion ar gyfer byw bywydau llwyddiannus a hapus – yn emosiynol, cymdeithasol, ymddygiadol ac academiaidd hyd eithaf eu gallu

Mae arbenigwr DIR yn ymweld ag Ysgol Hen Felin 2 ddiwrnod yr wythnos i weithio gyda theuluoedd, plant unigol a staff i oresgyn a chael gwared â rhwystrau er mwyn galluogi dysgu llawn a hygyrch. Yn aml bydd plant ag anghenion arbennig yn teimlo'n nerfus a than bwysau yn arbennig os ydynt yn ddadreoledig yn emosiynol a synhwyraidd. Gall hyd yn oed tasgau syml fel eistedd yn llonydd a gwrando yn ystod 'amser cylch' fod yn ddryslyd a brawychus i rai plant. Mae cysondeb a chyfathrebu wedi profi i fod yn allweddol yn helpu disgyblion yn Ysgol Hen Felin i ddod yn fwy rheoledig, trefnus, cyfforddus ac ymrwymedig gyda'u hathrawon, cyfoedion a'u lleoliad ac yn awr maen nhw'n gallu symud ymlaen i gyflawni eu potensial llawn.

³⁴ <http://www.ctcautism.co.uk/>

“Rhaid cael rhyngweithio dwy ffordd – heb hwnnw mae sefyllfaoedd ystafell ddosbarth yn anodd.”

Arbenigwr DIR

Mae hyfforddiant dechreuol yn dangos sut i rhyngweithio gyda'r plant a model arbenigol “amser llawr” sy'n cael ei ddefnyddio i asesu'r plant yn ddatblygiadol. Mae rhieni ac ymarferwyr yn dysgu sut i edrych ar bob plentyn a deall gwahaniaethau manwl unigol, e.e. systemau prosesu echddygol, synhwyrdd ac ymddygiadol, ac yna gosod goliau ynghylch deall lle pob plentyn yn y byd a sut mae pob plentyn yn “bodoli yn y byd”.

Mae effaith ac ysgogiad yn rhan fawr o DIR; gweithio gyda'r plentyn i gyfathrebu strategaethau a dealltwriaeth, ac felly peidio â gwneud iddyn nhw ei wneud. Mae perthnasau'n cael eu hadeiladu ar yr hyn sy'n cael ei ystyried i gael yr effaith cywir ar gyfer y plentyn, trwy addasu tôn y llais, y geiriau sy'n cael eu defnyddio, ystumiau ac iaith gorfforol - mae'r rhain i gyd yn cynyddu ymrwymiad ac ysgogiad. Nid yw hyn bob amser yn golygu bod rhyngweithio yn “ddramatig”, weithiau bydd angen i ymarferwyr gadw'n fwy tawel er mwyn i'r plant allu treulio amser yn rheoli eu hunain ac ymateb yn wahanol.

“Mae'n hwyl ac yn gyfeillgar, mae gennym lawer o bobl wych i weithio gyda nhw.”

Llais Disgybl

Rydym yn gallu ennyn diddordeb plant a phobl ifanc oherwydd bod y staff wedi cael eu hyfforddi i rhyngweithio'n ystyrlon a lleihau pryder er mwyn eu helpu nhw i ymdopi â'r byd.

“Mae plant yn symud ymlaen yn llawer cyflymach gan eu bod yn teimlo eu bod yn gallu rheoli sefyllfaoedd.”

Arbenigwr DIR

Mae teuluoedd hefyd yn cael budd o wybod pam y mae plant yn ymddwyn mewn modd arbennig, maent yn gallu cydnabod, adnabod a deall ymddygiadau ac yn teimlo'n fwy hyderus yn eu rhyngweithio gyda'u plentyn.

Tystiolaeth o Effaith – Dogfennu a Myfyrio

Mae DIR yn cwmpasu lefelau datblygiadol gwahanol yn amrywio o rannu sylw a rheoliad, i ddatrys problemau cymhleth, a meddwl emosiynol symbolaidd.



Lefelau Datblygiadol Dr Stanley Greenspan

Addaswyd gan Mari Caulfield

Ar ôl asesiad dechreuol mae goliau a thargedau yn cael eu gosod i'r disgyblion y byddant yn gweithio tuag atynt ac mae staff yn weithredol yn annog gweithgareddau a gwersi sydd o gymorth i gwrdd â'r goliau a thargedau hyn ac yn monitro cynnydd yn gyson.

Yn ystod pob sesiwn DIR mae staff yn dysgu sut i ddogfennu ymddygiad, gweithredoedd ac, os yn briodol, defnydd priodol o iaith y disgyblion trwy recordiad fideo. Unwaith y mae ymarferwyr wedi gweld tystiolaeth o'r "gôl" maent yn cadw'r fideo ar gronfa ddata sy'n cael ei rhannu ac yn cofnodi rhif y clip ar broffil gweithio unigol y disgybl. Mae cael tystiolaeth ar ffurf clipiau yn ddefnyddiol ar gyfer dau bwrpas:

- **Yn gyntaf – mae staff yn gallu adeiladu astudiaeth achos cynhwysfawr o gynnydd datblygiadol pob disgybl, gall hyn bontio sawl mis a blynyddoedd hyd yn oed.**
- **Yn ail – mae staff yn defnyddio clipiau fideo yn weithredol ar gyfer myfyrio a hunan-arfarnu.**

Mae taflen fyfyrion staff yn cael ei defnyddio fel offeryn arfarnu ar gyfer asesu pob clip fideo; mae'n gofyn bod ymarferwyr yn ticio 'Do' neu 'Daliwch Ati' ar amryw o gwestiynau, er enghraifft:

- **A wnes i allu cadw'r rhyngweithio i fynd?**
- **A wnes i annog y plentyn i wneud penderfyniadau a defnyddio syniadau?**
- **Sut wnes i roi cymorth i'r plentyn i symud i fyny'r ysgol ddatblygiadol?**

Ar ôl ateb y cwestiynau ticio blwch, gofynnir i staff ysgrifennu enghreifftiau byr o beth oedd yn gweithio'n dda, beth oedd ddim yn gweithio cystal, a beth fyddent yn gallu ei wneud i wella'r tro nesaf. Yna mae'r clipiau fideo a nodiadau myfyriol cysylltiedig yn cael eu rhannu gydag aelodau eraill y tîm ar gyfer trafodaeth grŵp a gweithredu pellach. Mae dau fudd i weithio mewn modd hunan-fyfyrion agored a gonest - yn gyntaf mae'r plentyn yn cael gofal a darpariaeth arbenigol o ansawdd uchel, ac yn ail mae aelodau eraill o staff yn gallu dysgu o rannu ac ymrwymo mewn cyfleoedd datblygiad proffesiynol penodol.

Mae Ysgol Hen Felin yn anelu at gael personau hyfforddedig i arsylwi a dogfennu ym mhob dosbarth. Mae staff hefyd yn datblygu ap electronig i alluogi ymarferwyr i ddogfennu tystiolaeth yn gyflym ar lechen electronig a'i uwch lwytho ar system cronfa ddata canolog. Mae arbenigwyr CTC hefyd yn gweithio ar fapio goliau DIR a

chysylltu cynnydd gyda'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a deall pwysigrwydd 'adrodd yr hanes cyfan mewn fformat cyson'.

Datblygiadau Parhaol

Yn ddiweddar mae staff yn Ysgol Hen Felin wedi sefydlu dau ymyriad strategol arall sy'n rhedeg ledled yr ysgol gyfan:

- Read Write Inc
- Little Big Maths

Mae Read Write Inc yn ddull o godi lefelau llythrennedd sy'n seiliedig ar ffoneg ac mae'n honni ei fod yn datblygu: 'darllenwyr rhugl, brwdfrydig; dealltwriaeth ddofn o destunau; siaradwyr hyderus; ac ysgrifenyddwyr brwd'.³⁵

Nod Little Big Maths yw sicrhau dilyniant o fewn cyd-destun chwarae, darganfod yr hunan a siwrnai ddysgu personol y plentyn. Mae'r fframwaith hwn yn cael ei adnabod fel A-CLIC (Amounts - Counting, Learn It, It's Nothing New and Calculation) ac mae'n nodweddiadol oherwydd y camau dilyniant cywir (sy'n cael eu hadnabod fel 'Progress Drives') sy'n gwneud dysgu newydd yn hawdd ac amlwg i blant. Mae'n darparu trosglwyddiad di-dor i'r rhaglen Big Maths, ond gellir hefyd ei roi ar waith ar ei ben ei hun.³⁶

“Rydym yn defnyddio ymyriadau i godi safonau; nid rhywbeth symbolaidd yn unig ydyw. Rydym eisiau i bobl wybod ein bod yn rhan o'r un agenda.”

Pennaeth

Cafodd staff anogaeth gan y pennaeth i ddod o hyd i ymyriadau addas ar gyfer codi dyheadau a chyflawniad trwy fonitro cynnydd a galluogi i asesu disgyblion ddigwydd gyda disgyblion â gallu gwybyddol is. Dewisodd staff yr ymyriadau trwy ymweld ag ysgolion eraill – prif ffrwd ac arbennig. Fe wnaethant ddewis Read Write Inc a Little Big Maths am eu bod yn teimlo y gellid addasu'r rhaglenni yn yr ysgol i'r holl ddisgyblion gael mynediad at gamau bach a chyfnodau yr oeddent yn ddelfrydol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Yna aeth staff ati i 'ail-ysgrifennu' camau datblygiadol pob ymyriad, am eu bod eisiau dangos cynnydd ar gyfer pob plentyn.

“Roedd angen mwy o is-lefelau arnom gan ei bod yn edrych fel petai ein plant ni'n sefyll yn llonydd heb symud ymlaen, ond nid felly yr oedd hi, roeddem yn gwybod eu bod yn gwneud cynnydd ac roeddem angen rhyw ffordd o ddangos hynny.”

Athro

³⁵ <http://www.ruthmiskintraining.com/phonics/index.html>

³⁶ <http://www.andrelleeducation.com/little-big-maths/>

Datblygodd aelodau allweddol o staff eu system tracio mewnol eu hunain yn defnyddio taenlen Excel oedd yn cymryd pob cam o'r datblygiad ac yn ei dorri i lawr i 7 is-gam pellach.

“Mae ein cynlluniau ni yn asesiad ac yn ysgol sgiliau ar yr un pryd. Gallwn gynnal ymarferion grwpio diagnostig i ddisgyblion yn ôl gallu a dangos dilyniant.”

“Mae lefelau cam wrth gam, rhagnodol yn dangos yr hyn sydd angen i ni weithio arno gyda phob plentyn unigol.”

Athrawon

Ar hyn o bryd yng Nghymru ni cheir dim ‘Setiau Data Ysgolion Arbennig’, sy’n golygu y ceir diffyg gwybodaeth arbenigol yn y maes i greu system tracio cadarn i gymharu a chyferbynnu cynnydd disgyblion. Felly mae Ysgol Hen Felin wedi creu ei system asesu ‘mewnol’ ei hun, sydd yng nghamau olaf ei ddatblygiad ar hyn o bryd ac a fydd yn cael ei brofi cyn hir.

“Rydym yn codi disgwyliadau yn fewnol am fod angen mwy o arbenigwyr arnom yn y maes yn allanol. Rydym wedi mabwysiadu modelau prif ffrwd ond wedi eu haddasu i gwrdd ag anghenion ein disgyblion a’n hysgol. Mae’n rhaid i ni oresgyn rhwystrau – rydym eisiau i’n plant ni gael mynediad at yr un systemau addysg.”

Pennaeth

Mae'r holl staff yn Ysgol Hen Felin yn frwdfrydig iawn ynghylch ymdrechu'n barhaol i symud ymlaen ac ar yn o bryd maent yn gweithio gydag arbenigwr TG System Rheoli Gwybodaeth Myfyriwr i ddatblygu pecyn i alluogi ysgolion arbennig eraill i gymharu a chyferbynnu setiau data eu disgyblion er mwyn i ysgolion arbennig allu dilysu eu canlyniadau.

“Yn y brif ffrwd, disgwylir i'r holl ddosbarth ddatblygu ar yr un pryd. Yma rydym yn gwahaniaethu ac yn canolbwyntio ar ddisgyblion unigol a gweithio tuag at yr angen hwnnw. Mewn blwyddyn rydym yn edrych ymlaen at adolygu'r darlun datblygiadol cyflawn o gynnydd disgyblion.”

Athro

Mae staff yn Ysgol Hen Felin wedi croesawu her a newid ac maent yn credu mai'r hyn sydd wedi bod yn allweddol yn eu llwyddiant yw ‘meddwl am eu haddysgu eu hunain’. Mae agwedd cam wrth gam tuag at ddeall dysgu hefyd wedi dod â phob un ohonynt yn ôl i'r dechrau fel petai ac wedi helpu i ddwysau eu gwybodaeth. Mae staff yn sôn am ‘weld bylchau’ mewn addysgu sydd wedi eu galluogi nhw i weld yr hyn oedd angen ei roi ar waith. Mae cyfathrebu, cefnogi ei gilydd a myfyrio mewn dull diogel hefyd wedi bod yn ddatblygiadau allweddol yn yr ysgol.

“Gallwch effeithio ar safonau trwy gynnal hunan-arfarniad. Beth sy’n ddiddorol amdano yw bod staff yn gallu ymrwymo gyda gwella ysgol ac felly mae safonau wedi codi o ganlyniad i’r dull hwn o weithio.”

Pennaeth

Effaith

Mae’r pennaeth yn nodi, er bod mesur effaith yn her arbennig i’r Sector Ysgolion Arbennig oherwydd anghenion cymhleth y disgyblion, mae staff Ysgol Hen Felin wedi gwella gan o leiaf 1, o bosib 2 ddyfarniad Graddfa P trwy gydol y flwyddyn academaidd.

“Mae hyn yn wahanol iawn i’r blynyddoedd blaenorol.”

Pennaeth

Cyllid

Mae Ysgol Hen Felin yn defnyddio ei Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) i dalu am ymgynghorwyr, datblygu hyfforddiant staff a phrynu adnoddau arbenigol:

- Ymgynghorydd i roi ymyriadau mewn lle
- Hyfforddi staff i adeiladu gallu a pharhau i weithio pan na fydd yr ymgynghorydd yno
- Adnoddau y buddsoddwyd ynddynt: system tracio “eye gaze” i alluogi ymrwymiad a chyfathrebu trwy symudiadau llygaid
- Adnoddau arbenigol: Read Write Inc a Little Big Maths
- Datblygu ymarfer llythrennedd corfforol – staff yn darparu gwybodaeth o ddatblygiad plentyn, ymgynghorydd ymarfer corff yn darparu gwybodaeth ymarfer corff a’r ddau yn cyfuno i ddatblygu ymarfer gorau
- Partneriaethau i ddatblygu sesiynau drama i alluogi disgyblion i fod yn nhw eu hunain

Mae’r pennaeth yn nodi bod yr ysgol wedi defnyddio’r Grant Amddifadedd Disgyblion yn greadigol er mwyn prynu gwasanaethau arbenigol sydd ddim fel arfer ar gael trwy’r gyllideb ddirprwyedig. Mae’r ysgol yn bwriadu gwella’r gwasanaethau hyn ymhellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf trwy ganolbwyntio ar adeiladu gallu er mwyn darparu cynaliadwyedd.

Crynodeb

Y neges allweddol yn yr astudiaeth achos hon yw ei bod yn bwysig bod arweinwyr yn defnyddio data'n effeithiol i adnabod y disgyblion hynny sy'n disgyn ar ei hôl hi a monitro a gwerthuso effaith ymyriadau i fynd i'r afael â thangyflawni.

Themau	Ffactorau penodol	YHF
Arweinyddiaeth	Uwch arweinydd dynodedig	✓✓
	Defnydd cadarn o ddata a hunan werthusiad	✓✓
	Hyfforddi a threfnu staff yn cynnwys arbenigwyr	✓✓
Addysgu a Dysgu	Rhaglenni dal i fyny	✓✓
	Cwricwlwm wedi ei deilwra yn adeiladu ar ddiddordebau a galluoedd dysgwyr, yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol	✓
	Rhaglenni lles ac ymddygiad ar gyfer dysgu yn cynnwys canolbwyntio ar bresenoldeb, gwrando ar ddysgwyr ac adeiladu hunan barch	✓
	Adborth ac asesiad effeithiol	✓
	Strategaethau metawybyddol	
Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach	Dialog gref gyda rhieni	✓

Cyswllt Allweddol

Andy Henderson
Pennaeth
Ysgol Hen Felin
Parc Gelligaled, Ystrad
Rhondda Cynon Taf
CF41 7SZ
01443 431571
Ysgolhenfelin@rctednet.net

5. Ysgol Uwchradd Tywyn

LLEIHAU EFFAITH TLODI AR GYRHAEDDIAD ADDYSGOL

ARSYLLFA POLISI ASTUDIAETH ACHOS 5

Enw'r Ysgol/Lleoliad: **Ysgol Uwchradd Tywyn**

Awdurdod Lleol: **Gwynedd**

Math o Ysgol/Lleoliad: **Uwchradd**

Cyfrwng Iaith: **Cymraeg**

Nifer y Disgyblion: **270**

Canran Prydau Ysgol am Ddim: **10%**

Canolbwynt yr Astudiaeth Achos

Adnabod disgyblion â chyrhaeddiad isel a datblygu ystod o strategaethau i wella eu perfformiad yn cynnwys profiadau dysgu ychwanegol ac ymgysyllti â'u rhieni.

Cyflwyniad

Mae Ysgol Uwchradd Tywyn yn un o'r ysgolion uwchradd lleiaf yng Nghymru. Mae'n ysgol gyfun 11-16 yn cynnig addysg yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg ac weithiau yn Saesneg. Mae'n gwasanaethu dalgylch gwledig ac arfordirol eang ac mae oddeutu 25% o'i disgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Yn ôl data ar wefan *Fy Ysgol Leol*³⁷ mae 270 o ddisgyblion yn yr ysgol ac mae 9.7% ohonynt yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Y rhif cyfredol ar y gofrestr yw 259 ac mae 9.6% yn ddisgyblion prydau ysgol am ddim.

Yn draddodiadol dim ond nifer fechan o ddisgyblion yn yr ysgol sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae'n aml wedi meddu ar gyfran uchel (30% ar hyn o bryd) o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Felly mae cymorth ac ymyriadau wedi cael eu canolbwyntio'n bennaf ar y disgyblion hyn, y mae rhai – ond yn sicr nid pob un – hefyd yn disgyn i'r categori prydau ysgol am ddim.

³⁷ <http://mylocalschool.wales.gov.uk/school.htm?estab=6614032&lang=eng>

Mae'r ysgol yn gyson wedi targedu cymorth ar gyfer categorïau amrywiol o ddisgyblion, er enghraifft bechgyn, yn ogystal â ffin C/D TGAU a disgyblion mewn perygl o adael yr ysgol heb fynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET).

Mae'r ysgol yn credu bod ei maint yn cael effaith gadarnhaol. Caiff hyn ei grynhoi orau gan y dyfyniadau canlynol:

“Rydym yn ysgol fach ac rydym yn adnabod yr holl ddisgyblion a theuluoedd mor dda.”

“Bydd y mwyafrif o athrawon sydd ddim yn addysgu pynciau craidd yn addysgu'r holl ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7-i-9.”

Pennaeth Cyfnod Allweddol 4

“Rydym yn gweithio fel tîm gyda'r athrawon.”

“Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud i ni deimlo ein bod yn cael ein gwerthfawrogi.”

“Mae'r staff addysgu'n gweithio'n dda gyda'r staff cymorth.”

Lleisiau Cynorthwyyr Cymorth Dysgu

“Rwy'n adnabod y disgyblion yn dda iawn; rwy'n dysgu pob un ohonynt.” “All pethau ddim gweithio'n ynysig mewn ysgol o'r maint hwn. Nid oes unrhyw le i guddio.”

Pennaeth Gwyddoniaeth

“Rwy'n adnabod pawb yn yr ysgol. Rwy'n dysgu pob un ohonynt. Mae pawb yn adnabod pawb.”

Pennaeth Celf

Defnyddio Data ac Ymyriadau Cysylltiedig

Mae gan yr ysgol system effeithiol iawn ar gyfer cipio data, sydd wedi cael ei datblygu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn caniatáu i'r ysgol fapio cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion yn effeithiol. Mae'n defnyddio cod lliwiau sy'n rhoi golwg gyffredinol gyflym a syml i staff o gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion. Mae hyn yn cynnwys rhoi disgyblion mewn grwpiau dan ystod o gategorïau, y mae prydau ysgol am ddim yn un ohonynt. Yn ogystal, gyda niferoedd mor fach mae athrawon a staff cymorth yn dweud ei fod yn hawdd iawn iddyn nhw weld, a bod yn ymwybodol o, gynnydd a chyrhaeddiad cyfredol pob disgybl yn barhaus.

Dadansoddiad systematig y pennaeth o gynnydd, cyflawniad a chyrhaeddiad yw sail adolygiadau adrannol. Mae'n ofynnol bod pob adran yn diffinio pa gymorth y bydd yn ei ddarparu i alluogi disgyblion i gwrdd â thargedau dyheadol penodol. Gofynnir iddynt hefyd ddarparu gwerthusiad o ba mor effeithiol a llwyddiannus yr oedd y gweithredoedd.

Mae adolygiadau ysgol gyfan bob hanner tymor o gynnydd, cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion yn cynnwys adran ar ddisgyblion prydau ysgol am ddim. Mae'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) yn monitro grŵp o ddisgyblion sydd wedi eu targedu (ar ffin gradd C/D neu'n gyfatebol) ym mlwyddyn 9 ac 11. Mae adrannau'n ymgymryd â'r rôl hon hefyd gyda grwpiau tebyg wedi eu targedu ym mlwyddyn 7, 8 a 10. Mae'r sylw a chraffu agos y mae'r disgyblion hyn yn ei dderbyn yn yr ysgol yn cael ei ategu gan ddialog rheolaidd a, ble bo angen, cyfarfodydd â rhieni.

Mae dosbarthiadau'n cael eu trefnu mewn tair set ar gyfer y pynciau craidd o flwyddyn 8. Mae staff yn credu bod hyn yn gwneud cynllunio ac addysgu'n fwy syml ac yn galluogi'r ysgol i greu setiau 'gwaelod' bach sy'n gallu rhoi llawer o sylw unigol i ddisgyblion (yn arbennig gyda lefel gynyddol cymorth ac arbenigedd y Cynorthwywyr Cymorth Dysgu sydd ar gael yn awr).

“Mae'r holl system bellach yn targedu disgyblion mewn ffordd fwy cadarn.”
Pennaeth

Cymorth Ychwanegol i Ddisgyblion

Mae cymorth ychwanegol wedi ei ddarparu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gall hyn fod ar ffurf un i un neu grwpiau bychan yn gweithio ar raglenni adolygu a dal i fyny pwrpasol. Mae nifer o'r rhain yn canolbwyntio ar lythrennedd. Ceir mwy o gymorth hefyd yn dilyn penodi Cynorthwydd Cymorth Dysgu arall gyda chyfrifoldeb penodol dros rifedd.

Mae system glir yn bodoli i roi cymorth i ddisgyblion yn y pynciau craidd gyda sesiynau '*Llinell Gymorth*' galw draw yn cael eu cynnal ar ôl ysgol bob wythnos. Mae un ar gyfer gwyddoniaeth, Saesneg a mathemateg ynghyd â sesiwn amser cinio ar gyfer Cymraeg. Mae croeso i bob disgybl fynychu'r rhain ac yn ôl yr ysgol mae presenoldeb ynddynt yn dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, telir sylw arbennig i geisio a sicrhau bod y disgyblion hynny sydd ddim yn ei chael yn hawdd gweithio gartref yn gallu mynychu. Mae athrawon pwnc eraill yn fodlon trefnu cyfarfodydd amser cinio, yn cynnwys ar sail un i un, i ymdrin ag unrhyw ymholiadau neu bryderon gan ddisgyblion.

Mae rhywfaint o'r cyllid Grant Amddifadedd Disgyblion wedi cael ei ddefnyddio i benodi Cynorthwydd Cymorth Dysgu, ac un o'i rolau yw dilyn yr holl ddisgyblion prydau ysgol am ddim a chynghori ar unrhyw strategaethau ymyriad a chymorth ar eu cyfer.

Mae '*Bydis Darllen*' wedi cael eu defnyddio ble mae disgyblion ym mlwyddyn 11 yn gwirfoddoli i weithio â disgyblion blwyddyn 7 yn ystod cyfnodau cofrestru ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Mae'r llyfrgell sydd mewn man canolog yn lleoliad da ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Mae gweithgareddau sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol yn cynnwys *Clwb Brecwast* a *Chlwb Gwaith Cartref*, sydd â phresenoldeb uchel cyson gan ddisgyblion prydau ysgol am ddim a disgyblion dim prydau ysgol am ddim. Mae'r *Clwb Brecwast* yn cael

ei gynnal yn ddyddiol o 07:45 tan 08:30. Cafodd ei sefydlu gan un o'r tîm Cymorth Dysgu. Mae'n cynnig y manteision amlwg o ddarparu dechrau maethlon ac iach i'r diwrnod ysgol (oherwydd y dalgylch mawr mae rhai disgyblion yn cychwyn yn gynnar iawn ac, i eraill, nid oes unrhyw draddodiad o fwyta brecwast adref). Mae hefyd yn atgyfnerthu sgiliau cymdeithasol. Mae adborth disgyblion yn dangos ffactorau eraill, a allant fod o gymorth yn cael disgyblion i setlo'n dda cyn dechrau'r diwrnod ysgol.

“Mae hefyd yn dda gallu siarad â Mrs Sheedy.”

“Mae Mrs Sheedy yn neis iawn ac mae'n dda siarad â hi.”

“Mae Mrs Sheedy yn neis iawn ac yn ddoniol ac mae'n neis siarad â hi'r peth cyntaf yn y bore.”

Lleisiau Disgybl

Mae'r *Clwb Gwaith Cartref* yn cael ei gynnal unwaith yr wythnos am ddwy awr. Cafodd ei sefydlu gan yr un aelod o'r tîm Cymorth Dysgu a sefydlodd y *Clwb Brecwast*. Mae'r clwb yn cael ei gynnal mewn ystafell TGCh ac mae hyn yn rhoi adnoddau ac offer ychwanegol i ddisgyblion. Bwriedir ei fod yn darparu amgylchedd cefnogol i ddisgyblion gyda chymorth parod gan yr aelod staff sy'n bresennol. Ceir ysgogiad i fynychu gan fod y rhai sy'n mynychu wyth gwaith neu fwy yn derbyn tystysgrif. Mae'r Clwb hefyd yn rhywle lle mae'r disgyblion hyn yn barod i helpu'r rhai iau gyda'u tasgau. Mae'n anelu at wneud disgyblion yn ddysgwyr mwy hyderus a brwd gan eu bod yn mynd i'r afael ag aseiniadau mewn lleoliad cefnogol gydag offer da, yn hytrach nac mewn lleoliad lle y gallant frwydro i gael unrhyw help personol neu faterol a lle maen nhw'n ynysig. Mae rhai sylwadau diweddar gan ddisgyblion sy'n cadarnhau hyn yn cynnwys:

“Mae'r Clwb Gwaith Cartref mor hwyliog a chynnes ac y gall fod. Y funud rwy'n cerdded i mewn trwy'r drws rwy'n teimlo fy mod wedi ymlacio.”

“Mae'r Clwb Gwaith Cartref yn wych. Mae am ddwy awr ar ôl ysgol ac mae'n eich galluogi chi i wneud eich gwaith cartref gyda'ch ffrindiau.”

“Mae'r Clwb Gwaith Cartref yn ANHYGOEL! Rydym yn cael 2 awr dda ar ôl ysgol bob nos iau. Rydym yn gallu gwneud ein gwaith cartref a'i argraffu am ddim ac mae Miss Sheedy yno i helpu bob amser ac rydym yn gallu bod gyda'n ffrindiau.”

“Mae mynd i'r Clwb Gwaith Cartref yn well na gwneud gwaith cartref adref achos os nad ydych yn siŵr o rywbeth gallwch gael help a chynghor gan Miss Sheedy neu eich ffrindiau.”

“Rwy'n ei hoffi achos pan rwy'n ceisio gwneud fy ngwaith cartref adref mae'n anodd canolbwyntio ond dim yn y Clwb Gwaith Cartref.”

Llais Disgybl

Ceir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a chyfoethogi. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau seiliedig ar sgiliau fel *Clwb Gwyddbwyll* a *Chlwb Scrabble*, teithiau

maes, ymweliadau â'r theatr a llefydd eraill o ddiddordeb addysgol fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r ysgol yn sicrhau na fydd unrhyw ddisgybl yn colli allan ar y gweithgareddau hyn am nad oes ganddynt arian i dalu amdanynt.

Mae oriau'r ysgol (08:30-14:45) yn golygu bod amser rhesymol ar gael ar ddiwedd y prynhawn ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, dosbarthiadau adolygu a Chlwb Gwaith Cartref. Teimlir bod disgyblion yn fwy parod i aros yn yr ysgol nac y byddent petai hi'n cau am 15:30 neu'n hwyrach. Gwneir ymdrech ymwybodol hefyd i amserlennu'r gweithgareddau hyn er mwy osgoi gwrthdaro diangen.

Gweithio â Rhieni a'r Gymuned

Mae adeiladu ar ddialog parhaus gyda rhieni 'anodd eu cyrraedd' trwy gysylltiad agos a rheolaidd gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol yn flaenoriaeth yn Ysgol Uwchradd Tywyn.

Mae staff yn gweithio gyda rhieni sydd â diffyg hyder i ddod at yr ysgol ac maent yn ymwybodol bod hyn weithiau'n wir am ddisgyblion o 'gartrefi difreintiedig' hefyd. Mae athrawon a staff eraill yr ysgol yn cael hyfforddiant i fod yn wrandawyr da ac i gynnig arweiniad i helpu rhieni i wneud penderfyniadau sy'n dylanwadu ar addysg eu plant. Mae staff yn cyfathrebu â rhieni ar y ffôn ac yn cynnig cyfarfodydd wyneb yn wyneb sydd weithiau'n digwydd yn y cartref sy'n helpu rhieni i ymlacio a theimlo'n fwy cyfforddus. Mae nifer o rieni wedi ysgrifennu at yr ysgol i ganmol y cyfathrebu ardderchog gyda rhieni:

“Ers i fy mab ddechrau yn eich ysgol mae'r wybodaeth gyfredol a chywir sy'n cael ei hanfon adref mewn cylchlythyrau a negeseuon testun wedi gwneud argraff dda iawn arnaf”

Llais Rhiant

Mae Cylchlythyr bob hanner tymor yn rhoi'r newyddion diweddaraf i rieni am ddigwyddiadau a datblygiadau'r ysgol ac mae'n cael ei ddosbarthu i fannau allweddol yn y gymuned fel y Ganolfan Hamdden, y Ganolfan Iechyd, y Deintydd, Llyfrgell a siopau.

Gwahoddir arbenigwyr i'r ysgol i gynnal gweithdai, rhai ohonynt yn arwain at gymwysterau fel Rhwydwaith y Coleg Agored:

- Gwarchod
- Sgiliau DJ
- Hamddena Corfforol

Mae nosweithiau gwybodaeth yn cael eu cynnal i gynnig cyngor a chael barn y rhieni. Mae hyn hefyd yn cael ei gyflawni trwy arolygon a holiaduron. Mae holiadur cymorth i ddisgyblon prydau ysgol am ddim wedi cael ei ddatblygu gan yr ysgol ac mae'n cynnwys cwestiynau fel:

- **Ydi eich plentyn wedi cymryd rhan mewn unrhyw un o'r teithiau amrywiol y mae'r ysgol wedi eu cynnig? Os do, pa rai, os na, pam ddim?**

- **Faint ydych chi'n teimlo y gallwch helpu eich plentyn gyda gwaith cartref? Ychydig, - Llawer, - Dim o gwbl?**
- **Allwch chi awgrymu unrhyw gymorth amgen neu ychwanegol y gellid ei ddarparu yr ydych yn teimlo a fyddai o fudd i'ch plentyn?**

Ar nosweithiau gwybodaeth a nosweithiau rhieni, os nad yw rhieni'n gallu mynychu oherwydd problemau cludiant, bydd yr ysgol yn gweithredu fel 'negesydd' ac yn rhoi rhieni mewn cysylltiad â theuluoedd eraill sydd efallai'n teithio i'r un cyfeiriad er mwyn iddynt gynnig lifft i'w gilydd.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus iawn gyda'r Clwb Rotari Lleol ac mae pob disgybl yn gallu mynd i ddigwyddiadau sy'n cael eu noddi gan y clwb, fel 'Cogydd Ifanc' a 'Cherddor Ifanc' y Flwyddyn. Mae'r Gwasanaeth Heddlu hefyd yn gweithio ar y cyd gyda'r ysgol a Gweithwyr Ieuenctid ar Brosiect Gardd Gymunedol yn yr orsaf rheilffordd leol.

Deilliannau

Mae'r niferoedd bach o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (pedwar neu bump mewn grŵp blwyddyn) yn gwneud cymariaethau a chasgliadau blwyddyn ar ôl blwyddyn o fewn yr ysgol neu gydag ysgolion eerial yn beryglus iawn. Er gwaethaf hyn, yn 2013 mae perfformiad wedi dangos yr ysgol yn ennill deilliannau Lefel 2+ yn uwch na'r Teulu, yr Awdurdod Lleol a Chymru. Cafodd hyn ei adlewyrchu ym mherfformiad disgyblion prydau ysgol am ddim. Ar gyfer 2012, roedd dadansoddiad o berfformiad disgyblion unigol o'r wyth disgybl prydau ysgol am ddim a safodd TGAU yn dangos bod saith wedi cyflawni Lefel 2, chwech wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd a chwech wedi cyflawni Lefel 2+. Cyflawnodd yr wyth L1.

Crynodeb

Y neges allweddol o'r astudiaeth achos hon yw pa mor bwysig yw hi fod arweinyddion yn defnyddio data yn effeithiol i adnabod y disgyblion hynny sy'n disgyn ar ei hôl hi ac i fonitro a gwerthuso effaith ymyriadau i fynd i'r afael â thangyflawni.

Themau	Ffactorau penodol	YUT
Arweinyddiaeth	Defnydd cadarn o ddata a hunan werthusiad	✓✓
	Hyfforddi a threfnu staff yn cynnwys arbenigwyr	✓✓
Addysgu a Dysgu	Rhaglenni dal i fyny	✓✓
	Cwricwlwm wedi ei deilwra yn adeiladu ar ddiddordebau a galluoedd dysgwyr, yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol	✓
	Adborth ac asesiad effeithiol	✓
Ymgysylltu â rhieni a'r	Dialog gref gyda rhieni	✓✓

gymuned ehangach		
------------------	--	--

Cyswilt Allweddol

Mrs Helen Lewis, Pennaeth
Ysgol Uwchradd Tywyn
Heol yr Orsaf, Tywyn, LL36 9EU
Ffôn:

01654

710256

6. Ysgol Gyfun Oakdale

LLEIHAU EFFAITH TLODI AR GYRHAEDDIAD ADDYSGOL

ARSYLLFA POLISI ASTUDIAETH ACHOS 6

Enw'r Ysgol/Lleoliad: **Ysgol Gyfun Oakdale**

Awdurdod Lleol: **Caerffili**

Math o Ysgol/Lleoliad: **Uwchradd**

Cyfrwng Iaith: **Saesneg**

Nifer y Disgyblion: **599**

Canran Prydau Ysgol am Ddim: **19%**

Canolbwynt yr Astudiaeth Achos

Perthnasau cadarnhaol o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar barch gan y naill ochr a'r llall sydd wedi cael eu datblygu trwy'r ysgol gyfan yn defnyddio fframwaith ar gyfer lles y disgyblion a'r staff gan yr Uwch Dîm Arwain.

Mae Ysgol Gyfun Oakdale yn ysgol gydaddysgol 11-16 cyfrwng Saesneg a gynhelir gan Awdurdod Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Oakdale a Phenmaen a'r ardal o amgylch. Mae'r ardal yn un o dai cymysg gyda chymharol ychydig o anfantais neu amddifadedd cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae 599 o ddisgyblion ar y gofrestr.³⁸ Cafodd yr ysgol ei sefydlu i wasanaethu cymuned lofaol yng nghymoedd de Cymru ac mae amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd ôl-ddiwydiannol yr ardal yn nodweddiadol o'r rhanbarth. Mae oddeutu 19% o ddisgyblion wedi bod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (PYADd) dros y pum mlynedd diwethaf;³⁹ mae hyn yn uwch na'r ffigwr cyfartalog cenedlaethol ledled Cymru. Mae proffil ethnig yr ysgol ymron yn gyfan gwbl wyn Prydeinig a Saesneg yw iaith gyntaf yr holl ddisgyblion.⁴⁰

Yr Astudiaeth Achos

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar berthnasau cadarnhaol o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar barch gan y naill ochr a'r llall sydd wedi cael eu datblygu trwy'r

³⁸ Fy Ysgol Lleol

³⁹ Stats Cymru

⁴⁰ Adroddiad Arolwg Ysgol Estyn 2009

ysgol gyfan yn defnyddio fframwaith ar gyfer lles y disgyblion a staff gan yr Uwch Dîm Arwain sy'n canolbwyntio ar 'genhadaeth i greu cymuned hapus a chynhyrchiol ble y mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi'.⁴¹

Dechreuodd y pennaeth yn yr ysgol yn Ebrill 2007 gydag arolwg i gael ei gynnal yn Nhachwedd 2008. Gyda phenodi Dirprwy Bennaeth Cwricwlwm ym Medi 2008 a Phennaeth Cynorthwyol Bugeiliol yn Ionawr 2009 ynghyd â'r Bwrsar a oedd eisoes yn ei swydd, fe sefydlwyd yr Uwch Dîm Arwain (UDA) fel ac y mae ar hyn o bryd. Ceir eglurder llwyr ynghylch y gofynion ar gyfer arweinyddiaeth yn yr ysgol: mae creadigrwydd, datrys problemau, dyheadau uchel, agwedd sy'n edrych tuag allan, y gallu i gynnal perthnasau o ansawdd uchel a theyrngarwch yn hanfodol i'r uwch arweinwyr yn Oakdale. Mae Cadeirydd y Llywodraethwyr yn disgrifio'r pennaeth fel a ganlyn:

“Yn meddu ar synnwyr eglur o bwrpas a gweledigaeth, ar yr un donfedd â barn y llywodraethwyr am ysgol gymunedol; parodrwydd i wrando ar staff, llywodraethwyr a rhieni; gallu eithriadol i gyfuno materion cymhleth ac yna cymryd y camau gweithredu priodol; hygrededd trwy gyflawni addewidion; a sgil wrth gyfathrebu yn fewnol, gydag ysgolion eraill, ac i ystod eang o gynulleidfaoedd.”

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Yn ôl yr ysgol y meysydd sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau yw:

- **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** - darparu gweledigaeth a sefydlu pwrpas cyffredin mewn diwylliant sydd ddim yn gweld bai.
- **Ymddygiad a Phresenoldeb** - darparu cymuned wâr a gwareiddiol, ble mae presenoldeb ac ymddygiad da yn norm.
- **Cwricwlwm a Chyrhaeddiad** - darparu pwrpas academiaidd eglur a'r fframwaith i gyflawni'r pwrpas hwnnw.
- **Addysgu a Dysgu** - darparu diwylliant ble'r anogir cymryd risg gyda phrofiadau dysgu, gyda'r nod o gael y cymwysterau gorau i bawb.

Siwrnai Oakdale

Gydag arolwg i gael ei gynnal yn Nhachwedd 2008, datblygodd y pennaeth werthoedd craidd yr ysgol yn gyflym trwy gyfres o gyfarfodydd. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ledled yr ysgol gyfan ac fe gydweithiodd y staff i nodi'r hyn oedd yn dda a'r hyn nad oedd yn dda, ac yna mabwysiadodd y pennaeth agwedd o'r brig i lawr tuag at ymdrin â ffaeleddau a ganfuwyd gyda chefnogaeth y staff a'r corff

⁴¹ Gwefan yr ysgol <http://learn.caerphilly.org.uk/oakdalecomprehensive/>

llywodraethu. Sefydlwyd yr UDA newydd i roi'r agwedd hon ar waith. Dyfarnodd yr arolwg yn Nhachwedd 2008 yr ysgol i fod yn foddhaol, ond nododd yr esboniad 'weddnewidiad' yn y rhagolygon ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Cyn i'r pennaeth ddechrau roedd staff eisoes yn gweithio ar system o gosbi a gwobrwyo. Gwelodd y pennaeth hwn fel cryfder datblygu ac anogodd staff i ddatblygu'r system ac roedd yn ei gefnogi'n gadarn. Gyda phenodiad y Pennaeth Cynorthwyol Bugeiliol, aeth y tîm bugeiliol o bum Rheolwr Cynnydd a'r Cydlynnydd Anghenion Arbennig ati i weithio gyda'r Arweinwyr Tîm Cwricwlwm a staff i sicrhau lefel o gysondeb ledled yr ysgol wrth ddefnyddio'r cosbau a gwobrau hyn. Dyma oedd sail yr holl ddatblygiadau eraill yn yr ysgol ac, ynghyd â'r gofal bugeiliol, mae'n dal i fod heddiw.

“Mae disgyblion yn ymddiried ynom, maen nhw'n gwybod y gallant ddod atom ni am help, mae'r plant yn deyrngar iawn, os ydyn nhw'n meddwl bod rhywbeth wedi codi sy'n annheg yna fe wnawn ddod atom ni a dweud wrthym ni gan eu bod yn gwybod y byddwn yn delio gydag ef.”

Llais Athro

Ymddygiad ar gyfer Dysgu – System Cosbi a Gwobrwyo

Mae disgyblaeth ysgol yn flaenoriaeth allweddol yn Oakdale sy'n cael ei briodoli trwy ymddygiad ar gyfer dysgu. Mae'r UDA yn hyrwyddo ac atgyfnerthu'r defnydd effeithiol o reolau ymddygiad syml, sy'n cael eu defnyddio'n gyson ledled yr ysgol, ym mhob dosbarth ac ym mhob coridor. Gellir gweld y disgyblion yn dilyn eu trefn osodedig ar gyfer sefyll mewn llinellau, mynd i mewn i ddosbarthiadau a setlo lawr i weithio yn eu gwersi, waeth pa amser o'r dydd yw hi, neu ba wersi sy'n cael eu cynnal. Ni cheir dim goddefgarwch i weiddi, iaith anweddus a gadael dosbarth. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi cynhwysiant ac mae plant agored i niwed yn cael eu derbyn a'u meithrin. Mae'r diwrnod ysgol yn cael ei gynnal mewn awyrgylch o barch gan y naill ochr a'r llall. Gellir teimlo synnwyr o dawelwch a phwrpas o amgylch y coridorau.

Yn ystod y cyfnod trosglwyddo (Blwyddyn 6-i-7) mae disgyblion yn cael eu cyflwyno i ddiwylliant yr ysgol. Mae disgyblion yn derbyn negeseuon clir a chyson ynghylch disgwyliadau'r ysgol mewn perthynas â phresenoldeb, ymddygiad, dyheadau a chyrhaeddiad.

“Mae'r ffiniau'n cael eu gosod yn glir ar ddechrau Blwyddyn 7, rydym i gyd yn gwybod ble'r ydym ni, rydym yn cael gwybod sut i ymddwyn a'r gwobrau y gallwn eu cael, a'r cosbau y byddwn yn eu cael os na fyddwn yn ymddwyn yn iawn.”

Llais Disgybl

“Mae plant yn gwybod y bydd ffiniau eglur yn cael eu defnyddio ym mhob gwers, rydym yn disgwyl yr un safonau o ymddygiad gan bob disgybl.”

Llais Athro

Mae disgyblaeth ymddygiad ar gyfer dysgu yn cael ei gyflawni mewn dull cadarnhaol, nid yw athrawon yn gweiddi, rhoi pryd o dafod i ddisgyblion nac yn gwneud iddynt eistedd mewn tawelwch, ceir teimlad o barch, ni cheir gwrthdaro, ac mae disgyblion yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Ni cheir dicter ac mae cosbau'n glir, ac mae'r holl staff a disgyblion yn cadw at yr un system a chydweithio i atgyfnerthu hyn. O ganlyniad mae disgyblion yn gwybod yn union beth yw canlyniad ymddygiad a gweithredu amhriodol, (ystod o godau cosb S1 i S5, gorfod aros ar ôl ysgol, adroddiad ac ati). Mae athrawon yn gallu addysgu am nad ydynt yn "ymladd tân" ac mae plant yn disgwyl cael eu haddysgu ym mhob gwers.

Mae'r ysgol yn defnyddio system dilyn data er mwyn canfod grwpiau o ddisgyblion sy'n achosi pryder ac aflonyddwch, sy'n anghofio llyfrau ac offer, sydd ddim yn gwneud gwaith cartref ac sydd ddim yn gwisgo'r wisg gywir.

"Weithiau rwyf angen dysgu beth i beidio gwneud, doeddwn i ddim yn sylweddoli beth oeddwn yn ei wneud."

"Mae'r cynllunydd yn helpu, mae fy rhieni'n gallu gweld fy holl wobrau ac os fyddaf yn cael cosb gallwn drafod hynny."

"Nid yw rhieni'n hapus os ydych yn cael cosb, fe wnes i newid fy agwedd tuag at wersi, fe wnes i ddysgu oddi wrth fy nghanngymeriadau, rwyf ar y llwybr iawn nawr."

Lleisiau Disgyblion

Yn ystod y 'gweddnewidiad' canfuwyd bod amser cinio hefyd yn achos pryder felly penderfynodd yr UDA gadw'r holl ddisgyblion yn yr ysgol. Tawelodd y pentref ac fe ddaeth yr aflonyddwch, sbwriel ac ati i ben. Roedd gwaharddiadau wedi eu targedu'n uchel ac roedd y gymuned yn parchu'r athrawon a'r penderfyniadau oedd yn cael eu gwneud yn yr ysgol i fynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol ac yn siarad am bethau'n digwydd yn yr ysgol yn defnyddio'r un iaith (cosbau a gwobrau).

"Mae ein cymuned yn hoffi disgyblaeth gadarn."

Pennaeth Cynorthwyol Bugeiliol

Ledled yr ysgol gyfan, ar ddiwedd pob tymor gall disgyblion ennill ystod eang o wobrau fel camera, peiriant Wii, i-Pad, ac ipod. Cynhelir cystadlaethau rhwng tai a cheir gwobrau hefyd am waith rhagorol a gwobrau presenoldeb ar ffurf ymweld â'r llawr sgelfrio iâ, sinema a McDonalds. Mae gan bob Grŵp Blwyddyn ei raffl ei hun er mwyn tegwch.

"Os wyt ti'n dda iawn ti'n falch ohonot dy hun."

"Mae pawb yn ceisio gweithio tuag at y diwedd i ennill y wobr fawr; rydym i gyd yn gweithio tuag at y gôl honno."

Llais Disgybl

Mae disgyblion yn ymddiried yn eu hathrawon ac mae perthnasau wedi cael eu datblygu trwy adeiladu ar sylfaen o barch gan y naill ochr a'r llall. Pan fydd y

canlyniadau'n cyrraedd a'r graddau'n parhau i godi mae'n rhoi hyder i staff sylweddoli bod yr hyn y maent yn ei wneud mewn ffordd gyson yn gweithio, ac maen nhw eisiau parhau a datblygu eu hymarfer ymhellach. Mae staff hefyd wedi sylwi bod disgyblion eisiau bod yn y mwyafrif a'u bod yn cael eu hysgogi i wneud yn well yn academiaidd.

“Mae'n ffasiynol bellach i gyflawni, i ymddwyn yn dda; mae'r holl blant, waeth beth yw eu cefndir, eisiau bod yn rhan o hynny, mae plant yn ymdrechu i symud ymlaen, maen nhw eisiau bod yn rhan o'r ethos heriol hwnnw.”

Llais Athro

Ceir canfyddiad cyffredin bod disgyblion yn gwybod eu bod yn dod i'r Ysgol i weithio a chanolbwyntio ar eu cyrhaeddiad. Mae gan Oakdale system wobrwyo hefyd ar gyfer canlyniadau arholiadau TGAU. Mae sgysiau am werth yn dechrau ym Mlwyddyn 10, ac mae'n bosib i'r rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 ennill y canlynol:

Papur	Gradd	Canlyniad Amodol	Gwobr
Haen uwch Saesneg	A* Saesneg	Pas Mathemateg	£50.00
Haen uwch Mathemateg	A* Mathemateg	Pas Saesneg	£50.00
Haen uwch Saesneg	A	-	£20.00
Haen uwch Mathemateg	A	-	£20.00
Haen Sylfaenol Saesneg	C	-	£50.00
Haen Sylfaenol Mathemateg	C	-	£50.00
Unrhyw lefel arall	-	2 radd uwchben rhagwelydd FFT	£20.00

Mae gwobrau'n cael eu talu mewn arian parod ar gasglu canlyniadau. Bydd y marc uchaf yn Saesneg yn ennill iPad mini i'r disgybl hwnnw a'r marc uchaf mewn Mathemateg yn ennill iPad mini i'r disgybl hwnnw.

“Rydym yn gwybod bod hyn yn ymarfer cyffredin ac mae cytundebau yn cael eu gwneud adref ar hyd y wlad. Rydym yn gwneud ein cytundeb ein hunain gyda disgyblion fel ysgogiad ychwanegol sy'n lleihau'r pwysau adref i rai o'n rhieni.”

Dirprwy Bennaeth

Addysgu a Dysgu

Yn ôl staff yn Oakdale mae'r systemau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer monitro cynnydd yn drwyadl a chadarn, ac maen nhw wedi cael eu gwella trwy ddefnyddio

data o ansawdd uchel. Mae'r pennaeth yn darparu hyfforddiant data o ansawdd uchel i staff allweddol ac mae data'n cael ei gyflwyno fel y gellir dilyn grwpiau agored i niwed, yn cynnwys disgyblion Prydau Ysgol am Ddim (PYADd) ym mhob pwnc.

“Rydym yn adnabod ein disgyblion prydau ysgol am ddim yn gynnar, rydym yn gwybod am gefndir y plant; rydym yn gwybod beth sy'n digwydd yn eu bywydau, rydym yn gyson yn monitro eu lles a'u cynnydd, rydym eisiau iddyn nhw gael y canlyniadau gorau.”

“Mae gennym weithdrefnau caeth iawn, os yw disgyblion mewn angen bydd y Pennaeth yn darparu ar eu cyfer, rydym yn ymdrin â phawb fel unigolion.”

Llais Athro

Mae'r UDA yn credu'n gadarn bod eglurder pwrpas ynghyd â llai o wrthdynciadau wedi gwneud i'r ysgol ganolbwyntio ar ddeilliannau ac roedd y tîm arwain yn gallu canolbwyntio ar addysgu a dysgu. Datblygodd cyfweiliadau 'beth yw'r sefyllfa' gydag arweinwyr canol atebolrwydd cadarn, ac fe wnaeth dull arwain o bolisi drysau agored chwarae rôl allweddol, a ddatblygodd ymddiriedaeth a diwylliant o beidio â gweld bai. Mae gan staff addysgu cyfeillgar, hawdd mynd atynt berthynas ffyddiog â'i gilydd ac mae'r UDA yn annog cymryd risgiau ymarferol. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan sylwadau staff addysgu:

“Mae pob un ohonom yn rhannu arfer da. Nid ydym yn ofni mynd ac arsylwi gwersi eraill, gallwn fynd i mewn ac allan, cymryd nodiadau. Os fydd rhywbeth yn llwyddiant gall pob un ohonom ei roi ar waith.”

Athro

“Nid oes gennym unrhyw broblemau gyda staff yn arbrofi, os fydd staff yn cael syniad rydym yn eu hannog i roi cynnig arno, gweld beth sy'n digwydd, ei werthuso, os yw'n gweithio – gwych, os na – symud ymlaen a rhoi cynnig ar rywbeth arall.”

Dirprwy Bennaeth

Sefydlwyd Grŵp Addysgu a Dysgu a ddatblygodd y 'blwch offer addysgu a dysgu', a darparodd arweinydd y tîm hyfforddiant mewn swydd ar 'asesiad ar gyfer dysgu', a 'dysgu i ddysgu'. Aeth yr holl staff i westy am y diwrnod a chael hyfforddiant mewn swydd allanol i ychwanegu at y blwch offer addysgu a dysgu. Er enghraifft mae gan yr ysgol system goleuadau traffig mewn lle erbyn hyn - gellir dangos cardiau coch, melyn a gwyrdd wedi eu lamineiddio yn y dosbarth er mwyn i ddisgyblion ddangos eu dealltwriaeth o wers, neu ofyn am gymorth. Ac mae byrddau gwyn bach hefyd yn cael eu defnyddio mewn dosbarthiadau i annog disgyblion i roi cynnig ar ateb cwestiynau.

“Mae’r offer cyfranogol yn helpu athrawon i wybod os ydyn nhw wedi anelu’r wers yn gywir.”

Athro

Mae staff yn cwrdd yn rheolaidd mewn timoedd cwricwlwm i sicrhau cysondeb yn natblygiad polisi a gweithdrefnau, ac i ddarparu cyfleoedd i arddangos arfer gorau, mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhieni ac annog dysgu adref.

“Un o’r pethau cyffredin yr ydym yn ei glywed yw ‘doeddem ni ddim yn gwneud pethau fel hyn yn ein dyddiau ni.’”

Athro

Er mwyn goresgyn rhwystrau o’r fath i ddysgu cynhaliodd yr ysgol ‘Noson Datblygiad Craidd i Rieni’. Trwy ganolbwyntio ar ddisgyblion oedd angen anogaeth ychwanegol i gael Gradd C targedwyd 30 o rieni a mynychodd 21 ohonynt. Mynychodd disgyblion a rhieni gyda’i gilydd a threulio 1 awr gyda’r Adrannau Mathemateg a Saesneg. Rhoddwyd offer sylfaenol i gyfranogwyr fel pinnau, pensiliau, papur dargopïo, cwmpawdau, mesurwyr ongl, prennau mesur ac adnoddau cyn bapurau. Yn ystod y noson rhoddwyd cyfarwyddyd clir i gyfranogwyr ynghyd a gwybodaeth ynghylch yr hyn y gallant ddisgwyl i ddigwydd i’w plentyn rhwng Ionawr a Mehefin er mwyn ymrwymo rhieni i’w helpu nhw i helpu eu plant.

Yn dilyn hyn gosodwyd gwaith cartref ychwanegol i ddisgyblion bob wythnos, yr oedd disgwyl i rieni ei wirio, ac a fyddai’n cael ei roi yn ôl i rieni ar ôl i’r athro ei farcio er eu gwybodaeth ac er mwyn eu helpu i ddilyn cynnydd eu plentyn. Mae sesiynau galw draw hefyd yn cael eu cynnal i rieni trwy gydol y flwyddyn i’r rhai sydd eisiau mwy o gyfarwyddyd a chymorth.

Roedd y noson wedi ei chynllunio hefyd i annog rhieni i feddwl am gyfleoedd bywyd gwybodus i’w plant ac i feddwl am gael sgysiau gyda nhw am ddyfodol i ymgysylltu ato. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rieni a ddywedodd eu bod yn deall yr angen i fod yn onest gyda’u plant a dweud wrthyn nhw pam fod meddu ar sgiliau bywyd go iawn yn bwysig.

“Rydym yn dweud wrth ein holl ddisgyblion i beidio byth â rhoi’r ffidil yn y to, disgwylir i’r holl blant gyflawni eu potensial.”

Dirprwy Bennaeth

Mae Oakdale wedi datblygu system mentora effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion, ac mae Athrawon Dosbarth yn gyfrifol am gynnydd academiaidd yr holl ddisgyblion yn eu gofal. Fel ysgol sy’n cael ei gyrru gan gynnydd mae mentoriaid a rhai sy’n cael eu mentora yn cwrdd ar sail un i un bob tymor i drafod canlyniadau ac i barhau i ysgogi dyheadau.

Trwy newid tiwtoriaid o gwmpas roedd yr UDA yn gallu gweld pwy oedd yn gweithio orau ac yn fwyaf effeithiol gyda grwpiau blwyddyn penodol. Mae’r system mentora

yn Oakdale bellach yn rhedeg yn gylchol. Mae mentoriaid penodol ar gyfer Blwyddyn 7, sydd ddim yn newid, ac yna ym Mlwyddyn 8 mae disgyblion yn cael mentor newydd sy'n aros gyda nhw tan Flwyddyn 11. Mae hyn yn golygu pan fydd mentoriaid yn cyrraedd diwedd cylch Blwyddyn 11 maen nhw'n dewis disgyblion Blwyddyn 8 newydd yn y flwyddyn academiaidd nesaf ac yn dilyn eu cynnydd trwy'r ysgol nes iddynt gyrraedd Blwyddyn 11.

“Rydym ni yma i’w helpu a’u cefnogi nhw, ac i wneud yn siŵr eu bod yn gadael gyda’r cyfleoedd gorau i ddod allan o’r amgylchiadau y maen nhw ynddynt, ac rydym yn dweud wrthynt mai cymwysterau yw eu cyfle mewn bywyd.”

Athro Dosbarth

Datblygu Llais y Dysgwr yn Ysgol Gyfun Oakdale

Mae'r Grŵp Llais y Dysgwr yn cynnwys naw disgybl o flynyddoedd 7 i 10 ac mae'n is-grŵp o'r cyngor ysgol, y mae aelodau ohono'n cael eu hethol gan eu dosbarthiadau.

Cyfarfu'r grŵp, sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu, am dri sesiwn i drafod y themâu canlynol:

- **Beth yw rhinweddau athro da?**
- **Beth sy'n gwneud gwers dda?**
- **Beth sy'n rhwystro dysgu yn y dosbarth a beth sy'n helpu disgyblion i ddysgu?**

Yn ystod pob sesiwn drafod fe greodd disgyblion boster ar y thema. Cafodd y posteri hyn eu harddangos yn ystafell y staff ar yr hysbysfwrdd addysgu a dysgu a dosbarthwyd adroddiad gyda manylion y posteri hyn i'r holl staff.

“Mae'r gwersi'n dda; mae'r athrawon yn rhyngweithio gyda'r disgyblion.”

“Byddwn yn dweud wrth athro os oeddwn i'n meddwl nad oedd gwers yn gweithio'n dda. Byddwn yn dweud wrthyn nhw beth allai ei gwneud hi'n fwy diddorol; fydd pobl ddim yn dysgu cystal os ydyn nhw'n cael y wers yn anniddorol.”

Llais Disgybl

Cynhyrchodd y disgyblion DVD oedd yn crynhoi eu canfyddiadau. Dangoswyd y DVD yn ystod gwasanaethau. Mynychodd staff wasanaethau ynghyd â'u dosbarthiadau, ac roedd hyn yn sicrhau ei bod yn amlwg i ddisgyblion bod staff wedi gweld y DVD. Roedd adborth gan ddisgyblion oedd wedi gweld y DVD yn gadarnhaol iawn, nododd nifer ohonynt gydymdeimlad â'r farn oedd yn cael ei datgan; er enghraifft dywedodd un disgybl:

“Roedd y DVD yn dda iawn achos roedden nhw’n dweud popeth yr ydym ni i gyd yn ei feddwl.”⁴²

Llais Disgybl

Cynhaliodd y disgyblion archwiliad gwersi hefyd trwy gyfrwng arolwg a chynnig adborth yn adlewyrchu ansawdd yr addysgu a dysgu yn Oakdale o’u safbwynt nhw.

Roedd tair adran i’r holiadur:

- **Strwythur y wers**
- **Deilliannau canfyddedig y wers**
- **Perthynas rhwng staff a disgyblion a sut y canfyddir athrawon**

Cafodd y data ei ddadansoddi a chynhyrchwyd adroddiad oedd ddim yn barnu. Cafodd yr holl staff gopi o’r adroddiad a arweiniodd at gryn drafodaeth yn yr ystafell athrawon ac roedd yn bwynt ar yr agenda mewn cyfarfodydd maes cwricwlwm.

“Mae angen i ni barhau i ddatblygu llais y disgybl er mwyn i ddisgyblion barhau i weld eu hunain fel partneriaid gweithredol ym mywyd yr ysgol, ac nid fel defnyddwyr goddefol o gynnyrch sydd wedi ei gynllunio’n barod. Mae angen adfywio’r synnwyr hwn o bartneriaeth bob blwyddyn trwy gyfranogiad disgyblion mewn adolygiadau rheolaidd o’u gwaith a’u cynnydd, a thrwy’r sylw didwyll y mae staff yn ei dalu i’w barn ar bob agwedd ar weithgaredd a threfn yr ysgol.”

Dirprwy Bennaeth

Mae disgyblion Oakdale wedi gwneud fideo sydd ar gael ar wefan Llais y Disgybl Cymru:

<http://www.pupilvoicewales.org.uk/grown-ups/get-involved/developing-learner-voice-in-oakdale-comprehensive-school/>

Tystiolaeth o Effaith

Mae disgyblion bellach yn gadael yr Ysgol gyda phosibiliadau:

“Roedd ysgol gynradd yn rhy hamddenol; mae hwn yn llawer gwell amgylchedd ar gyfer dysgu.”

“Rwyf eisiau parhau i ddysgu, rwy’n meddwl am Goleg neu Brifysgol.”


Lleisiau Disgyblion

⁴² <http://www.pupilvoicewales.org.uk/grown-ups/get-involved/developing-learner-voice-in-oakdale-comprehensive-school/>

Mae gwaith caled gan staff a disgyblion wedi arwain at 'gau bwlch cyrhaeddiad' rhwng disgyblion PYADd a disgyblion dim PYADd (gweler graffiau ar y dudalen ganlynol).

Yn 2013 canran y disgyblion PYADd a gyrhaeddodd Lefel CA3 disgwyliedig y dangosydd pynciau craidd oedd 76.0%, a 76.2% i ddisgyblion dim PYADd, blwch o 0.2%. Mae canlyniadau Lefel 2 TGAU dros y pum mlynedd diwethaf hefyd wedi cynhyrchu gostyngiad yn y bwlch cyrhaeddiad. Yn 2008 roedd y bwlch rhwng disgyblion PYADd a disgyblion dim PYADd oedd yn cyrraedd trothwy Lefel 2 o 5 TGAU Gradd A*-C yn 35.3%, yn 2013 cafwyd gostyngiad i 10.9%.

Mae'r gwaith caled yn parhau a'r her wrth symud ymlaen yn Oakdale yw lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar drothwy cynhwysol Lefel 2 sef cyfaint y cymwysterau sy'n gyfwerth â TGAU Gradd A*-C yn cynnwys un mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf ac un mewn Mathemateg.




Data Fy Ysgol Leol⁴³

Disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel CA3 disgwyliedig – Dangosydd pynciau craidd

Cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf lefel 5 mewn cyfuniad o Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth

⁴³ <http://mylocalschool.wales.gov.uk/school.htm?estab=6764053&iaith=eng>



Data Fy Ysgol Leol⁴⁴

Disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2- 5 TGAU Gradd A*- C

Mae staff yn Oakdale yn parchu'r UDA ac maen nhw'n awgrymu ei fod wedi cael effaith sylweddol ar yr ysgol gyfan, fodd bynnag maent yn credu eu bod hwythau hefyd yn cael eu cydnabod fel rhan o'r llwyddiant a'u bod wedi cael eu gyrru i lwyddo gan lefelau egni'r UDA sy'n gweithredu fel esiampl i weddill y staff.

“Mae'r pennaeth yn ysbrydoledig, daeth i mewn a deffro pawb, roeddem ni'n barod am newid, roeddem eisiau arweinyddiaeth.”

“Maen nhw'n dîm gwirioneddol dda; gyda'i gilydd maen nhw'n creu triawd rhagorol.”

“Mae pob pwynt yn y triawd yn hygyrch, rydym yn gwybod y gallwn fynd yn syth at y pennaeth os oes angen, fyddem ni ddim yn gorfod mynd trwy reolwr llinell.”

Lleisiau Athrawon

Datblygiadau i'r Dyfodol

Ar hyn o bryd mae staff yn Oakdale yn cynnal peilot o arolwg llais y disgybl sy'n canolbwyntio ar 'wyt ti'n ddysgwr da?' Yn seiliedig ar Raddfa Likert gofynnir i ddisgyblion raddio eu hunain ar 20 cwestiwn yn ymwneud â gwahanol agweddau ar ddysgu, er enghraifft:

⁴⁴ <http://mylocalschool.wales.gov.uk/school.htm?estab=6764053&iaith=eng>

- Wyt ti'n teimlo'n gyfforddus yn gweithio gyda ffrindiau?
- Wyt ti'n teimlo'n gyfforddus gyda dy athrawon?
- Wyt ti'n gofyn am gymorth pan fyddi ei angen?
- Wyt ti'n hapus i gael dy wthio mewn gwersi?
- Wyt ti'n hapus i fynd i'r afael â chwestiynau caled a chyfrwys?

Ar hyn o bryd mae staff yn treialu cadernid yr offeryn arolwg ac yn asesu ffyrdd posib o ddefnyddio'r data.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Oakdale yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar y meysydd canlynol:

- Cysondeb a chreadigrwydd wrth addysgu
- Cwricwlwm wedi ei bersonoli
- Ennyn diddordeb disgyblion
- Perthnasau gyda'r byd ehangach
- Arweinyddiaeth ysbrydoledig

“Nid bod yn rhagorol yw pen y daith, rydym yn sylweddoli y bydd cynnal y rhagoriaeth honno'n hyd yn oed mwy o her na'i gyflawni.”

Dirprwy Bennaeth

Mae'r Dirprwy Bennaeth yn falch o gyflawniadau'r ysgol ac mae'n angerddol ynghylch addysg yng Nghymru ac yn siarad yn agored am 'symudiad diwylliannol angenrheidiol' mewn agwedd tuag at athrawon a dysgu er mwyn cael ymgysylltiad parchus gydag ysgolion a chodi dyheadau.

Cyllid

Mae'r ysgol yn bwriadu defnyddio ei Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) i ddatblygu rolau cefnogol allweddol ledled yr ysgol a chanolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- Dysgu Hyfforddi
- Cymorth Llyfrgell
- Dal i Fyny Llythrennedd a Rhifedd

Crynodeb

Y neges allweddol yn yr astudiaeth achos hon yw pwysigrwydd datblygu perthnasau o ansawdd uchel ymysg staff a rhwng staff a disgyblion. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar hybu lles a gwrando ar ddysgwyr.

Themau	Ffactorau penodol	Oak
Arweinyddiaeth	Defnydd cadarn o ddata a hunan werthusiad	✓✓
	Hyfforddi a threfnu staff yn cynnwys arbenigwyr	✓✓

Addysgu a Dysgu	Rhaglenni lles ac ymddygiad ar gyfer dysgu yn cynnwys canolbwyntio ar bresenoldeb, gwrando ar ddysgwyr ac adeiladu hunan barch	✓✓
	Adborth ac asesiad effeithiol	✓
Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach	Dialog gref gyda rhieni	✓✓

Cyswilt Allweddol

Mr Martin Davis
Dirprwy Bennaeth
Ysgol Gyfun Oakdale
Heol Penmaen,
Oakdale
Y Coed Duon
NP12 0DT

1495 00

7. Ysgol Gyfun Bishop Gore

LLEIHAU EFFAITH TLODI AR GYRHAEDDIAD ADDYSGOL

ARSYLLFA POLISI ASTUDIAETH ACHOS 7

Enw'r Ysgol/Lleoliad: **Ysgol Gyfun Bishop Gore**

Awdurdod Lleol: **Abertawe**

Math o Ysgol/Lleoliad: **Uwchradd**

Cyfrwng Iaith: **Saesneg**

Nifer Disgyblion: **1041**

Canran Prydau Ysgol am Ddim: **26%**

Canolbwynt yr Astudiaeth Achos:

Rhoi cymorth i ddisgyblion â chyrhaeddiad isel i gyrraedd eu graddau targed cyffredinol trwy ddysgu ac addysgu arloesol, cwricwlwm seiliedig ar sgiliau a chymorth astudio a phersonol ychwanegol.

Mae Bishop Gore yn ysgol gyfun yn ardal Sgeti yng ngorllewin Abertawe gyda 1041 o ddisgyblion, 26.2 ohonynt yn ddilys i hawlio prydau ysgol am ddim (PYADd). Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o nifer fawr o ysgolion cynradd, mae dros 50% o'r Flwyddyn 7 presennol yn lleoliadau o ddewis. Mae saith ar hugain y cant o'r disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol ym mand perfformiad 2 o 5 i ysgolion uwchradd yng Nghymru. Yn ei harolwg Estyn⁴⁵ mwyaf diweddar enillodd yr ysgol ddyfarniad 'Rhagorol' ar gyfer *Dyfarniad Cyffredinol yr Ysgol a Rhagolygon ar gyfer Gwella*.⁴⁶

Datblygiadau Allweddol

Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r ysgol wedi datblygu ystod o ymyriadau y mae'n teimlo sydd wedi cyfrannu at ei llwyddiant yn hyrwyddo lefelau uchel o gyrhaeddiad, yn cynnwys y lefelau cymharol uchel o berfformiad gan blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r rhain yn cael eu gyrru gan ganolbwynt cryf iawn ar

⁴⁵ <http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6704044>

⁴⁶ <http://www.estyn.gov.uk/download/publication/20038.2/inspection-reportbishop-gore-schooleng2010/>

ddisgyblion unigol a datblygu rhaglenni addysgu a dysgu sy'n cwrdd ag anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion.

“Dydyn ni byth yn rhoi lan ar unrhyw ddisgybl.”

Pennaeth Cynorthwyol

“Rydym yn ceisio cael gwared ar y rhwystrau i ddysgu.”

Rheolwr Cynhwysiant

“Dydyn ni ddim yn gadael i unrhyw ddisgybl ddianc!”

Aelod o'r Adran Saesneg

Mae'r ysgol yn defnyddio system gynhwysfawr ar gyfer cipio a dadansoddi data sy'n ei galluogi i ganfod a chategoreiddio disgyblion mewn amryw o ffyrdd ac yn rhoi dangosyddion cynnydd a chyrhaeddiad hawdd eu hadnabod. Mae hyn, yn ei dro, yn arwain at ddilyn disgyblion yn systematig ac yn galluogi athrawon o fewn ac ar draws adrannau i gael gafael ar, a chymharu cynnydd disgyblion, ac mae'n hwyluso ymyriad a chymorth effeithiol.

Mae'r broses o gipio data ar gyfer disgyblion sy'n dod i'r ysgol ym mlwyddyn 7 yn tynnu ar amrywiaeth o ffynonellau; SCYAR, asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol 2, Midyis (System Gwybodaeth y Blynyddoedd Canol) ac, ers eleni, canlyniadau'r asesiadau Llythrennedd a Rhifedd a gynhaliwyd fel rhan o Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r ysgol yn nodi cydberthynas cryf iawn rhwng y rhain a'r ffurflenni Midyis.

Yn gweithio ar yr wybodaeth a ddarparir gan y mesurau hyn, mae'r ysgol wedyn yn rhoi *Gradd Gyffredinol* i bob disgybl. Mae'r rhain yn cael eu hystyried i fod yn ddyheadol, yn seiliedig ar dargedau uchelgeisiol, ond realistig. Mae'r graddau yn amrywio o A i E a chaiff pob disgybl un radd yn unig, sy'n berthnasol i bob pwnc.

Yna gosodir y targed er mwyn i'r disgybl ei gynnal neu wella arno, a dyma yw sail yr *Adolygiadau Cynnydd* sy'n elfen allweddol o ganolbwynt yr ysgol ar gael yr holl ddisgyblion i gyflawni eu potensial. Mae'r adolygiadau ar ffurf sgwrs fanwl gyda rhieni/gofalwyr a disgyblion ynghylch eu cynnydd presennol yn erbyn eu gradd gyffredin. Mae'r trafodaethau'n seiliedig ar raddau cynnydd sydd, yn wahanol i'r *Radd Gyffredin*, yn gallu cael eu haddasu am i lawr yn ogystal ag am i fyny. Ceir dau adolygiad cynnydd ym mlwyddyn 7, tri ym mlynnyddoedd 8-10 a phedwar ym mlwyddyn 11.

“Mae'r graddau cyffredin a'r adolygiadau cynnydd yn gymorth mawr.

Maen nhw'n rhoi syniad i chi o ble'r ydych chi a beth sydd angen ei wneud i wella.”

Disgybl Blwyddyn 10

“Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dda yn dweud wrtha'i sut y gallaf wneud yn well.”

Disgybl Blwyddyn 8

Ar sail y dadansoddiad data mae'r ysgol yn trefnu disgyblion mewn bandiau gallu o ddechrau blwyddyn 7. Ceir ymroddiad a chefnogaeth gref i hyn gan staff dysgu. Maen nhw'n ystyried ei fod yn gwneud cynllunio, addysgu ac asesu yn fwy syml ac yn gwneud gwahaniaethu yn haws ei reoli. Credir hefyd bod disgyblion sy'n alluog yn academiaidd, yn arbennig, yn elwa o fod mewn dosbarthiadau gyda disgyblion o allu tebyg. Maen nhw'n credu ei fod yn creu amgylchedd dysgu deinamig i'r disgyblion hyn a allai fod ar goll fel arall.

Mae mesurau cefnogol effeithiol mewn lle i alluogi'r disgyblion hyn (ac eraill) i wneud cynnydd da. Darparir adnoddau amser cinio ac ar ôl ysgol i ddisgyblion wneud gwaith cartref ac adolygu. Mae'r ysgol yn darparu cludiant i'r disgyblion hynny y mae'n gwybod na fyddent yn gallu aros yn yr ysgol fel arall. Mae cymorth cynnil ond cyson ar gael i'r disgyblion hynny y mae eu teuluoedd yn ei chael yn anodd neu'n amhosib talu am eitemau o offer ysgol ac ymweliadau addysgol.

Ceir sesiynau adolygu i ddisgyblion cyfnod allweddol 4 a disgyblion lefel AS/A yn ystod gwyliau ysgol ac mae trideg saith mentor (staff cymorth yn bennaf) yn gweithio fel mentoriaid 1 i 1 gyda disgyblion blwyddyn 11.

“Mae'r athrawon bob amser yno i helpu.”

Disgybl Blwyddyn 10

“Mae dosbarthiadau adolygu'n digwydd drwy'r amser a gallwch wneud eich gwaith cartref ar ôl ysgol neu yn ystod amser cinio.”

Disgybl Blwyddyn 10

“Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi clod ac anogaeth.”

Disgybl Blwyddyn 8

Mae'r ysgol hefyd yn rhoi cymorth cadarn i'r disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); mae chwedeg y cant o'r garfan bresennol o ddisgyblion ADY hefyd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn buddsoddi llawer i greu dosbarthiadau bach gydag adnoddau da a hefyd yn darparu ar gyfer gwaith unigol a grwpiau bach ar ystod o raglenni dal i fyny.

Yn ogystal, mae Grwpiau Anogaeth yng nghyfnod allweddol 3 a 4 ble mae darpariaeth yn cael ei deilwra'n ofalus iawn i anghenion unigol ac sy'n cynnwys rhaglenni rheoli ymddygiad a sgiliau bywyd. Mae'r gwaith agos ac effeithiol gydag asiantaethau allanol yn ychwanegu at ganolbwyntio ar wella lles disgyblion a galluogi cynnydd mewn sgiliau sylfaenol.

Mae'r ddarpariaeth anogaeth BHi-5 yn cwrdd ag anghenion disgyblion cyfnod allweddol 3 gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae disgyblion yn cael eu tynnu allan o wersi ac yn cael rhaglenni dysgu unigol, sy'n canolbwyntio ar godi hyder a hunan barch gyda golwg at ail integreiddiad i wersi prif ffrwd llawn amser. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy ddefnyddio nifer o arfau a strategaethau, sy'n cynnwys cymorth ymddygiad, mynediad at 'Mi-Space', gwaith

sgiliau cymdeithasol, cymorth llythrennedd a chymorth rhifedd. Mae'r BHi-5 yn cael ei staffio gan athro ymddygiad arbenigol, cynorthwyydd addysgu arweiniol a chynorthwyydd addysgu sydd hefyd yn cefnogi disgyblion mewn gwersi prif ffrwd.

Mae'r Mi-Pod yn gyfleuster sydd wedi cael ei sefydlu i gwrdd ag anghenion disgyblion cyfnod allweddol 4 gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae disgyblion yn cael cymorth gan amserlenni a rhaglenni dysgu unigol. Mae dau gynorthwyydd addysgu hefyd yn cynorthwyo disgyblion yn y Mi-Pod.

Mae ELEV8 yn ddarpariaeth CA4 sy'n cynorthwyo disgyblion gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a/neu anawsterau presenoldeb trwy ddysgu wedi ei dargedu. Mae disgyblion yn cael amserlenni a rhaglenni dysgu unigol. Maent yn dilyn cwricwlwm llai ac wedi ei addasu gyda lleoliadau gwaith a rhai gwersi prif ffrwd. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cael cymorth ELEV8 ar sail amser llawn. Mae ELEV8 yn cael ei reoli gan y cydlynnydd anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, dan arweiniad uwch Gynorthwyydd Addysgu a gyda chymorth athrawon arbenigol a staff cyswllt ychwanegol.

Gellir gweld tystiolaeth bellach o sut y gall yr ysgol adnabod grwpiau penodol o ddisgyblion a rhoi cymorth effeithiol iddynt ar adran *Arfer Gorau* gwefan Estyn.⁴⁷ Mae hwn yn amlygu gweithio mewn partneriaeth gyda'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, grŵp gwirfoddol yn y gymuned, i roi cymorth i ddysgwyr lleiafrifoedd ethnig a oeddent hefyd yn **ddifreintiedig** ac mewn perygl o dangyflawni. Darparwyd rhaglen adolygu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth i'r plant hyn a arweiniodd at well cyrhaeddiad ac ymddygiad.

Addysgu a Dysgu

Yn wyneb dirywiad mewn perfformiad academiaidd a dalgylch sy'n newid penderfynodd yr ysgol wneud newidiadau sylweddol i'w dulliau dysgu ac addysgu.

“Roeddem ni'n claddu ein pennau yn y tywod, roedd angen newid arnom.”

Pennaeth Cynorthwyol

Dan arweiniad y pennaeth, dros bum mlynedd mae'r ysgol wedi gweithio'n systematig i ddatblygu dulliau sy'n mynd i'r afael ag ystod eang o arddulliau dysgu ac anghenion dysgu. Mae'r dulliau'n gysylltiedig ag amrywiaeth o arddulliau addysgu i annog disgyblion i ddod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol, cynyddu'r defnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth e.e. buddsoddiad sylweddol mewn i-Pads, hybu gwerthusiad ac asesiad gan gymheiriaid a rhaglen hyfforddi wedi ei chynllunio'n ofalus at gyfer, ac yn cynnwys, tîm mawr o staff cymorth. Mae'r defnydd o staff cymorth yn cael ei gynllunio'n ofalus a chredir ei fod yn arbennig o effeithiol yn y ffordd y maen nhw'n cefnogi'r cwricwlwm (gweler isod).

⁴⁷ <http://www.estyn.gov.uk/english/best-practice/Signposts%20to%20best%20practice%20/>

“Dydyn ni ddim yn meddwl am athrawon a CCD – rydym yn meddwl amdanom i gyd fel staff’.”

Pennaeth Bugeiliol Blwyddyn 11

Trwy raglen helaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus mae consensws ar agweddau tuag at ddysgu, addysgu ac asesu wedi ei ddatblygu ymysg staff.

“Rwyf wedi gweithio mewn tair ysgol a dydw i erioed wedi gweld un lle ceir cymaint o gysondeb rhwng staff ynghylch addysgu ac asesu.”

Athro Daearyddiaeth

“Mae mentrau yn cael amser a hyfforddiant.”

Pennaeth Cynorthwyol

Anogir athrawon i fod yn gwbl ymwybodol o alluoedd a chryfderau disgyblion a meysydd ar gyfer gwella. Maen nhw'n datblygu'r wybodaeth hon trwy berthnasau cryf yn y dosbarth, data cyrhaeddiad hygyrch a chyfoethog ac asesiad ffurfiannol rheolaidd gyda chanolbwynt pendant. Mae disgyblion hefyd yn gwybod faint o gynnydd maen nhw'n ei wneud trwy'r graddau targed sy'n cael eu rhoi iddynt.

“Mae disgyblion yn ymwybodol o ble maen nhw a'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud. Mae hyn yn arwain at elfen gystadleuol.”

Athro Mathemateg

Roedd grwpiau o ddisgyblion blwyddyn 8 a blwyddyn 10 yn cytuno'n gryf bod y rhan fwyaf o wersi'n ddiddorol ac yn cael eu hesbonio'n glir a bod eu hathro'n eu hadnabod yn dda. Roedd disgyblion yn teimlo'n hyderus ynghylch holi cwestiynau a chyfrannu at drafodaethau dosbarth. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac anogaeth dda a bod yr athrawon yn gwrando arnynt.

Datblygiad y Cwricwlwm

Dros y pum mlynedd diwethaf cafwyd nifer o ddatblygiadau i gysoni'r cwricwlwm gyda'r egwyddorion ac arferion a hyrwyddwyd i ddechrau gan y pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r rhain yn ceisio gwneud y cwricwlwm yn fwy creadigol, hyblyg ac yn canolbwyntio mwy ar y disgybl. Ceir ffocws cyson ar roi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu trwy brofiadau a gweithgareddau amrywiol.

Ym mlwyddyn 7 mae disgyblion yn dilyn rhaglen seiliedig ar sgiliau, sy'n adeiladau ar eu gwaith yn yr ysgol gynradd ac yn caniatáu iddynt ddefnyddio'r sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth y maent wedi eu hennill o'u meysydd cwricwlwm mewn modd creadigol iawn. Mae'r model dysgu hwn wedyn yn parhau i flynyddoedd 8 a 9.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, yn ogystal â phynciau craidd y cwricwlwm a'r Bac Cymreig, mae disgyblion yn gallu dilyn ystod o lwybrau, sy'n adlewyrchu eu diddordebau, galluoedd a'u cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Digwyddiadau Allgyrsiol

“Ynghyd â ffocws cryf ar ddisgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu, mae'r ysgol yn rhoi pwyslais mawr ar ei hethos o ofal. Rydym yn credu, trwy roi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion fwynhau profiadau y tu allan i'r cwricwlwm, i gydweithio gyda'i gilydd a'r gymuned...”

Pennaeth

Datganiad: Swansea EduNet⁴⁸

Mae'r ysgol yn llwyddo i ddarparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac mae'n gweld hyn fel dull pwysig arall o alluogi'r holl ddisgyblion i ddarganfod eu potensial ac i lwyddo.

“Mae cymaint o gyfleoedd a gweithgareddau” (Prif Ferch), rhai ohonynt yn deillio o arolygon disgyblion a dulliau eraill o ddatblygu *Llais y Disgybl*. Mae'r ysgol yn sicrhau nad oes unrhyw ddisgybl/myfyriwr yn methu â chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol am na allant fforddio i wneud hynny.

Deilliannau

O 2009-13 mae'r data meincnodi ar gyfer cyfnod allweddol 3 yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf ar gyfer y dangosydd pynciau craidd (DPC) a Saesneg. Mae'r perfformiad mewn mathemateg, ac eithrio 2012 (chwarter canol) yn y chwarter uchaf.

Mae data meincnodi cyfnod allweddol 4 ar gyfer 2009-13 yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf ar gyfer trothwy Lefel 2 + a throthwy Lefel 2. Mae perfformiad bechgyn yn arbennig o gryf yn y trothwy Lefel 2 +; mae eu cyrhaeddiad ar gyfer 2009-13 yn uwch na chyrhaeddiad y Teulu o Ysgolion, yr Awdurdod Lleol a Chymru. Mae perfformiad yr ysgol gyfan yn cyflawni trothwy Lefel 2 hefyd yn drawiadol. Am bob blwyddyn o 2009-13 mae'n uwch na'r Teulu o Ysgolion, yr Awdurdod Lleol a Chymru. O 2010 i 2013 mae'n llawer uwch na'r Teulu o Ysgolion.

Ar lefel unigol mae sylwadau un disgybl ym mlwyddyn 8 yn ddiweddglo addas:

“Mae fy ngwaith wedi gwella'n wirioneddol ers i mi ddod i'r ysgol hon. B oedd fy Ngradd Gyffredinol ond nawr mae wedi newid i A.”

Llais Disgybl

⁴⁸ <https://swansea-edunet.gov.uk/en/Pages/Default.aspx>

Crynodeb

Y brif neges yn yr astudiaeth achos hon yw bod cyfuniad o gwricwlwm wedi ei deilwra a chanolbwynt cryf ar les disgyblion a datblygiad proffesiynol staff yn cyfrannu at safonau uwch i'r holl ddysgwyr.

Themau	Ffactorau penodol	BG
Arweinyddiaeth	Defnydd cadarn o ddata a hunan werthusiad	✓✓
	Hyfforddi a threfnu staff yn cynnwys arbenigwyr	✓✓
Addysgu a Dysgu	Strategaethau addysgu aml-synhwyrol	✓✓
	Cwricwlwm wedi ei deilwra yn adeiladu ar ddiddordebau a galluoedd dysgwyr, yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol	✓✓
	Rhaglenni lles ac ymddygiad ar gyfer dysgu yn cynnwys canolbwyntio ar bresenoldeb, gwrando ar ddysgwyr ac adeiladu hunan barch	✓✓

Cyswllt Allweddol

Ryan Davies
Pennaeth
Heol De-la-beche
Sgeti
Abertawe
SA2 9AP
Ffôn: 01792 411400

8. Ysgol Bassaleg

LLEIHAU EFFAITH TLODI AR GYRHAEDDIAD ADDYSGOL

ARSYLLFA POLISI ASTUDIAETH ACHOS 8

Enw'r Ysgol/Lleoliad: **Ysgol Bassaleg**

Awdurdod Lleol: **Casnewydd**

Math o Ysgol/Lleoliad: **Uwchradd**

Cyfrwng Iaith: **Saesneg**

Nifer y Disgyblion: **1670**

Canran Prydau Ysgol am Ddim: **6%**

Canolbwynt yr Astudiaeth Achos

Dulliau addysgu yn cynnwys adborth i ddisgyblion, datblygu sgiliau meddwl a dysgu gan gymheiriaid sydd wedi cael eu gwneud yn effeithiol trwy becynnau cymorth a systemau cymorth sydd wedi cael eu datblygu yn yr ysgol

Mae Ysgol Bassaleg yn ysgol gymysg 11 i 18 a gynhelir gan Awdurdod Addysg Lleol (AALI) Casnewydd. Mae lleoliad yr ysgol ar gyrion dinas Casnewydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn dod o'r ddinas ac mae lleiafrif sylweddol yn dod o ardaloedd mwy gwledig. Mae'r dalgylch yn cynnwys ysgolion Cynradd High Cross, Marshfield, Mount Pleasant, Penrepoeth, a Rogerstone. Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Bassaleg 1670 o ddisgyblion ar y gofrestr ac o'r rhain mae 347 yn y Chweched Dosbarth⁴⁹. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod o ardaloedd sydd ddim yn gefnog nac yn economaidd ddifreintiedig. Dros y pum mlynedd diwethaf nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yw oddeutu 6%⁵⁰ ar gyfartaledd, sydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer yr Awdurdod ac yn genedlaethol ledled Cymru. Fodd bynnag, mae 33% o'r chweched dosbarth presennol yn gymwys i hawlio Lwfans Cynhaliaeth Addysg ac felly mae staff yn ymwybodol bod angen iddynt ystyried mwy na disgyblion prydau ysgol am ddim yn unig gan eu bod yn credu bod nifer sylweddol o ddisgyblion ar y ffin prydau ysgol am ddim ac felly maent yn ymwybodol o'r cysyniad o 'dlodi mewn gwaith'.

Yr Astudiaeth Achos

⁴⁹ Fy Ysgol Leol 2014

⁵⁰ Stats Cymru

Mae Ysgol Bassaleg yn ‘anelu at ragoriaeth’ ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Yr amcanion cyffredinol yw y bydd yr ysgol:

- yn gymuned hapus a gofalgwr ble y ceir anogaeth a chyfle i bob dysgwyr gyflawni eu potensial, ble maen nhw’n teimlo’n werthfawr fel unigolion ac y dysgu i gydweithio â’i gilydd;
- yn lle trefnus a disgybledig, ble mae’r disgyblion yn gwybod y byddant yn cael yr arweiniad a’r cymorth sydd eu hangen arnynt;
- yn adnabod anghenion yr holl ddysgwyr – deallusol, ysbrydol, cymdeithasol a chorfforol ac yn ymdrechu i gwrdd â’r anghenion hynny mewn modd sy’n briodol i’r unigolyn;
- yn gweld bod dysgwyr yn cael eu hadnabod fel unigolion ac yn derbyn gofal fel unigolion;
- yn parhau i gryfhau’r cysylltiadau sydd wedi cael eu datblygu gyda’r gymuned y mae’n ei gwasanaethau ac y mae’r dysgwyr yn rhan ohoni⁵¹.

Mae’r astudiaeth achos yn canolbwyntio ar ddulliau addysgu yn cynnwys adborth i ddisgyblion, datblygu sgiliau meddwl a dysgu gan gymheiriaid sydd wedi cael eu gwneud yn effeithiol trwy becynnau cymorth a systemau cymorth effeithiol sydd wedi cael eu datblygu yn yr ysgol ei hun.

Diwylliant Safonau – *Beth sy’n gwneud gwers ragorol?*

Mae diwylliant safonau wedi esblygu dros amser yn Ysgol Bassaleg. Yn ystod 2008-i-2009 dangosodd yr ysgol ddiddordeb yn y Fframwaith Sgiliau ac fe gafodd ei dderbyn gan staff fel petai’n statudol. O ganlyniad i ganolbwyntio ar sgiliau allweddol llythrennedd a rhifedd gyda phwyslais cynyddol ar sgiliau meddwl, fe ail ysgrifennodd y staff holl gynlluniau gwaith Cyfnod Allweddol 3. Yn defnyddio fframwaith sgiliau penodol i bwnc edrychodd y staff ar yr ymchwil gorau oedd ar gael ac yna fe wnaethant ei datod i weld sut y gallant ei addasu at eu dibenion eu hunain a’i defnyddio yn yr ysgol. Ysgrifennodd staff lawlyfr dosbarth a datblygu a dosbarthu arweiniad o ran sut y byddai gwers ragorol yn edrych yn Ysgol Bassaleg, mae hyn yn cynnwys cyflenwi:

Nodwedd	Rhagorol
Dechrau gwers	Amcanion yn cael eu rhannu a’u perchnogi gan ddisgyblion: cysylltiadau â dysgu newydd yn cael eu hesbonio’n glir. Sefydlu disgwyliadau heriol; synnwyr eglur o gyflymder.
Denu sylw’r disgyblion	Mae’r holl ddisgyblion yn rhoi eu holl sylw i’w gwaith. Disgyblion yn dyfalbarhau gyda thasgau ac wedi eu hysgogi i lwyddo.
Arddull Addysgu	Mae’r addysgu’n seiliedig ar wybodaeth arbenigol ac mae’n

⁵¹ Prospectws ysgol

	ddiddorol, brwdfrydig, trwyadl ac yn gyson yn heriol.
Dulliau addysgu	Mae dulliau dysgu'n cael eu dewis yn ddychmygus i gyflenwi amcanion dysgu'r wers, gydag amrywiaeth eang o weithgareddau i gwrdd ag anghenion myfyrwyr sydd ag arddulliau dysgu gwahanol a galluoedd gwahanol.
Gwahaniaethiad	Mae'r hyn sy'n ofynnol gan weithgareddau'n cael ei baru mewn modd sensitif gydag anghenion unigol. Mae'r holl ddysgwyr yn cael eu hymestyn yn eu dysgu.
Annibyniaeth disgyblion	Mae gwaith annibynnol a chydweithiol yn amlwg iawn. Mae disgyblion yn ymwybodol o sut i reoli ac ymestyn eu dysgu eu hunain.
Perthnasau	Perthnasau ardderchog a chefnogol sy'n heriol ar yr un pryd yn yr ystafell ddosbarth sy'n arwain at lefelau uchel iawn o ddatblygiad personol.
Cynhyrchiant ac ymddygiad	Mae amser yn cael ei ddefnyddio'n gynhyrchiol iawn ar gyfer gwaith annibynnol a chydweithiol. Mae'r holl ddisgyblion yn ymroddedig i'w dysgu eu hunain trwy gydol y wers, gydag ymwybyddiaeth ardderchog o reoli amser. Mae ymddygiad y disgyblion yn ganmoladwy, ac maen nhw'n cyfrannu'n weithredol i'r wers.
Gwybodaeth athro	Mae gan yr athro wybodaeth arbenigol o'r pwnc ac addysgeg. Mae ef/hi yn defnyddio ei h/arbenigedd i wneud y gorau posib o ddysgu a chyrraedd y disgyblion, yn y pwnc ac wrth addysgu a defnyddio sgiliau trawsgwricwlaidd.
Cwestiynu	Mae'r athro'n defnyddio ystod eang o arddulliau a strategaethau cwestiynu i sicrhau bod dysgu disgyblion yn cael ei ymestyn. Mae cwestiynau'n cael eu cynllunio'n ofalus i gynnal dysgu a herio pawb.
Cyrraedd	Mae cyrraedd yr holl ddisgyblion yn gyson yn uchel iawn mewn perthynas â gallu disgyblion; mae'r disgyblion yn cyflawni gwerth ychwanegol rhagorol.
Cynnydd	Mae'r holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd llawer gwell na'r disgwyl.
Asesiad	Mae asesiad cywir gan yr athro o ddysgu disgyblion yn sail i gynllunio gofalus. Mae'r athro yn gyson yn cynnwys y disgyblion yn asesu eu dysgu eu hunain, amlygu targedau y mae angen mynd i'r afael â nhw mewn gwahanol weithgareddau er mwyn i ddisgyblion barhau i wella. Mae myfyrwyr yn gynyddol yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.
Defnydd o oedolion eraill yn yr ystafell	Cynorthwywyr addysgu'n cael eu cyfarwyddo'n dda sy'n ategu at ansawdd dysgu yn yr ystafell ddosbarth trwy weithio mewn partneriaeth â'r athro a'r disgyblion.
Gwaith Cartref	Mae gwaith cartref, tasgau ymestyn ac ymchwil annibynnol yn

	ymestyn dysgu disgyblion ymhellach.
Sesiwn Gyflawn	Mae disgyblion yn ymrwymo'n weithredol i werthuso'r cynnydd y maent wedi ei wneud yn cwrdd ag amcanion dysgu ac yn gallu adnabod y camau nesaf yn eu dysgu
Tasgau llythrennedd/ rhifedd /TGCh	Cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol iawn, sy'n ategu at ddealltwriaeth disgyblion o'u sgiliau allweddol a sut i'w defnyddio mewn ystod o gyd-destunau.

Mae staff wedi gweithio ar drefnu matrices meini prawf marcio ac yn cwrdd yn rheolaidd i safoni eu dyfarniadau. Mae hyn yn gyson ar draws yr holl lefelau yn yr ysgol.

“Fe wnaethom ddechrau sylweddoli nad oedd fawr o bwynt i gynnal sesiwn gyflawn yn siarad am sgiliau i drafod “beth ydym wedi ei ddysgu yn ystod y wers hon?” Mae sut rydym ni wedi defnyddio'r sgiliau yn gwestiwn llawer mwy heriol ac yn gwneud i'r plant feddwl a defnyddio'u gwybodaeth.”

Pennaeth Cynorthwyol

Rhaglen Meddwl i Ddysgu

Yn ystod y cyfnod trosglwyddo o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, pan fydd disgyblion yn dod i mewn i Ysgol Bassaleg maen nhw'n dod yn rhan o'r 'Rhaglen Meddwl i Ddysgu'. Metawybyddiaeth sydd wrth galon y rhaglen ac mae disgyblion yn derbyn un wers bob pythefnos ar 'sut i feddwl', mae hyn hefyd yn rhoi dealltwriaeth i ddisgyblion o 'sut y maen nhw'n dysgu' trwy:

- Brosesau metawybyddol
- Cwestiynu trefn uwch
- Arwain cymheiriaid
- Cyflwyno syniadau yn weithredol
- Datblygiad sgiliau cyfathrebu

“Mae athrawon yn Ysgol Bassaleg yn gwneud popeth y gallant i wneud dysgu'n weithredol, yn hwyl ac yn ddiddorol.”

“Rwy'n cael fy annog i holi llawer o gwestiynau; mae'n fy ngwneud i'n fwy hyderus am fy nysgu.”

Llais Disgybl

Yn dilyn y cwrs anogir disgyblion i brofi eu sgiliau newydd mewn pynciau eraill ar draws yr ysgol ac o ganlyniad mae disgyblion yn teimlo eu bod yn ddysgwyr hyderus a chryf.

Fodd bynnag, mae staff Bassaleg bellach yn teimlo bod eu rhaglen meddwl i ddysgu yn sail i'r holl gwricwlwm (yn cael ei addysgu'n gyfan gwbl trwy sgiliau pwnc) felly mae angen heriau newydd ar yr athrawon a'r disgyblion.

“Mae yna berygl mewn unrhyw sefydliad i chi feddwl eich bod wedi cyrraedd – mae bob amser rhywbeth y gallwch ei addasu a'i wella a symud ymlaen.

Rydym eisiau gwneud ein sefydliad yn un gwell eto ac eisiau parhau i ddatblygu fel canolfan ar gyfer dysgu rhagorol.”

Pennaeth

Mae staff bellach yn datblygu 'model cyfnod trosglwyddo digidol' gydag ysgolion cynradd partner sy'n annog sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws pynciau. Bydd Platform Dysgu Rhithwir Byd-eang yn galluogi darparu sgiliau newydd a bydd disgyblion Bassaleg yn cael eu grymuso i fynd i ysgolion cynradd i hyfforddi eu staff a disgyblion ar sut i ymrwymo â'r dechnoleg newydd. Mae'r fenter rhwydwaith hon sy'n seiliedig ar system gwmwl yn cynnwys cylchgrawn rhyngweithiol gyda'r nod o gyfathrebu, cydweithio ar brosiectau cydweithredol ac asesu gwaith ei gilydd.

Pecyn Cymorth Athrawon

Cafodd pecyn cymorth yr athrawon ei gynllunio i ddatblygu sgiliau meddwl a chyfathrebu ac mae'n cynnwys sawl adnodd a strategaeth ymarferol i wella myfyrio a mynegiant. Mae'r pecyn cymorth yn galluogi i'r holl staff arwain arfer ragorol ar draws y cwricwlwm ac mae'n cynnig arweiniad ar sut y gellir defnyddio pob adnodd a strategaeth i gael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion. Mae amrywiaeth o eitemau yn y pecyn cymorth i ddatblygu sgiliau disgyblion o bob oedran a gallu, ac sy'n hwyluso “dim dwylo i fyny” er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyfrannu at y wers.

“Fel y mae Dylan Wiliam yn dadlau, mae dim dwylo i fyny yn golygu nad oes dewis o ran meddwl a chymryd rhan!”

Dirprwy Bennaeth yn dyfynnu Dylan Wiliam

Offeryn	Defnydd Awgrymedig
Byrddau gwyn bach Pinnau bwrdd gwyn a rhwbiwr	Hwyluso dim dwylo i fyny a hybu systemau ymateb yr holl ddisgyblion
Goleuadau traffig	Dynodi lefelau o ddealltwriaeth o bob rhan o'r wers. Adnabod pwy sydd angen cymorth fwyaf. Gellir defnyddio disgyblion sy'n gweithio ar wyrdd i roi arweiniad a chymorth i ddisgyblion sy'n dangos coch.

Matrics Cwestiynau	Dyfeisiwyd o Anderson's Taxonomy i roi cymorth i ddisgyblion yn llunio cwestiynau trefn uchel.
Matrics cwestiwn A3	Yn cael ei ddangos ym mhob ystafell ddosbarth fel cymorth gweledol parhaol i hybu defnydd o gwestiynu trefn uchel.
Dis sgiliau meddwl	Adnodd cinesthetig yn seiliedig ar Anderson's Taxonomy, cymorth i ddisgyblion gyda llunio cwestiynau mwy arfarnol. Hefyd yn cael ei ddefnyddio ar wahanol gamau o'r wers i ddangos i ddisgyblion pa sgil sy'n cael ei ddatblygu; cofio, dadansoddi, creu ac ati.
Tocynnau lliw	Gellir eu cyflwyno i ddisgyblion wrth iddynt ddod i mewn i ystafell ddosbarth i ddangos ym mha grŵp y byddant yn gweithio neu ba rolau yr ydych am iddyn nhw ymgymryd â nhw yn y wers. Gall tocynnau gynrychioli "cwestiynau" a gall nifer y tocynnau a gyflwynir i ddisgyblion ar ddechrau pob gwrs ddynodi faint o gwestiynau y disgwylir i bob disgybl eu holi neu eu hateb.
Hetiau meddwl	Gellir eu defnyddio mewn tasgau trafod i ddatrys problem. Mae'r strategaeth yn ddull ardderchog o ddatblygu sgiliau cyfathrebu a chydweithiol disgyblion.
Cardiau chwarae	Gellir eu dosbarthu ar ddechrau pob gwrs i helpu i hwyluso "dim dwylo i fyny" ac annog yr holl ddisgyblion i ymateb. Gall yr athro ddewis cerdyn ar hap o'i becyn ef neu hi a gellir gofyn i'r disgybl gyda'r cerdyn cyfatebol gyfrannu. Neu, gall yr athro ddewis y cerdyn a gall unrhyw ddisgybl o'r "siwt" cyfatebol gyfrannu. Gall hyn fod yn effeithiol iawn gyda disgyblion mwy petrusgar neu lai galluog sy'n teimlo'n anghyfforddus iawn yn cyfrannu: mae'r dewis "grŵp" hwn yn cynnig cymorth.
Trwydded gadael	Ar gael ar ddiwedd pob gwrs i ddisgyblion i ymateb i gwestiwn penodol e.e. i asesu'n ffurfiannol dealltwriaeth disgybl o gysyniad allweddol i ddylanwadu ar gynllunio i'r dyfodol. Hefyd yn cael ei ddefnyddio gan ddisgyblion i gofnodi unrhyw gwestiynau sydd ganddynt a gweithredu fel pont at ddysgu newydd.
Nodiadau postio a wal gwestiynau	I gofnodi cwestiynau sydd wedyn yn eu tro'n cael eu dangos ar wal gwestiynau'r dosbarth
Bag ffa cwestiynau	I sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyfrannu at y dysgu mewn gwrs.
Coeden smotyn	Yn cael ei ddefnyddio gan ddisgyblion yn ystod cyfnodau myfyrio. Mae'r diagram yn rhoi cynrychiolaeth weledol i ddisgyblion o sut y gallant fod yn teimlo ar gam penodol mewn gwrs neu ynghylch tasg benodol.
Bathodynau rôl grŵp	Gellir eu dosbarthu wrth ymrwymo disgyblion mewn gwaith grŵp i weithio i gefnogi staff yn dyrannu rolau a chanfod y gwahanol sgiliau sydd eu hangen i weithio'n effeithiol fel grŵp.
Wordle	Adnodd gwybodaeth – ewch i www.wordle.net copïo a gludo unrhyw destun i flwch ac mae "wordle" yn cael ei ffurfio. Gellir ei ddangos i ddisgyblion ar ddechrau gwrs i ddatblygu meddwl disgyblion pan fyddant yn ceisio sefydlu'r amcan dysgu er enghraifft.

Meddwl, paru, rhannu	Fframwaith i gynorthwyo gyda thasgau trafod ac annog dysgu cydweithredol
“Hapgyrchwyr” electronig	I hwyluso ‘dim dwylo i fyny’ ymhellach ac annog yr holl ddisgyblion i gyfrannu.

Yn dilyn dosbarthu'r blwch offer i bob dosbarth, fe wnaeth aelodau'r uwch dîm arwain greu llawlyfr ac yna aethant i bob adran i egluro sut i'w ddefnyddio mewn cyddestun.

“Gallaf grwydro o amgylch yr ysgol ac ym mhob dosbarth bydd rhyw ran o'r blwch offer yn cael ei ddefnyddio. Mae wedi bod yn ddarn penigamp o hyfforddiant ysgol gyfan ac mae'n adnodd gwych.”

Pennaeth

Mae'r Pennaeth yn datgan bod y blwch offer wedi cael effaith wych ar 'ffyrdd o weithio' yn Ysgol Bassaleg; “mae arsylwi gwersi'n cynhyrchu canlyniadau cyson ac mae ansawdd gwaith y disgyblion mewn llyfrau a deilliannau cyrhaeddiad yn amlwg.” Mae'r effaith fugeiliol hefyd wedi bod yn sylweddol.

“Os oes gennych chi wers sydd wedi ei chynllunio'n dda ac sy'n symud yn gyflym ac yn mynd a disgyblion ar daith o welliant nid ydynt eisiau camymddwyn, rydych wedi dal sylw'r myfyrwyr ac felly mae llai o angen am strategaethau ymyriad ar gyfer ymddygiad.”

Pennaeth Cynorthwyol Bugeiliol

Datblygiadau

Mae'r model Datblygiad Proffesiynol Parhaus presennol yn hyfforddi'r holl staff i ymchwilio'r defnydd o raglenni digidol i ysgogi ac annog, ac mae staff yn symud ymlaen ac yn esblygu eu hymarfer gyda thechnoleg ddigidol.

“Rhaid i chi gael diwylliant ymchwil, nid ydym yn lansio unrhyw beth ysgol gyfan heb wybod beth yw'r gwendidau a gallu gweld ei fod yn cael effaith ar ddysgu, achos os nad yw rhaid i chi gwestiynu gwerth ei wneud.”

Pennaeth

Mae staff yn Ysgol Bassaleg yn gyffrous iawn i allu cyflwyno eu fersiwn gyntaf o'r 'Blwch Offer Digidol'. Medi diwethaf fe wnaethant ddechrau ar siwrnai a fyddai'n adeiladu ar ddulliau addysgu a dysgu arloesol sydd eisoes yn bodoli ac yn cychwyn ar gyfnod newydd o arfer addysgeg i ysbrydoli, cymell a herio pob dysgwr. Yn dechrau gydag astudiaeth beilot gyda 10 aelod o staff, 10 dosbarth o bob cyfnod allweddol a “Grŵp Arweinwyr Dysgwyr Digidol” yn lleisio barn a syniadau'r disgyblion, fe wnaethant ddechrau ymchwilio a gwerthuso sut y gellir defnyddio

technoleg ddigidol i gael effaith gadarnhaol ar godi safonau llythrennedd a rhifedd. Canlyniad yr astudiaeth beilot hon yw'r "Blwch Offer Digidol."

I gynorthwyo'r holl staff gyda'r agenda hwn, mae arweinwyr wedi creu rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus 12 mis o chwe gweithdy wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion unigol staff er mwyn eu "huwchsgilio" nhw a rhoi'r wybodaeth iddynt sydd ei hangen arnynt i ddefnyddio'r dechnoleg hon i gynorthwyo datblygu sgiliau ledled y cwricwlwm. Mae'r gweithdai'n cael eu harwain yn arbenigol gan "Arweinwyr Digidol" sydd wedi bod yn allweddol yn cymell cydweithwyr i groesawu'r agenda cyffrous hwn. Mae dogfen hynod o fanwl yn nodi'r rhaglenni a chysylltiadau eglur â'r 'Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd' fel y gall staff ddefnyddio'r Blwch Offer Digidol fel adnodd ymarferol i gynorthwyo gyda chynllunio gwersi ym mhob cyfnod allweddol.

Cymorth Sgiliau Astudio

Mae darpariaeth 'Cymorth Sgiliau Astudio' yn cael ei gyflenwi i 100 o ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 ar hyn o bryd mewn man neilltuol yn yr ysgol. Mae gan y man sgiliau astudio ystafell gyfrifiaduron ac ystafell ddosbarth, sydd â chadeiriau cyfforddus a grwpiau o fyrddau ar gyfer gweithio mewn amgylchedd anffurfiol.

Mae 5 gwers y pythefnos (100 awr y flwyddyn academiaidd) yn cael eu neilltuo i ddarparu cymorth astudio ac mae hyn yn lle dewis 'opsiwn' sy'n anelu at geisio gwella cyrhaeddiad yn gyffredinol

Yn ystod pob sesiwn sgiliau astudio gofynnir i ddisgyblion osod targed iddyn nhw eu hunain. Mae hwn yn cael ei ysgrifennu yn llyfryn gwaith neu ffeil pob disgybl mewn swigen meddwl ac yna mae disgyblion yn ticio blwch i ddynodi a yw'r targed yn berthnasol i:

- Waith Cwrs
- Gwaith Dosbarth
- Gwaith Cartref
- Adolygu
- Ymchwil
- Arall

Mae sgiliau astudio'n cynnwys yr holl ystod o bynciau a gall rhai enghreifftiau o dargedau gynnwys gweithgareddau fel gwneud cardiau fflach ar gyfer adolygu; adolygu sylwadau athrawon; gwella gwaith cwrs; prawf ddarllen gwaith cartref i'w ail ysgrifennu cyn ei gyflwyno; neu weithgareddau ar-lein— e.e. gwrando ar podcast ac ati.

Yna bydd disgyblion yn cymryd eu llyfryn neu ffeil at yr athro er mwyn gwirio'r targed ac anfon disgyblion at yr amgylchedd dysgu cywir, h.y. ystafell gyfrifiadur neu ystafell gyda desgiau

Ar ddiwedd pob sesiwn mae disgyblion yn adolygu eu cynnydd a thicio blwch yn eu llyfryn i ddynodi eu bod wedi cyrraedd eu targed - yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Yna

maen nhw'n cwblhau swigen siarad sy'n nodi'r hyn a wnaethant yn ystod y sesiwn i gyrraedd eu targed a dechrau llunio eu goliau ar gyfer eu sesiwn sgiliau astudio nesaf.

Bob hanner tymor mae disgyblion yn cynnal adolygiad neu 'ymarfer cadw cyfrif' i weld sawl sesiwn a tharged y maen nhw wedi eu gosod ym mhob un o'u meysydd pwnc. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei thrafod wedyn ar bwyntiau asesu rheolaidd yn ystod y tymor gydag aelod o staff yn ystod cyfarfodydd cynnydd disgyblion. Mae graddau cyrhaeddiad presennol yn cael eu mapio ar yr ymarfer cadw cyfrif ac mae system sgorio'n dangos i ddisgyblion a ydynt ar darged neu'n dangos yr hyn sydd angen ei wneud i gael canlyniadau gwell. Ategir at hyn gan system cod lliwiau: glas = uwch na'r targed, gwyrdd = ar darged, melyn = un radd oddi ar y targed, a coch = dwy radd oddi ar y targed.

Mae'r cymorth gweledol hwn wedyn yn helpu'r disgyblion a'r staff cymorth i weld ble mae angen mwy o waith a threulio mwy o amser ar bynciau penodol.

“Weithiau rydym yn gweld mai'r rhai coch yw'r rhai lle nad yw disgyblion wedi ymdrechu mor galed ac wedi treulio llai o amser arnynt.”

Pennaeth Cynorthwyol

“Mae hyn yn llunio rhan o'r iaith yr ydym yn ei defnyddio gyda disgyblion, pan fyddant yn dod atom ni gyda tharged ar ddechrau sesiwn byddwn yn gofyn iddyn nhw pa liw pwnc yw hwn er mwyn i ni allu gwirio eu bod yn treulio eu hamser yn fwy cyfartal – mae hyn yn eu helpu nhw i reoli eu llwyth gwaith yn effeithiol.”

Pennaeth Cynorthwyol

Mae un wers bob hanner tymor yn cael ei neilltuo ar gyfer dangos i ddisgyblion sut i wella eu sgiliau astudio ac adolygu'n effeithiol. Mae Ysgol Bassaleg yn helpu ei disgyblion i ddeall beth yw eu harddulliau gorau a mwyaf effeithiol o ddysgu trwy gwblhau holiadur yn ymwneud â dysgu clywol, gweledol a chinesthetig ac yna'n eu paru gyda'r strategaethau adolygu fydd yn gweithio orau iddynt. Yna mae staff yn annog disgyblion i amrywio'r technegau hyn er mwyn iddynt barhau i fod yn weithgar a gweithio i wneud astudio'n greadigol ac effeithiol.

“Dau ddatganiad mawr yr ydym yn eu clywed yn gyson yw “Rwy'n darllen fy llyfrau” a “Dydw i ddim yn mynd i ddechrau'n rhy gynnar neu fe fyddaf wedi anghofio'r cyfan erbyn amser yr arholiad”, rydym yn dweud wrth ddisgyblion am ddechrau'n gynnar ac adolygu'n rheolaidd gan fod hyn yn trosglwyddo gwybodaeth o'r cof tymor byr i'r cof hirdymor.”

Pennaeth Cynorthwyol

Mae disgyblion Bassaleg hefyd yn cael eu haddysgu am theori'r ymennydd a deall beth yw ystyr 'dysgu ymennydd cyfan'. Mae gemau diagnostig yn cael eu chwarae ac yn dangos i ddisgyblion beth yw'r ffordd orau o ddysgu gwybodaeth ar eu cof. Mae rheoli lefelau straen hefyd yn rhan o'r pecyn sgiliau astudio ac mae staff yn

helpu disgyblion i ymdopi â phwysau Blwyddyn 11 trwy gynhyrchu amserlenni adolygu a rheoli llwythau gwaith yn effeithiol.

Datblygiadau

Fe ddatblygodd staff Bassaleg y rhaglen sgiliau astudio o'r cwrs hyfforddi 'anogwr dysgu' a datblygwyd mwy o ymwybyddiaeth trwy roi cymorth i ddisgyblion oedd yn cymryd 14 TGAU neu gymwysterau cyfatebol oedd mewn perygl o deimlo straen a gormod o lwyth gwaith a pheidio â chyrraedd eu graddau targed. I ddechrau roedd y cwrs yn cael ei ddarparu i ystod o blant oedd yn cael eu targedu, ond gydag amser ac wrth i staff weld pa mor llwyddiannus yw'r cwrs mae bellach yn cael ei gynnig i'r holl ddisgyblion a chyn bo hir bydd wedi ei sefydlu ac yn cymryd lle 'opsiwn'.

“Mae hyn yn ymwneud â phlant yn cyrraedd eu graddau targed, nid yw ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen cael gradd C yn unig, mae'n cynnwys plant haen uwch a MATH hefyd.”

Pennaeth

Canfu arolwg disgyblion diweddar fod 100% o gyfranogwyr yn cytuno y byddent yn argymhell sgiliau astudio i'w ffrindiau, roedd 100% yn cytuno ei fod yn gwella eu dysgu, a chytunodd 98% ei fod yn gwella eu graddau.

Dysgu gan Gymheiriaid

Yn Ysgol Bassaleg mae dysgu sydd wedi ei adeiladu ar y cyd rhwng disgyblion yn ganolog i bob gwers. Mae disgyblion yn hynod o fedrus yn arwain dysgu ac mewn rhai amgylchiadau mae deinameg y wers yn cael ei arwain yn gyfan gwbl gan y disgyblion.

“Rwy'n hoffi'r ymddiriedaeth a'r rhyddid rwy'n ei gael wrth wneud penderfyniadau. Mae'n fy helpu i ddod yn fwy annibynnol.”

“Mae faint o drafod yr ydym yn ei wneud yn ein hannog ni i feddwl drosom ein hunain.”

Lleisiau Disgyblion

Gall dysgu gan gymheiriaid amrywio o ddisgyblion yn gosod goliau ac asesu dealltwriaeth o dasgau, i ddialogau 'meddwl, paru, rhannu'. Mae disgyblion yn cael un funud i feddwl ar eu pennau eu hunain ac ar daflen wedi ei lamineiddio maen nhw'n nodi eu syniadau, yna maen nhw'n cael un funud i drafod mewn paru, yna'n eu rhannu gyda'u cymheiriaid yn y dosbarth. Mae'r mathau hyn o drafod cydweithredol yn sail i arfer yn y dosbarth.

“Os ydych yn holi cwestiwn na allwch ei ateb eich hun ychydig o funudau'n ddiweddarach, mae angen i chi ganiatáu amser meddwl.”

Pennaeth

Mae gweithio cydweithredol rhwng cymheiriaid hefyd wedi cael effaith ar ‘fentora cymheiriaid’. Mae perthnasau rhwng disgyblion yn fwy aeddfed ac mae wedi datblygu diwylliant o gynhwysiant. Mae Bassaleg yn gweithredu cynllun ‘bydis darllen a mathemateg’ sy’n cael ei redeg gan ei Disgyblion Lefel A Chweched Dosbarth sy’n rhoi cymorth ledled yr ysgol. Mae aelodau o’r Chweched Dosbarth hefyd yn cael eu haseinio i ffurfio grwpiau hyfforddi sy’n cynnig cymorth cymdeithasol ac emosiynol. Mae’r tîm pwrpasol hwn yn derbyn hyfforddiant ffurfiol ac yn monitro cynnydd disgyblion trwy gadw portffolio o waith y maent wedi ei wneud gyda’r disgyblion sy’n cyfrif fel gwaith achrededig tuag at oriau cymunedol eu cwrs Bagloriaeth Cymru. Mae’r cynllun gwirfoddol yn llawn ac mae nifer o’r ‘bydis’ yn ddisgyblion a dderbyniodd gymorth gan bydi darllen neu fathemateg pan oeddent yn is i lawr yn yr ysgol.

Mae ffocws craff wedi cael ei roi ar uwchsgilio disgyblion er mwyn eu galluogi i asesu gwaith ei gilydd yn effeithiol. Mae hyn wedi cael ei hwyluso trwy rannu’r meini prawf cywir gyda nhw er mwyn iddynt allu marcio gwaith mewn dull cynhyrchiol a chyson.

Nid oedd defnyddio cysyniad syml o 2 seren a dymuniad yn ddigon i Ysgol Bassaleg. Cawsant fod disgyblion yn rhoi ‘sylwadau cyffredinoledig’ i’w gilydd fel ‘da iawn’, ‘gwaith da’, ‘rwyf wedi deall hyn’. Yn hytrach roedd staff eisiau i’w disgyblion roi adborth adeiladol yn seiliedig ar y meini prawf asesu er mwyn iddynt allu rhoi ymateb manwl yn dynodi beth sydd angen ei wneud a’i gynnwys i sicrhau bod y gwaith yn cwrdd â safonau uchel.

Mae disgyblion yn defnyddio ystod o fatricsau asesu i ddynodi i gymheiriaid ‘nid beth, ond sut’ y mae angen iddyn nhw wella. Mae adborth yn uniongyrchol ac o ansawdd uchel sy’n adlewyrchu’r ‘dialogau marcio’ sy’n digwydd rhwng disgyblion ac athrawon i annog a hwyluso adborth effeithiol. Mae sgiliau llythrennedd hefyd wedi gwella, gan mai dyma’r cyfrwng ar gyfer marcio.

“Oni bai bod y dymuniad hwnnw’n rhywbeth y gall y disgybl ei ddefnyddio mae ei ddefnydd yn un cyfyng iawn. Mae ansawdd asesiad diagnostig yn dangos i ni faint o gynnydd mae disgyblion wedi ei wneud ac yn ein helpu ni i ddilyn sut mae disgyblion wedi defnyddio’r sylwadau ac adborth.”


Pennaeth Cynorthwyol

Tystiolaeth o Effaith – Dathlu Llwyddiant

Canlyniadau Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 3 Ysgol Bassaleg sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf. Nid yn unig mae wedi cau’r bwlch rhwng disgyblion PYADd a dim PYADd rhwng 2009 a 2012, yn 2013 perfformiodd disgyblion PYADd Cyfnod Allweddol 3 Bassaleg yn well na’r disgyblion dim PYADd fel y gwelir isod.

Disgyblion	2009	2010	2011	2012	2013
Prydau Ysgol am Ddim	81.8%	77.8%	68.8%	89.5%	95.0%

Dim Prydau Ysgol am Ddim	87.7%	87.3%	90.2%	89.9%	93.1%
--------------------------	-------	-------	-------	-------	-------



Data Fy Ysgol Leol⁵²

Cynrychioli canran y disgyblion yn cyflawni o leiaf lefel 5 mewn Cymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad.

Mae canlyniadau TGAU Trothwy Lefel 2 (5 TGAU gradd A*-C) hefyd wedi gwella i ddisgyblion PYADd Bassaleg (gweler y tabl isod).

Disgyblion	2009	2010	2011	2012	2013
Prydau Ysgol am Ddim	75.0%	60.0%	44.4%	66.7%	79.2%
Dim Prydau Ysgol am Ddim	77.9%	82.0%	77.1%	84.6%	92.5%

Canlyniadau TGAU Trothwy Lefel 2

Ar hyn o bryd mae staff yn gweithio tuag at godi cyrhaeddiad TGAU Lefel 2 Cynhwysol (5 TGAU Gradd A*-C yn cynnwys Cymraeg a Saesneg iaith gyntaf a Mathemateg) trwy dargedu ymyriadau a gweithdai adolygu ar gyfer y disgyblion PYADd.

Fel rhan o ymrwymiad Bassaleg i rannu a dathlu arfer da ledled yr ysgol, fe wnaethant drefnu amser yn ystod calendr y flwyddyn i wahodd adrannau i arddangos

⁵² <http://mylocalschool.wales.gov.uk/school.htm?estab=6804030&iaith=eng>

sut y maen nhw wedi defnyddio elfennau o'r blwch offer athrawon i gael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion.

Cafodd pob adran wahoddiad i baratoi cyflwyniad 10 munud i gael ei gyflwyno i'r holl staff. Roedd croeso i unrhyw aelod o'r adran fod yn rhan o arwain y cyflwyniad hwn ac roedd yn cynnwys canolbwynt allweddol yn codi o'r canlynol:

- Trafodaeth o un neu fwy o elfennau'r blwch offer
- Modelu / arddangos gweithgaredd ymarferol
- Trafodaeth ar gynllun gwers, dilyniant o wersi neu gynllun o waith
- Gwerthusiad disgyblion neu staff o sut mae strategaethau o'r fath wedi cael effaith gadarnhaol ar wahanol sgiliau: myfyrio, cyfathrebu, ansawdd cwestiynu neu ryngweithiad disgyblion gyda grwpiau penodol
- Fideo o wers neu o ran o wers
- Delweddau i gynrychioli'r broses ddysgu
- Trafodaeth ar sut mae'r blwch offer wedi datblygu asesiad ar gyfer ymarferion dysgu o fewn yr adran

“Ein hethos yw y gall unrhyw un arwain unrhyw beth - dim uwch arweinwyr neu arweinwyr canol yn unig. Mae gennym gyfoeth o dalent ledled yr Ysgol ac rydym yn buddsoddi yn ein holl staff.”

Pennaeth

Mae staff a disgyblion hefyd wedi cymryd rôl arweiniol yn cyflwyno mewn cynadleddau addysgu a dysgu cenedlaethol ac maen nhw wedi cynnal gweithdai i ledaenu pwysigrwydd cael fframwaith i ddenu dysgwyr. Mae hyn wedi sbarduno diddordeb mawr yn y maes.

“Rydym wedi cael ceisiadau i brynu'r blwch offer, ond rydym yn annog ysgolion i ddatblygu eu rhai eu hunain gan ei fod yn hanfodol eich bod yn darganfod beth sy'n gweithio i'ch ysgol chi. Yr unig ffordd o warantu llwyddiant yw mynd ar siwrnai - siwrnai o newid.”

Pennaeth

Cyllid

Mae Ysgol Bassaleg wedi targedu'r canlynol gyda'i Grant Amddifadedd Disgyblion:

- Gweithwyr cymorth bugeiliol
- Ymyriadau wedi eu targedu

- Monitro presenoldeb
- Gweithdai adolygu ar gyfer disgyblion PYADd
- Dadansoddiad PASS (Agwedd Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol)
- Dysgu cyn-ysgol, yn ystod amser egwyl ac ar ôl ysgol i gynyddu mynediad at TGCh
- Darparu llwybr dysgu amgen- galluogi mynediad at y cwricwlwm llawn
- Datblygu cwrs amgen i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol

Crynodeb

Neges allweddol yr astudiaeth achos hon yw pwysigrwydd hybu sgiliau meddwl annibynnol dysgwyr a darparu adborth o ansawdd uchel.

Themau	Ffactorau penodol	YB
Addysgu a Dysgu	Adborth ac asesiad effeithiol	✓✓
	Strategaethau metawybyddol	✓✓

Cyswllt Allweddol

Elizabeth Thomas

Pennaeth

Ysgol Bassaleg

Forge Lane

Bassaleg

Casnewydd

NP10 8NF

01633 892191

Bassaleg.school@newport.gov.uk

9. Ysgol Gynradd Mount Stuart

LLEIHAU EFFAITH TLODI AR GYRHAEDDIAD ADDYSGOL

ARSYLLFA POLISI ASTUDIAETH ACHOS 9

Enw'r Ysgol/Lleoliad: **Ysgol Gynradd Mount Stuart**

Awdurdod Lleol: **Caerdydd**

Math o Ysgol/Lleoliad: **Cynradd**

Cyfrwng iaith: **Saesneg**

Nifer y Disgyblion: **402**

Canran Prydau Ysgol am Ddim: **44%**

Canolbwynt yr Astudiaeth Achos

Ymgysylltu â rhieni a theuluoedd pobl ifanc i oresgyn rhwystrau diwylliannol a'r heriau o fod yn ddysgwyr y mae Saesneg yn ail iaith iddynt.

Mae Ysgol Gynradd Mount Stuart yn ysgol fawr sy'n tyfu yn ardal Butetown, Caerdydd sy'n ddalgylch Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf⁵³. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn byw o fewn y dalgylch, sy'n cael ei disgrifio fel un sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd.⁵⁴ Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion tair i un ar ddeg oed. Ar hyn o bryd mae 402 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 83 yn y feithrinfa rhan amser.⁵⁵ Mae 97% o ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrif ethnig. Mae disgyblion yn dod o 37 gwahanol grŵp ethnig fan lleiaf ac yn siarad dros 21 iaith wahanol. Mae 89% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae lefel caffaeliad iaith y mwyafrif o ddisgyblion yn "newydd i'r Saesneg" (40%) neu "caffaeliad cynnar" (46%). Mae'r ysgol yn adnabod bod gan 25% o ddisgyblion anghenion ychwanegol pellach.⁵⁶ Canran cyfartalog pum mlynedd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (PYADd) yw oddeutu 44% sydd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr Awdurdod Lleol ac yn genedlaethol ledled Cymru.⁵⁷

Yr Astudiaeth Achos

⁵³ Mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen sy'n canolbwyntio ar y gymuned sy'n cefnogi agenda Mynd i'r Afael â Thlodi Llywodraeth Cymru.

⁵⁴ Adroddiad Arolwg Ysgol Estyn 2013

⁵⁵ Fy Ysgol Leol 2014

⁵⁶ Adroddiad Arolwg Ysgol Estyn 2013

⁵⁷ Stats Cymru

'Dysgu a Byw Gyda'n Gilydd' yw amcan craidd yr ysgol ac mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhieni a theuluoedd pobl ifanc i oresgyn rhwystrau diwylliannol a'r heriau o fod yn ddysgwyr y mae Saesneg yn ail iaith iddynt.

'Yn Ysgol Gynradd Mount Stuart rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad yr holl blant a diwylliannau a'n hamcanion yw sicrhau bod y plant yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd gofalgarg'⁵⁸

Gweledigaeth Ysgol

Mae ethos gofalgarg yr ysgol wrth galon popeth y maent yn ei wneud:

H- Happiness
E- Equality
A- Achievement
R- Respect
T- Trust

Rhwydweithiau Cymunedol

Mae Ysgol Gynradd Mount Stuart yn ymfalchïo mewn bod yn ysgol gymunedol ac mae ganddi ddiddordeb cryf parhaol mewn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Saesneg gan fod y gymuned y mae'r ysgol yn rhan ohoni yn hanesyddol wedi cael ei dylanwadu'n gryf gan ei threftadaeth ddiwylliannol gymysg. Mae gan nifer o ddisgyblion, rhieni a theidiau a neiniau wybodaeth graff, a phrofiad personol weithiau o ddatblygiad hanesyddol ardal y dociau sydd bellach yn cael ei hadnabod fel 'Bae Caerdydd'.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed iawn i oresgyn rhwystrau diwylliannol ac yn ddiweddar fe gynhaliodd 'Noswaith Haf a Ferched' i godi arian ar gyfer bws mini newydd. Cafwyd bwyd, dawnsio a cherddoriaeth. Daeth y syniad gan Gynorthwydd Addysgu oedd yn ymateb i ddymuniad i gael noson gymunedol i ferched yn unig. Creodd y staff awyrgylch unigryw trwy roi llenni du dros y ffenestri a chreu man diogel ble y gallai merched ymlacio a diosg eu sgarffiau pen os oeddent yn dymuno gwneud hynny, gwrandao ar y gerddoriaeth, bwyta a siarad yn rhydd.

Mae gan yr ysgol nifer o Gynorthwywyr Dwyieithog, rhai ohonynt yn gyn-ddisgyblion ac yn gweithredu fel esiampl i'r plant. Maent ar gael bob amser i ryngweithio â rhieni a siarad â nhw ar ddechrau a diwedd pob dydd trwy fod allan ar yr iard gydag aelodau allweddol o'r Uwch Dîm Arwain.

Mae Mount Stuart wedi cael nifer o ymwelwyr enwog uchel eu proffil fel Cerys Matthews, ac mae ganddi gysylltiad â digonedd o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol allanol. Mae ysbytai, nyrs a meddyg ysgol, therapydd galwedigaethol, therapydd lleferydd, arbenigwyr ymddygiad, gweithwyr cymdeithasol, athrawon

⁵⁸ Gwefan Mount Stuart ar: <http://mountstuart.cardiff.sch.uk/~pk/vision.pdf>

adnoddau arbennig, fforwm blynyddoedd cynnar, gwasanaeth plant sy'n derbyn gofal, gwirfoddolwyr ac ysgolion uwchradd bwydo i gyd yn rhan o rwydwaith yr ysgol. Mae staff yn cydnabod gwerth gwaith aml-asiantaeth ac yn caniatáu i weithwyr proffesiynol ddod i'r ysgol a chyflawni eu gwaith yno.

“Weithiau mae asiantaethau’n dod i mewn i’r ysgol i weithio, rydym yn gwneud pethau yn yr ysgol y dylai rhieni fod yn eu gwneud ond efallai nad oes ganddynt yr hyder i’w gwneud eu hunain neu efallai nad ydynt yn meddu ar y sgiliau i ddeall pwysigrwydd cadw apwyntiadau neu wneud yr ymarferion. Byddwn hefyd yn mynd â phlant i apwyntiadau os nad oes cludiant gan y rhieni.”

Cydlynnydd EMTAS

Yn gyfnewid am eu cydweithrediad, mae perthynas waith ddwy ffordd werthfawr wedi cael ei sefydlu ble gall staff yr ysgol ofyn i asiantaethau am gymorth, cyfarwyddyd a chynghor.

“Mae effaith gweithio gyda’n gilydd yn golygu ein bod yn cael cymorth ychwanegol i’r plant yr ydym yn gweithio gyda nhw fel y gallwn helpu rhieni i dderbyn yr heriau y maent yn eu hwynebu gyda’u plant.”

Cydlynnydd AAA

Mae gwybod bod rhywun yn gofalu am eu plant wedi cael ei gydnabod a’i ddathlu gan rieni ac mae’r ysgol wedi cael ei henwebu am ‘Wobr Buddsoddwyr mewn Teuluoedd’.

Ymyriadau

Darllenwyr Eversheds

Mae Eversheds yn un o’r cwmnïau cyfraith gorfforaethol mwyaf yn y byd. Bob wythnos mae tîm o’r gweithwyr yn swyddfa Caerdydd yn ymweld â Mount Stuart i ddarllen gyda’r plant. Mae staff a disgyblion yn edrych ymlaen at yr ymweliadau ac mae’r pennaeth dros dro yn cydnabod effaith y cynllun:

“Mae rhai o’n plant yn dod o deuluoedd mawr ble mae amser mam a dad yn brin; mae’r cynllun hwn yn rhoi amser i’r plant ryngweithio ar sail un i un gyda pherson proffesiynol sy’n cymryd diddordeb gweithredol yn sut mae eu darllen yn datblygu.”

Pennaeth Dros Dro

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol mae Eversheds yn noddi ‘Diwrnod Rhoi ac Ennill Busnes yn y Gymuned’ sy’n ymroddedig i ddod â miloedd o weithwyr yn y DU ac yn rhyngwladol allan o’r gweithle i wirfoddoli yn eu cymuned leol. Mae Eversheds hefyd yn noddi parti diwedd blwyddyn i’r holl blant sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun darllen trwy gydol y flwyddyn ac ar ôl mwynhau bwyd, lluniaeth a gemau,

mae Eversheds yn rhoi anrheg o lyfr wedi ei ddewis yn bersonol iddynt ei gymryd adref gyda nhw.

**“I rai o’n plant ni dyma’r llyfr cyntaf iddyn nhw fod yn berchen arno”
Pennaeth Dros Dro**

Gwahoddiad Agored

Mae staff meithrin Mount Stuart yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad iaith a chwarae yn y blynyddoedd cynnar gan fod llawer o’r plant yn mynd i mewn i’r dosbarth meithrin heb allu siarad Saesneg.

“Nid darllen ac ysgrifennu’n unig sydd eu hangen, mae angen yr iaith arnynt i wneud mathemateg, felly rydym hefyd yn defnyddio canu caneuon a rhigymau i annog hyn.”

Athro Meithrin

Mae staff meithrin yn annog rhieni i ddysgu gyda’u plant. Maen nhw’n aros nes bydd y plant wedi setlo’n ddigon da yn y flwyddyn ac yna’n gwahodd rhieni i ymuno â nhw bob wythnos. Mae’r sesiynau ‘Gwahoddiad Agored’ yn rhedeg am 6 wythnos a cheir canolbwynt gwahanol bob wythnos:

- Pwysigrwydd siarad gyda’n gilydd
- Defnyddio’r awyr agored
- Dechrau gwneud marc ac ysgrifennu
- Chwarae creadigol
- Rhannu llyfrau a storïau
- Canu caneuon a rhigymau

Ar ddechrau’r sesiwn mae ymarferwyr yn rhannu stori sy’n cynnwys y plant a’r rhieni, ac yna’n eu hannog i fynd i archwilio’r gwahanol weithgareddau sy’n gysylltiedig â’r stori, ond mae’r pwyslais ar gyfranogiad gweithredol a ‘gwneud gyda’n gilydd’. Mae’r sesiwn yn dirwyn i ben gydag amser stori a rhigwm ac mae wedi profi i fod yn effeithiol yn annog teuluoedd i ddysgu gyda’i gilydd.

“Ymgysylltu â rhieni fel rhan o’n cymuned ysgol yw’r prif beth; mae wedi dod yn amlwg bod hyn yn magu hyder eu bod yn gallu dod i siarad gyda ni.”

Athro Meithrin

Mae staff meithrin wedi rhoi hyfforddiant i rieni mewn sut i chwarae ac wedi rhoi gweithgareddau enghreifftiol iddyn nhw er mwyn iddynt weld sut i’w wneud sy’n rhoi hyder iddyn nhw roi cynnig arni eu hunain. Roedd hyn yn mynd i’r afael â’r camsyniad bod rhieni’n meddwl bod yn rhaid eistedd i lawr ac ysgrifennu er mwyn dysgu.

“Mae gweld rhieni fel rhan o’r dysgu’n bwysig, mae angen hyder ar ein mamau i gymryd rhan mewn chwarae corfforol.”

“Rydym yn hoffi cael y teulu cyfan i mewn a’u cynnwys nhw, yn arbennig tadau; mae ynglŷn â’r teulu cyfan.”

Athro Meithrin

Boreau Cwricwlwm

Roedd staff yn yr ysgol yn meddwl fod nosweithiau rhieni’n rhy ffurfiol, a’u bod yn achosi i rieni gadw draw a bod llawer o rieni’n teimlo’n ofnus ynddynt:

“Un flwyddyn dim ond 6 o rieni a fynychodd, nawr mae rhieni’n ymlacio pan fyddant yn dod iddynt, rydym yn gorfod rhedeg nosweithiau rhieni dros ddwy noson yn awr.”

Cynorthwydd Addysgu

Roedd staff yn meddwl bod rhieni’n anfodlon dod i’r ysgol; dim oherwydd nad oedd ganddynt ddiddordeb; roeddent yn teimlo ychydig yn ofnus. Er mwyn goresgyn y rhwystr hwn cafodd yr holl rieni wahoddiad i ‘Fore Cwricwlwm’. Ysgrifennodd y plant wahoddiad i’w rheini “dewch i’m dosbarth i’m gweld yn darllen ac ysgrifennu”. Roedd yr ymateb yn wych ac roedd yn drobwynt llwyddiannus iawn yn agwedd yr ysgol tuag ar berthnasau gyda rhieni. Creodd yr ysgol amgylchedd anffurfiol a chroesawus a chaniatawyd i ymwelwyr fynd i mewn i unrhyw ddosbarth, nid dosbarth eu plentyn nhw yn unig. Er enghraifft efallai bod eu plentyn yn y Derbyn ond mae croeso iddynt fynd i weld beth sy’n digwydd yn nosbarth Blwyddyn 6 heb ofyn caniatâd.

Mae’r ysgol yn agor ei drysau, gadael i rieni ddod i mewn i weld sut mae eu plant yn cael eu haddysgu’n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn a cheir gwahanol bwnc neu ffocws bob tro e.e. Sgiliau Meddwl, Mathemateg neu TGCh.

Llythrennedd i’r Teulu

Effaith y boreau cwricwlwm yw bod rhieni’n gweld eu plant yn dysgu ac maen nhw eisiau dysgu hefyd, maen nhw eisiau gallu helpu eu plant i ddarllen a hefyd i allu mynd i’r ysgol a deall beth mae’r athro’n dweud a gwneud.

“Mae ein rhieni yn gwerthfawrogi addysg; weithiau nid oes ganddyn nhw’r sgiliau i helpu eu plant. Mae llawer o’n rhieni yn mynd i ddosbarthiadau nawr i ennill sgiliau newydd.”

Pennaeth Dros Dro

Yn ogystal â rhedeg ystod o ddosbarthiadau dysgu i oedolion mae gan Ysgol Mount Stuart strategaeth llythrennedd i'r teulu. Gall rhieni ddod i'r ysgol a mynd â phlant allan o'r dosbarth i fynd i sesiwn llythrennedd i'r teulu; nid oes angen cadw lle. Yn ystod y sesiwn mae athrawon yn rhoi strategaethau enghreifftiol i'r rhieni ac yn cynnig cyfarwyddyd ar sut i gael sgiliau i roi cymorth i'w plant.

“Rydym yn gadael i'r rhieni arwain, roeddent eisiau gwybod sut yr ydych yn dysgu darllen a ffoneg, sut i ddysgu llawysgrifen, beth yw'r ffordd orau i helpu eu plant i ddysgu, a sut y gallant helpu'r plant adref.”

Cydlynnydd AAA

Mae oedolion yn gallu dysgu Saesneg eu hunain hefyd ac mae nifer o rieni'n dysgu sgiliau bywyd allweddol e.e. sut i ysgrifennu eu cyfeiriad, llenwi ffurflenni a sut i siarad â'r meddyg. Mae'r sesiynau hyn yr un mor werthfawr i'r plant:

“Mae'n neis cael mam a dad i ddod i mewn i'r ysgol, rydym yn dysgu mwy pan maen nhw yno, rydym yn gwneud seiniau, geiriau anodd – yr wythnos diwethaf fe wnaethom ni eiriau L ac O.”

“Mae mam a dad yn dysgu'r un seiniau â ni, rydym yn mynd â gwaith adref ac yn siarad â mam a dad amdano, rydym yn siarad am bethau yr ydym wedi eu gwneud gyda'n gilydd.”

“Mae'r athro'n rhoi taflenni allan ac mae dad yn rhoi prawf i mi.”

Lleisiau Disgyblion

Ymyriadau Wedi eu Targedu at Ddisgyblion

Mae Ysgol Mount Stuart yn defnyddio ystod o ymyriadau wedi eu targedu at ddisgyblion, er enghraifft: 'SAIL' a mathemateg 'Nippers'; 'Rainbow a Rapid Readers'; a rhaglenni llythrennedd 'STARS'.

“Rydym yn asesu ein disgyblion ym mis Gorffennaf yn barod ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn i ni fod yn barod ar gyfer mis Medi.”

Cydlynnydd AAA

Mae'r Cydlynnydd AAA yn dilyn lefelau disgyblion trwy gyfrwng bandio canlyniadau mewn system goleuadau traffig - coch, oren a gwyrdd.

“Y plant coch yw'r rhai y byddem yn eu targedu'n gyntaf gan mai nhw sydd fwyaf angen cymorth a help.”

“Mae'n anodd iawn rhannu anghenion disgyblion prydau ysgol am ddim a disgyblion dim prydau ysgol am ddim, rydym yn sicrhau ein bod yn darparu ar gyfer yr holl blant.”

Cydlynnydd AAA

Mae'r Cydlynnydd AAA yn sicrhau bod yr ymyriad yn gweddu i anghenion disgyblion unigol ac yn defnyddio taflenni dilyn i fonitro effaith ymyriadau cyn, yn ystod ac wedi i'r rhaglen gael ei rhedeg. Edrychir ar y data'n gyffredinol bob blwyddyn i asesu a yw'r ymyriad yn gweithio, a yw plant yn gwneud cynnydd ac a oes angen iddynt newid rhaglen neu symud grwpiau.

Mae STARS yn golygu 'Specialist Teachers Accelerating Reading Skills' yn yr ysgol ac mae'n cael cefnogaeth gan Ysgolion Caerdydd a'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. Mae STARS wedi cael ei gynllunio ar gyfer plant sydd eisoes wedi cael ymyriad ac sydd yn dal i beidio â gwneud cynnydd.

Mae STARS yn gweithredu mewn grwpiau bach a rhoddir cymorth i ddisgyblion 3 gwaith yr wythnos am awr dros flwyddyn gyfan. Mae disgyblion yn gweithio trwy'r rhaglen i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau mewn: clywed ac ysgrifennu seiniau a geiriau, gweithgareddau sillafu a sillafau sy'n odli. Maen nhw'n ysgrifennu eu llyfr bach eu hunain ac yn cael copi o'u gwaith wedi teipio. Anogir rhieni i gefnogi STARS hefyd trwy sicrhau bod plant yn mynychu'r ysgol er mwyn iddynt gael mynediad at y rhaglen, helpu gyda gweithgareddau sy'n cael eu hanfon gartref. darllen storïau a chynnig clod ac anogaeth.

Mae gan gynlluniau darllen Mount Stuart amrywiaeth o lyfrau o wahanol liw a set o gwestiynau at gyfer monitro darllen a dealltwriaeth trwy weithgaredd ysgrifennu. Mae staff Mount Stuart yn nodi bod y cynlluniau darllen yn boblogaidd gyda'r plant ac mae'r disgyblion yn hoffi mesur eu cynnydd eu hunain:

“Mae gan Rapids athro arbennig, maen nhw'n rhoi profion i chi, os ydych yn cael meincnod da yna maen nhw'n dweud wrthyh chi ar ba lefel yr ydych.”

“Rwyf ar oren, pan fyddaf yn mynd i fyni i wyrdd byddaf yn hapus.”

“Dyma fy ail flwyddyn o Rainbow Readers rwyf wedi mynd o felyn i fioled ac rwy'n falch iawn o hynny, rwyf wedi gwneud cynnydd da ac yn gallu gweld cynnydd enfawr ers y llynedd.”

Lleisiau Disgyblion

Mae staff hefyd yn nodi bod technegau amlsynhwyrdd hefyd yn ffordd ddifyr o addysgu; ble mae adeiladu iaith trwy ddarllen llyfrau yn cael ei gyfannu gan ddysgu cinesthetig corfforol.

“Mae plant yn caru hwyl, ‘swadio pryfaid’- ‘sblatio geiriau’; ‘hel trysor’- ‘chwilio am eiriau’; a llythrennau magnetig – ble maen nhw'n gallu siarad, cyffwrdd, symud a thrin geiriau.”

Cynorthwyydd Addysgu

Tystiolaeth o Effaith

Dros y pum mlynedd diwethaf mae disgyblion Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gynradd Mount Stuart wedi cael canlyniadau cyfartalog yn y Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 1 (DPC 2009-2011), a'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS 2012-2013) fel a ganlyn:

Disgyblion	Cyrhaeddiad Cyfartalog 5 Mlynedd
Prydau Ysgol am Ddim	70.6%
Dim Prydau Ysgol am Ddim	79.8%

Yn ôl yr ysgol cafwyd gostyngiad bach yng nghyrrhaeddiad y Cyfnod Sylfaen ac mae Mount Stuart wedi cael ei hadnabod fel yr ysgol sy'n wynebu'r heriau mwyaf yn y 'Teulu o Ysgolion'.

“Rydym yn dilyn ein holl ddisgyblion, mae ein disgyblion CS ychydig yn is nag yr hoffem, ond erbyn diwedd CA2 maen nhw'n gwneud yn wirioneddol dda.”

Pennaeth Dros Dro

Mae asesiad ac adnabod angen yn sbarduno ystod o ymyriadau ac mae cynnydd disgyblion yn cael ei werthuso a'i fonitro fel sy'n cael ei ddangos yma:

“Mae'r gwahaniaeth yn eithriadol, rwyf wedi gweld plant yn dechrau ar Lefelau 'P' ac maen nhw'n gorffen ar Lefel 3.”

Cydlynnydd AAA

“Mae'n sicr yn cael effaith, maen nhw'n mynd a'r strategaethau y maent wedi eu dysgu yn ôl i'r dosbarth ac mae'r athrawon yn dweud eu bod yn gallu gweld gwahaniaeth yn ymddygiad y plant yn y dosbarth.”

Cynorthwydd Addysgu


Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol maen nhw'n gwneud cynnydd ac yn ôl meincnodi cenedlaethol Cyfnod Allweddol 2 mae Mount Stuart wedi cynnal lefel o berfformiad sydd wedi arwain at osod yr ysgol yn Chwartel 1 am y tro cyntaf mewn 5 mlynedd.

Yn 2010, 2011, a 2013 perfformiodd disgyblion PYADd yn well na disgyblion dim PYADd yng Nghyfnod Allweddol 2.

Disgyblion	2009	2010	2011	2012	2013
-------------------	-------------	-------------	-------------	-------------	-------------

Prydau Ysgol am Ddim	70.6%	87.5%	90.9%	78.6%	90.0%
Dim Prydau Ysgol am Ddim	70.7%	80.3%	77.9%	83.8%	83.1%

Disgyblion a gyrhaeddodd y Lefel CA2 disgwyliedig – Dangosydd Pynciau Craidd



Data Fy Ysgol Leol⁵⁹

Cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn cyfuniad o Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth

Datblygiadau i'r Dyfodol

Mae gan Ysgol Gynradd Mount Stuart gysylltiadau agos gyda'i hysgol uwchradd bwydo – Ysgol Uwchradd Fitzalan ble mae staff yn rheolaidd yn mynychu diwrnodiau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Trwy gydweithrediad gyda Fitzalan, mae Ysgol Mount Stuart wedi cael ei chyflwyno i'r ymyriad 'Family Learning Signature'⁶⁰ ac mae dau Gynorthwydd Addysgu wedi cael hyfforddiant yn y dull hwn o weithio.

Wedi ei greu gan BusinessLab, sy'n datblygu offer ar gyfer newid trefniadol a chymunedol, mae 'Family Learning Signature' yn ddull unigryw a difyr o weithio i helpu awdurdodau addysg i wella cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad, yn arbennig ymysg teuluoedd anodd eu cyrraedd a dysgwyr wedi ymddieithrio ac mae'n darparu darlun gweledol unigryw o allu teulu i gael budd o gyfleoedd dysgu.

Gwahoddir teuluoedd i gyfarfod i ganfod beth yw eu hagweddau tuag at ddysgu, pa offer dysgu y maen nhw'n gallu cael gafael arno a'r ffordd orau y gall ysgolion roi

⁵⁹ <http://mylocalschool.wales.gov.uk/school.htm?estab=6812084&iaith=eng>

⁶⁰ <http://www.businesslab.co.uk/tools/family-learning-signature>

cymorth o ran yr hyn y mae teuluoedd ei eisiau a'i angen. Ni cheir atebion cywir ac anghywir ac ni cheir canlyniadau perffaith. Mae ymarferwyr yn cael eu hyfforddi i siarad â theuluoedd a holi cyfres o gwestiynau e.e.

- Oes gennych chi rywle tawel i'ch plentyn weithio gartref?
- Ydych chi'n mynd i'r llyfrgell? ac
- Oes gennych chi gyfrifiadur gyda mynediad i'r rhyngwrwyd?

Mae canlyniadau pob cwestiwn yn cael eu cofnodi ar grid lliw ac maen nhw'n dangos i'r ymarferydd pa syniadau ac arwyddion y gellir eu cynnig i'r teulu. Bydd ysgolion yn gofyn caniatâd i ddefnyddio'r canlyniadau i gynnig gwasanaethau gwell i deuluoedd. Gall hyn amrywio o ddigwyddiadau teuluol, cyngor a gwybodaeth, mynediad at wasanaethau cymorth a phartneriaethau ysgol. Er enghraifft, fe ymwelodd Ikea â'r ysgol i ddangos i rieni'r desgiau rhad y byddent yn gallu eu prynu, ac rhedeg clwb ar ôl ysgol am ddim gyda mynediad i'r rhyngwrwyd.

Ar hyn o bryd mae Mount Stuart yn datblygu offer ar gyfer adnabod anghenion teulu ac mae'n bwriadu ei roi ar bawf gyda disgyblion PYADd yr haf hwn ym Mlwyddyn 4 ac yna eto ym Mlwyddyn 6.

Cyllid

Mae rhan o'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn talu am rolau arbenigol ac offer ymyrryd. Ar hyn o bryd mae Mount Stuart yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Datblygu defnydd o INCERTS⁶¹ i ddilyn cynnydd disgyblion PYADd
- Adolygiadau dysgu tymhorol ar gyfer disgyblion PYADd
- Cynyddu gallu i roi cymorth i ddisgyblion PYADd trwy gymorth yn y dosbarth ac ymyriad wedi ei dargedu
- Cymorth dal i fyny ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd i ddisgyblion PYADd CA2
- Prynu dyfeisiadau llechen symudol er mwyn cael mynediad at gymorth llythrennedd a rhifedd Hwb
- Cyflwyno arsylwadau addysgu gan gymheiriaid o roi adborth o ansawdd uchel i ddisgyblion
- Datblygu a rhoi rhaglen o gyfoethogi iechyd, ffitrwydd a lles ar waith wedi ei thargedu at ddisgyblion a theuluoedd PYADd
- Grwpiau meithrin ar gyfer disgyblion PYADd yn y Cyfnod Sylfaen

⁶¹ Mae Incerts yn sefydliad annibynnol di-elw sy'n gweithio i drawsnewid ymarferion asesu. Gweler <http://www.incerts.org/>

Crynodeb

Y neges allweddol o'r astudiaeth achos hon yw bod cyfuniad o ffactorau yn cyfrannu at leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion. Er bod rheini efallai'n gweld gwerth addysg eu plant, nid ydynt o anghenraid yn meddu ar yr hyder a'r sgiliau i roi cymorth iddynt. Gellir datblygu'r rhain mewn partneriaeth â'r ysgol, fel ffordd o wella sgiliau eu plant.

Themau	Ffactorau penodol	MS
Arweinyddiaeth	Hyfforddi a threfnu staff yn cynnwys arbenigwyr	✓✓
Addysgu a Dysgu	Strategaethau addysgu aml-synhwyrol	✓✓
	Rhaglenni dal i fyny	✓✓
	Cwricwlwm wedi ei deilwra yn adeiladu ar ddiddordebau a galluoedd dysgwyr, yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol	✓
Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach	Dialog gref gyda rhieni	✓✓
	Dysgu oedolion	✓✓
	Sefydlu a chynnal partneriaethau strategol	✓✓

Cyswllt Allweddol

Lynne Berriman
Pennaeth Dros Dro
Ysgol Gynradd Mount Stuart
Stryd Adelaide
Butetown
Caerdydd
CF10 5BS
029 2048 1188
schooladmin@mountstuart.cardiff.sch.uk

10. Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru St. Mark

LLEIHAU EFFAITH TLODI AR GYRHAEDDIAD ADDYSGOL

ARSYLLFA POLISI ASTUDIAETH ACHOS 10

Enw'r Ysgol/Lleoliad: **Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru St. Mark**

Awdurdod Lleol: **Sir Benfro**

Math o Ysgol/Lleoliad: **Cynradd**

Cyfrwng Iaith: **Saesneg**

Nifer y Disgyblion: **120**

Canran Prydau Ysgol am Ddim: **42%**

Canolbwynt yr Astudiaeth Achos

Cefnogi lles plant agored i niwed ac ymgysylltu â rhieni a theuluoedd pobl ifanc i alluogi dysgu sy'n cael ei ddarparu trwy ofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr St Mark yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru sy'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar gyrion deheuol Hwlfordd ac mae'n bennaf yn gwasanaethu dalgylch Pont Myrddin. Mae plant o deuluoedd gweithredol yr Eglwys yng Nghymru o'r tu allan i'r dalgylch hefyd yn cael croeso cynnes. Gan fod St. Mark yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru, mae cydaddoli ac addysg grefyddol yn seiliedig ar y traddodiad Anglicanaidd. Ar hyn o bryd mae 120 o blant ar y gofrestr a 5 dosbarth.⁶² Mae cyfartaledd cyfartalog pum mlynedd yr ysgol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (PYADd) oddeutu 39%, fodd bynnag mae'r cymhwysedd presennol yn 42% sydd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr Awdurdod Lleol ac yn genedlaethol ledled Cymru.⁶³

Yr Astudiaeth Achos

Mewn partneriaeth â rhieni a'r gymuned leol, mae llywodraethwyr a staff Ysgol St. Mark yn anelu at alluogi eu plant i fod yn gyfrifol, gofalg, wedi cael addysg dda ac annibynnol, yn unol â gwerthoedd Cristnogol ef mwyn iddynt allu gwneud cyfraniad cadarnhaol gwerth chweil i gymdeithas. Mae'r astudiaeth achos hon yn cwmpasu

⁶² Gwefan yr ysgol <https://www.pgfl.org.uk/schools/tmf/StMarks/about/default.aspx?s=1>

⁶³ Stats Cymru

cefnogi lles plant agored i niwed ac ymgysylltu â rhieni a theuluoedd pobl ifanc i alluogi dysgu sy'n cael ei ddarparu trwy ofal, cymorth a chyfarwyddyd.

Mae Ysgol St. Mark yn anelu at:

- Ddarparu amgylchedd gofalgarn, teuluol sy'n anelu at safonau cymdeithasol ac academaidd uchel trwy esiampl dda gan athrawon.
- Addysgu sylfeini Cristnogaeth i blant, er mwyn iddynt allu mabwysiadu agweddau Cristnogol a thyfu o fewn y ffydd Gristnogol, a fydd yn eu galluogi nhw i wneud cyfraniad pwrpasol a chymdeithasol i gymdeithas a gwneud iddynt barchu diwylliannau a chredoau eraill.
- Darparu amgylchedd amrywiol a chyffrous sy'n darparu ar gyfer pob oedran a gallu ac felly annog pob plentyn i weithio hyd eithaf eu gallu ym mhob agwedd ar y cwricwlwm (yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol). Bydd hyn yn arwain at ddatblygu teimlad o barch a hyder ym mhob plentyn.
- Darparu amgylchedd cynnes, croesawus i bob ymwelydd a disgyblion newydd ac annog rhieni i gymryd rhan a rhannu cyfrifoldeb dros addysg eu plentyn.

Siwrnai St Mark

Yn ôl Estyn, mae Ysgol Gynradd St. Mark wedi bod yn gwella ei gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd i ddisgyblion a'u teuluoedd am nifer o flynyddoedd.⁶⁴ Trwy ddefnyddio dulliau ymyriad cynnar i wella presenoldeb, adolygu strategaethau addysgu i ymgysylltu'n well â disgyblion a chyflwyno addysg yn seiliedig ar 'werthoedd', mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da. O ganlyniad, mae'r holl ddisgyblion ac eithrio'r rhai hynny gydag anghenion sylweddol, cymhleth wedi codi o leiaf ddwy lefel mewn asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol o gyfnod allweddol 1 i gyfnod allweddol 2.

Cyflwynodd y cyn-bennaeth, Mrs Debbie Davis, lawer o'r systemau a gweithdrefnau sydd wedi eu rhoi ar waith yn yr ysgol, ac sydd bellach wedi cael eu cyflwyno ar draws yr Awdurdod Lleol. Yn ystod y tymor cyn penodiad Mrs Davis, roedd pedwardeg pump o ddisgyblion wedi cael eu gwahardd.

“Nid oes gennym unrhyw waharddiadau'n awr.”

Llais Llywodraethwr

Mae pawb yn deall datganiad o weledigaeth ac arwyddair yr ysgol, 'Balchder mewn Llwyddiant'. Mae polisi drws agored yno ac mae perthnasau wedi cael eu hadeiladu ar barch gan y ddwy ochr ac nid oes gan rieni ofn mynd at yr ysgol a gofyn am gymorth. Mae hyn yn sail i ddarpariaeth grŵp rhieni a phlant bach blynyddoedd cynnar sy'n cael ei redeg yn yr ysgol bob dydd Mawrth ac sydd ar agor i holl aelodau'r gymuned, nid rhieni â phlant yn yr ysgol yn unig. Mae'r clergwyr lleol yn chwarae rhan weithredol yn yr ysgol. Gyda'i allor, gwasanaethau a dathliadau ei hun

⁶⁴ <http://www.estyn.gov.uk/english/docViewer/238520.1/a-caring-environment-at-the-heart-of-school-life/?navmap=33,53,158>

mae gwasanaethau a dathliadau fel Bedyddiadau yn cael eu cynnal yn yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn cael cefnogaeth lawn gan y Corff Llywodraethu.

“Mae ein staff yn wir yn deall y gymuned a'r plant. Maen nhw'n cymryd amser i wrando arnyn nhw a byddant yn darparu beth bynnag sydd ei angen arnyn nhw - maen nhw'n wirioneddol yn poeni amdanynt.”

Llais Llywodraethwr

Mae gan St. Mark 'Hwb Aml-asiantaeth' ar y safle, sy'n lleoliad ar gyfer nifer o weithwyr proffesiynol:

- Swyddog Presenoldeb
- Swyddog Cymorth Ymddygiad
- Seicolegydd Addysgol
- Athro Ymgynghorol MATh (Mwy Abl a Thalentog)
- Cyngorydd Dysgu Sbardun

Yn y blynyddoedd a fu, mae Ysgol St Mark hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â chynghorwyr a gweithwyr ieuenctid, ac mae'r Pennaeth Dros Dro yn gobeithio y bydd y gwasanaethau hyn yn dychwelyd i'r ysgol yn y dyfodol agos yn dilyn ail strwythuro.

Ymyriadau

PASS - Offeryn diagnostig ar gyfer lles

Dwywaith y flwyddyn ym Medi a Mehefin, neu pan fydd disgybl newydd yn dechrau yn yr ysgol, mae staff hyfforddedig yn gwahodd disgyblion i ddefnyddio offeryn diagnostig PASS (Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol)⁶⁵. Mae pob mesur agwedd yn gysylltiedig â themâu a damcaniaethau allweddol yn ymwneud â lles ac mae deilliannau sy'n cael eu cofnodi'n rhoi golwg ar feddyliau a theimladau disgyblion unigol ynghylch yr ysgol, er enghraifft:

- Cysylltioldeb yr ysgol
- Gallu dysgu canfyddedig
- Hunan-barch a hunan-ffeithiolrwydd
- Parodrwydd i ddysgu
- Agweddau tuag at athrawon
- Dyhead cyffredinol i weithio
- Hyder wrth ddysgu
- Agweddau tuag at bresenoldeb
- Ymateb i'r cwricwlwm

⁶⁵ <http://www.gl-assessment.co.uk/products/pupil-attitudes-self-and-school-pass/using-pass-keep-track-pupils-wellbeing>

Unwaith iddo gael ei ddadansoddi mae adroddiad wedi ei godio mewn gwahanol liw yn cael ei gynhyrchu ar gyfer pob carfan (coch, oren, gwyrdd) i adnabod disgyblion sydd efallai angen ystod o ymyriadau. Yn ogystal, gellir hefyd cynhyrchu adroddiadau 'symudol' proffil disgybl i awgrymu ymyriadau ffactor-benodol i alinio gyda meysydd canfyddadwy o wendid. Fe all y rhain gysylltu â strategaethau ar gyfer ymddygiad amhriodol, anawsterau cymdeithasol, pryder neu iselder.

Clwb Pyramid

Mae tri aelod staff ymroddedig a phroffesiynol wedi cymryd arweinyddiaeth y 'Clwb Pyramid' yn St. Mark. Mae'r clwb yn canolbwyntio ar ddarparu man diogel i ddisgyblion llai hyderus godi eu hunan-barch a'u hunan-ffeithiolrwydd.

Mae'r clwb yn rhedeg ar sail 'gwahoddiad yn unig' ac mae atgyfeiriadau'n digwydd trwy'r llwybrau canlynol:

- Data PASS
- Holiadur Cryfderau ac Anawsterau
- Pryderon gweithiwr allweddol, athro neu riant ynghylch ymddygiad swil, encilgar

Mae'r clwb yn rhedeg sesiwn 2 awr unwaith yr wythnos ar ôl ysgol mewn cylch 10 wythnos gyda gwahanol grwpiau blynyddoedd ac mae am ddim. Nid oes mwy na 10 o blant mewn 'cylch' ar unrhyw un adeg. Mae data dilyn y rhai sy'n mynychu yn dangos bod oddeutu 75% o ddisgyblion sydd â mynediad i'r clwb yn derbyn PYADd.

Mae'r clwb yn gweithredu trefn osodedig bob tro mae'n cael ei gynnal er mwyn darparu cysondeb i blant sensitif, yn dechrau gyda chyfarfod amser cylch ac yna symud ymlaen at goginio a rhannu bwyd. Mae plant yn helpu i ddewis bwydlen ac yn gwneud bwyd iach sy'n rhoi mwy o berchnogaeth iddynt. Nid oes cyfaddawdu o ran ansawdd y bwyd gan fod staff yn credu'n gadarn bod y plant yn haeddu cael 'profiad neis'. Maen nhw'n bwyta a rhannu amser cymdeithasol o ansawdd gyda'i gilydd, sy'n gwella cydweithrediad ac arferion moesgarwch wrth y bwrdd bwyd. Mae plant yn cymryd tro i dacluso a chlirio trwy amserlen o gyfrifoldebau sydd wedi ei dyfeisio ganddyn nhw ac yna'n mynd ati i wneud celf a chrefft a chwarae gemau. Mae nifer o'r plant yn gwneud ffrindiau newydd ac yn cynyddu eu cylch cyfoedion; mae hyn wedi cael ei gydnabod gan rieni fel cryfder gan y clwb.

“Fe wnaeth fy mab fwynhau ei amser yn y Clwb Pyramid yn fawr; mae'n hapus, mae wedi gwneud mwy o ffrindiau ac yn mwynhau'r ysgol llawer mwy yn awr.”

Llais Rhiant

Ar ôl i'r plant setlo'n iawn a chreu a chytuno ar 'eu rheolau', maen nhw'n cael ail enwi'r clwb a'i berchnogi am y cyfnod y maent yn mynychu. Wrth i blant ymlacio mwy a dod yn 'gymdeithasol gyfforddus' mae taith leol yn cael ei threfnu a defnyddir parti 'diwedd clwb' i amlygu cynnydd y plant a dathlu eu cyflawniadau.

Mae dogfennaeth yn allweddol i ddangos cynnydd y plant ac mae staff yn tynnu lluniau a nodi sylwadau a sgysiau anffurfiol gyda phlant a rhieni ac yn eu cofnodi mewn ffeil clwb. Mae ffeil newydd yn cael ei chreu ar gyfer pob cylch 10 wythnos ac mae'r holl ffeiliau clwb yn cael eu harchifo mewn storfa ddiogel. Mae arweinwyr y clwb yn adolygu'r ffeiliau hyn ar gyfer gwerthusiadau tîm ac i wirio cynnydd disgyblion.

Dilynodd arweinwyr y clwb grŵp o gyn-ddisgyblion Clwb Pyramid i ddilyn eu datblygiad ac o ganlyniad i'r cynnydd yn eu hyder fe aethant gyda nhw i gynhadledd ym Mharc-y-Sgarlets ble y cyflwynodd disgyblion weithdy i ymarferwyr addysgol ledled de a gorllewin Cymru.

“Mae hyder y grwpiau hyn o blant wedi cynyddu trwy gydol y flwyddyn; maen nhw wedi cymryd rhan yn rheolaidd mewn gwasanaethau a grwpiau darllen yn uchel a gwaith dosbarth.”

Gweithiwr Allweddol Sgiliau

SMILE - St Mark's Improving Literacy and Emotional Well-being

Dechreuodd SMILE fel rhaglen llythrennedd ac mae wedi datblygu ac esblygu yn 'ymbarél' ar gyfer ystod o ymyriadau cymorth ar gyfer sgiliau ychwanegol. Nod y prosiect yw canolbwyntio ar hybu datblygiad iaith mewn grwpiau targed, trwy weithgareddau siarad a gwrando gwell, rhaglenni llythrennedd carlam, darllen dan arweiniad, sillafu a gweithgareddau dealltwriaeth. Mae hefyd yn rhoi cymorth i ddisgyblion pryderus, yn darparu sesiynau amserlen ar gyfer gwaith cartref, darllen a mathemateg i gynyddu hyder a hefyd yn rhoi cymorth i ddisgyblion â thueddiadau dyslecsig.

Mae disgyblion yn cael eu cymryd allan o wersi i fynychu grwpiau SMILE am 4 sesiwn bore neu brynhawn bob wythnos. Mae Gweithwyr Allweddol a'r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig yn dilyn cynnydd disgyblion ac yn nodi sut mae'r disgyblion yn gwella trwy waith caled a phenderfyniad.

“Fe wnaethant gydweithio'n dda fel grwpiau, gweithio gyda'i gilydd; parchu angen ei gilydd am le tawel ac amser i feddwl.”

Gweithiwr Allweddol Sgiliau

Tystiolaeth o Effaith

Mae Gweithwyr Allweddol Sgiliau yn cynhyrchu adroddiad gwerthuso SMILE sy'n cynnwys dilyn deilliannau mesuradwy disgyblion. Mae canlyniadau diweddar disgyblion yn mynychu SMILE yn cynnwys:

Pwnc	Mesur	Canran disgyblion
Saesneg Blwyddyn 2	Deilliant 5 (Lefel 2)	100%

Saesneg Blwyddyn 6	Deilliant Lefel 4	100%
Mathemateg Blwyddyn 6	Deilliant Lefel 4	100%

“Mae SMILE yn lle tawel i weithio; fe helpodd fi i ganolbwyntio ar fy sgiliau sillafu a mathemateg.”

“Fe helpodd SMILE fi i gael Lefel 5 mewn darllen. Roeddwn wrth fy modd gyda'r llyfrau ffoneg.”

Lleisiau Disgyblion

Rhwng 2012 a 2013 dangosodd canlyniadau PASS gynnydd cadarnhaol hefyd ar gyfer plant PYADd:

Maes Dysgu PASS	Cynnydd i ddisgyblion Prydau Ysgol am Ddim
Gallu i ddysgu	58.1%+
Parodrwydd i ddysgu	58.5%+
Hyder y dysgwr	58.5%+

Dros y pum mlynedd diwethaf rhwng 2009 a 2013 mae disgyblion yn St. Mark wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol⁶⁶:

Cyfnod Allweddol	Disgyblion PYADd	Disgyblion Dim PYADd
DPCCA1 a DCS	94.6%	84.4%
DPCCA2	72.3%	79.8%

Sbardun

Mae Sbardun yn Brosiect Sir Benfro yn Dysgu, sy'n rhedeg ystod eang o gyrsiau difyr, cyffrous am ddim i oedolion a theuluoedd mewn ardaloedd wedi eu targedu. Ar hyn o bryd mae Sbardun yn gweithredu mewn 6 o ysgolion partneriaeth ac mae gan St. Mark Gynghorydd Sbardun ei hun wedi ei leoli yn yr hwb aml-asiantaeth. Mae St. Mark yn neilltuo 1 diwrnod yr wythnos i Sbardun, ac yn ogystal â chysiau am ddim mae darpariaeth crèche am ddim hefyd ar gael sy'n cael gwared ar rwystrau i alluogi rhieni i fynd i ddysgu.

Mae cyrsiau Sbardun wedi eu cynllunio i oedolion a theuluoedd fynd at ystod o weithgareddau dysgu yn unigol a gyda'i gilydd. Trwy ymuno ag un o'r cyrsiau mae teuluoedd yn gallu cael hwyl, dysgu sgiliau newydd, cwrdd â phobl newydd ac

⁶⁶ Ffigyrau gan ERW

ehangu eu gorwelion. Mae gwahanol raglenni a gweithgareddau'n cael eu cynnal bob hanner tymor yn adeilad yr ysgol. Fel arfer mae boreau yn canolbwyntio ar ddysgu oedolion ac mae prynhawniau'n cael eu neilltuo ar gyfer dysgu fel teulu ble mae plant yn dod allan o'r dosbarth i ymuno â mam, dad neu aelodau eraill o'r teulu am weithgareddau difyr. Mae sesiynau'r bore a'r prynhawn yn 2 awr o hyd ac wedi eu hamseru i weddu i'r diwrnod ysgol, ac mae cyrsiau'n dilyn rhaglen osodedig o ddigwyddiadau. Mae'r rhaglen wedi ei threfnu ar gyfer grwpiau blynyddoedd penodol ar y tro e.e. Blwyddyn 1 a 2 gyda'i gilydd (hanner tymor cyntaf), yna Blwyddyn 3 a 4 gyda'i gilydd (ail hanner tymor) ac yna mae hyn yn symud ymlaen ledled yr ysgol bob yn ail.

“Mae'r rhaglen yn newid bob hanner tymor er mwyn i ni allu symud trwy'r ysgol ac ymgysylltu â gwahanol rieni.”

Cydlynnydd Sbardun

Mae Sbardun yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion lleol i benderfynu pa bynciau a themâu y maen nhw eisiau canolbwyntio arnynt. Canolbwyntir ar lythrennedd a rhifedd yn barhaus ond mae'n cael ei gyflwyno gan amlaf trwy ddulliau seiliedig ar bwnc (gweler isod) ac weithiau mae'n cael ei gyflwyno mewn ffordd fwy penodol ac uniongyrchol.

Mae'r prosiect yn anelu at ymgysylltu ag oedolion mewn cyfleoedd dysgu gweithredol fel:

- Pobi bara ac addurno cacennau
- Harddwch
- Gwaith saer
- Garddwyr gwenyn prysur
- Gwyddoniaeth Roced
- Gwydr lliw a ceramig
- Canu
- Gwneud mosaig
- Cardiau a chyfrifiaduron

Mae 50 y cant o bob cwrs yn achrededig a 50 y cant yn ddim yn achrededig, mae hyn yn ei wneud yn fwy hygyrch i ystod ehangach o ddysgwyr.

“Rydym yn sicrhau nad yw hi'n llethol i'r rhieni hynny sydd ddim wedi cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol ers amser fel nad ydynt yn pryderu ynghylch yr hyn y maen nhw'n ei wneud.”

Cynghorydd Sbardun

Mae'r holl gyrsiau yn hygyrch yn gyffredinol ac yn agored i'r holl deuluoedd, nid oes unrhyw stigma ynghlwm â nhw ac mae cofrestru'n hawdd. Gall teuluoedd gofrestru ar gyrsiau mewn nifer o ffyrdd, trwy neges destun neu ar y ffôn, neu trwy bostio slip ateb yn y Blwch Postio Sbardun penodedig yn ardal derbynfa'r ysgol.

Pan fydd pobl yn cofrestru mae Cynghorwyr Sbardun yn adolygu canran faint sydd wedi cofrestru sy'n deuluoedd sy'n derbyn PYADd a theuluoedd sydd ddim yn derbyn PYADd, yna maent yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chyfranogwyr codau post Cymunedau yn Gyntaf, neu rai sydd â phlant yn derbyn PYADd. Mae Cynghorwyr yn defnyddio targedu clyfar a strategaethau recriwtio fel rhoi 'nodyn atgoffa caredig' mewn sgysiau anffurfiol a dilyn y rhain trwy wneud galwadau ffôn i geisio sicrhau bod 50% o'r cyfranogwyr yn deuluoedd PYADd.

“Mae gweithio gyda theuluoedd anodd eu cyrraedd yn gallu bod yn anodd, ond prin iawn yw'r adegau pan fyddwn yn brwydro i lenwi ein cyrsiau. Maen nhw'n hynod o boblogaidd. Pan fyddan nhw'n clywed amdano gyntaf nid ydyn nhw'n siŵr iawn ond unwaith iddyn nhw ymrwymo gyda ni maen nhw eisiau dod eto ac eto. Yna maen nhw'n dweud wrth eu ffrindiau ac maen nhw'n dod hefyd.”

Cynghorydd Sbardun

O fis Medi 2013 tan Chwefror 2014 mae Sbardun wedi rhedeg 82 o gyrsiau gwahanol ledled ei 6 ysgol partner ac wedi denu 686 o oedolion i gofrestru ac mae 233 o blant wedi elwa o dreulio amser o ansawdd yn gweithio gyda'u teuluoedd.

“Unwaith y mae teuluoedd yn sylweddoli eu bod yn gallu treulio amser gyda'u plant ar sail unigol mae hynny'n gwneud gwahaniaeth enfawr.”

Cynghorydd Sbardun

Tystiolaeth o Effaith

Mae gwerthusiadau rheolaidd yn cael eu cynnal ac mae adborth cadarnhaol iawn yn gyffredin ar draws pob lleoliad, felly mae croesgyfeirio'n dangos bod yr effaith yn llwyddiannus. Yn St Mark roedd 100% o rieni'n teimlo bod y cwrs wedi eu helpu nhw a'u plentyn:

- i deimlo'n dda gyda'i gilydd
- i ddysgu rhywbeth newydd
- i deimlo'n agos fel rhiant a phlentyn
- i wneud pethau newydd gyda'i gilydd yn eu hamser rhydd
- i gymryd mwy o ddiddordeb mewn dysgu yn yr ysgol
- i fod yn fwy cadarnhaol am weithgareddau ysgol

Dywedodd nifer o rieni eu bod yn cysylltu teimlo'n fwy hyderus a theimlad o ddaioni gyda threulio amser 1 i 1 o ansawdd gyda'u plentyn a'u bod wedi parhau i ymchwilio'r gweithgareddau gyda'r adnoddau a ddarparwyd gartref ar ôl i'r cwrs orffen. Roedd adborth arall yn cynnwys:

“Fe wnaeth D fwynhau amser 1-i-1 gyda mi; fe helpodd ef i gymryd diddordeb mewn ysgrifennu.”

“Mae'n gorfod canolbwyntio a gwrando ar gyfarwyddiadau.”

“Petai fy athro gwyddoniaeth wedi bod yn gymaint â hyn o hwyl yn yr ysgol efallai y byddwn wedi dysgu mwy.”

Lleisiau Rhieni

Mae data dilyn cynnydd wedi nodi newid proffil dysgwyr yn llwyddiannus o fewn sir Benfro ac o ganlyniad i Sbardun mae 30 o oedolion o'r 3 ysgol partner wedi ennill cymhwyster achrededig ac aeth 20 ymlaen i astudio gyda darparwr cyrsiau eraill. Mae datblygiadau ar waith ar hyn o bryd i gynyddu dilyn cynnydd ledled y 6 ysgol partner ac i weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe a Choleg Sir Benfro i gynyddu recriwtio ar Gyrsiau Cymhwyster Lefel Uwch.

Datblygiadau i'r Dyfodol

Mae Ysgol St. Mark wedi penodi pennaeth newydd ac mae'n disgwyl yn eiddgar iddi gyrraedd er mwyn iddynt ddechrau ar gam nesaf eu siwrnai.

Mae cynllun peilot i brofi offer diagnostig cyfeillgarwch newydd ar fin dechrau yn y dyfodol agos. Bydd yr offer yn cynhyrchu diagram gwe pry cop o grwpiau cyfoedion, a fydd yn galluogi staff i dargedu ymyriadau a rhoi cymorth pellach i ddisgyblion a meithrin lles disgyblion.

Mae staff hefyd wedi datgan diddordeb brwd yn y rhaglen FAST (Teuluoedd ac Ysgolion gyda'i Gilydd, Achub y Plant)⁶⁷. Mae nifer o deuluoedd a fynychodd Sbardun i gynyddu sgiliau trwy gyfarwyddyd ac arweiniad bellach yn barod i gael eu grymuso a hyfforddi fel gwirfoddolwyr FAST.

Cyllid

Ar hyn o bryd mae Ysgol St. Mark yn bwriadu defnyddio ei Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) i ganolbwyntio ar y canlynol:

- Dilyn cynnydd disgyblion sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a holl ddysgwyr agored i niwed i ganfod darpariaeth briodol
- Targedu dysgwyr PYADd trwy gydol Blwyddyn 2 a CA2 gyda'r nod o godi safonau mewn Llythrennedd a Rhifedd.
- Targedu dysgwyr ar gyfer Clwb Pyramid ar Ôl Ysgol
- Targedu dysgwyr Blwyddyn 6 PYADd i dderbyn cymorth trosglwyddo pellach i mewn i Flwyddyn 7
- Cynyddu ymgysylltu teuluol gyda chymorth rôl newydd y Swyddog Cynhwysiant Teuluol
- Gwella diogelu

⁶⁷ <http://www.savethechildren.org.uk/about-us/where-we-work/united-kingdom/fast>

- Gwella presenoldeb
- Llais y Disgybl
- Arfer adferol
- Hyfforddiant mentora cymheiriaid

Yn ogystal mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth Sbardun angen £3000 tuag at gost rhedeg y prosiect ar ymrwymiad o 1 diwrnod yr wythnos am flwyddyn gyfan. Mae St. Mark yn derbyn arian cyfatebol gan y Cyngor Lleol, ac mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf eraill mae'n cael ei rannu 3 ffordd rhwng yr ysgol, y cyngor a Cymunedau yn Gyntaf.

“Rydym yn siarad cryn dipyn am hyn ac yn trafod effaith y gwaith ac adborth mewn perthynas â'n cyllideb. Mae hyn yn sicr yn gweithio ac yn werthfawr iawn.”

Llywodraethwr

Crynodeb

Y neges allweddol o'r astudiaeth achos hon yw bod cysylltiadau cryf gyda rhieni a ffocws ar hybu lles disgyblion yn ganolog i leihau effaith tlodi ar eu cyrhaeddiad.

Themau	Ffactorau penodol	SMC
Arweinyddiaeth	Defnydd cadarn o ddata a hunan werthusiad	✓
	Hyfforddi a threfnu staff yn cynnwys arbenigwyr	✓
Addysgu a Dysgu	Rhaglenni lles ac ymddygiad ar gyfer dysgu yn cynnwys canolbwyntio ar bresenoldeb, gwrando ar ddysgwyr ac adeiladu hunan barch	✓✓
Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach	Dialog gref gyda rhieni	✓✓
	Dysgu oedolion	✓
	Sefydlu a chynnal partneriaethau strategol	✓✓

Cyswllt Allweddol

Mr R Owen
 Pennaeth Dros Dro
 Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru St. Mark
 Rhodfa St Issells
 Pont Myrddin
 Hwlfordd
 Sir Benfro
 SA61 1JX
 01437 767623
admin.stmarks@pembrokeshire.gov.uk

11. Partneriaeth Gymunedol Ysgolion Ffederasiwn Trelái Caerau

LLEIHOU EFFAITH TLODI AR GYRHAEDDIAD ADDYSGOL

ARSYLLFA POLISI ASTUDIAETH ACHOS 11

Enw'r Ysgol/Lleoliad: **Partneriaeth Gymunedol Ysgolion Ffederasiwn Trelái Caerau**

Awdurdod Lleol: **Caerdydd**

Math o Ysgol/Lleoliad: **Cymunedol**

Cyfrwng iaith: **Saesneg**

Canolbwynt yr Astudiaeth Achos

Cryfhau cysylltiadau gyda chymunedau, ymgysylltu â rhieni a theuluoedd

Cafodd ACE⁶⁸ (Action in Caerau and Ely / Gweithredu yng Nghaerau a Threlái) ei sefydlu gan Bartneriaeth Leol Trelái a Chaerau i greu etifeddiaeth barhaol i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf⁶⁹ llwyddiannus yn yr ardal. Nod ACE yw:

- Dod â'r gymuned at ei gilydd
- Cefnogi grwpiau cymunedol
- Rheoli a datblygu prosiectau lleol
- Cyflogi staff a chreu cyfleoedd gwaith yn lleol
- Rheoli adeiladau cymunedol
- Hyrwyddo anghenion Trelái a Chaerau gyda'r Cyngor a'r darparwyr gwasanaeth eraill
- Canfod ffyrdd o ddod ag arian i mewn i adfywio Trelái a Chaerau

Mae ACE yn gweithio ochr yn ochr â grwpiau cymunedol sy'n seiliedig yn Nhrelái/Caerau a Tyllgoed/Pentrebaen (Gorllewin Caerdydd) sy'n sicrhau bod y gymuned leol yn siapio a dylanwadu ar waith Cymunedau yn Gyntaf. Mae pob grŵp partneriaeth yn enwebu 1 i 2 aelod i eistedd ar fwrdd ACE i gynrychioli materion Cymunedau yn Gyntaf. Mae ACE yn darparu cymorth trosfwaol i'r tîm Cymunedau yn Gyntaf, gan sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflenwi'n effeithiol trwy broses monitro a gwerthuso rhaglen.

⁶⁸ <http://www.aceplace.org/#!communities-first/c8hd>

⁶⁹ Nod Cymunedau yn Gyntaf yw cyfrannu, ochr yn ochr â rhaglenni eraill, at leihau'r bylchau addysg/sgiliau, economaidd ac iechyd rhwng ein hardaloedd mwyaf difreintiedig a'n hardaloedd mwyaf cefnog.
<http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/regeneration/communitiesfirst/?lang=en>

Yr Astudiaeth Achos - Clwstwr Ffederasiwn Trelái Caerau

Mae Ysgolion Ffederasiwn Trelái Caerau wedi eu lleoli ar ochr orllewinol Caerdydd. Mae cyfran fawr o'r gymuned yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Trelái a Chaerau yn ardaloedd dynodedig Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Dangosodd arolwg a gynhaliwyd gan Estyn yn 2013 bod 20% o Ddisgyblion y Ffederasiwn yn mynd i'r ysgol uwchradd gyda gallu darllen dan naw oed a chwe mis; dyma sy'n cael ei ystyried yn gyffredinol yn lefel llythrennedd gweithredol.

Mae Partneriaeth Gymunedol Ysgolion Ffederasiwn Trelái Caerau yn cael ei harwain gan Gydlynnydd Ysgolion a Dysgu Cymunedol Trelái Caerau, sydd hefyd yn Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth y Ganolfan Ddysgu sy'n tynnu'r holl benaethiaid o'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn Nhrelái Caerau, a'r holl Asiantaethau Partner, at ei gilydd, sy'n cynorthwyo dysgu, helpu i godi cyrhaeddiad addysgol yn yr ardal ac yn cefnogi lles teuluoedd. Hefyd ceir tîm o ymarferwyr proffesiynol cydgysylltiol, Swyddog Dysgu a Chyswllt Teuluol, Mentor Datblygu Ieuenctid a Chydlynnydd Dysgu Oedolion. Mae staff wedi cydgynllunio rhaglen arloesol sy'n cefnogi thema Cymunedau Dysgu Cymunedau yn Gyntaf o ymgysylltu â rhieni, gofalmwyr, disgyblion a theuluoedd i geisio goresgyn rhai o'r rhwystrau i ddysgu mewn ardal sydd â lefelau uchel o anfantais gymdeithasol ac economaidd ac mae'n defnyddio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) i gynllunio, monitro a gwerthuso perfformiad.

Mae dwy ysgol uwchradd a chwe ysgol gynradd yn y Ffederasiwn:

Uwchradd

- Glyn Derw - 546 disgybl – 38.8% Prydau Ysgol am Ddim
- Llanfihangel - 703 disgybl – 45.1% Prydau Ysgol am Ddim

Cynradd

- Herbert Thompson – 457 disgybl – 55.4% Prydau Ysgol am Ddim
- Windsor Clive – 418 disgybl – 53.2% Prydau Ysgol am Ddim
- Hywel Dda – 389 disgybl – 57.4% Prydau Ysgol am Ddim
- Trelái - 433 disgybl - 4 8.1% Prydau Ysgol am Ddim
- Pencaerau – 341 disgybl – 49.0% Prydau Ysgol am Ddim
- Millbank – 134 disgybl – 30.4% Prydau Ysgol am Ddim

Ffigyrau Rhagfyr 2013

Mae'r Ffederasiwn wedi canfod, er bod rhieni'n chwarae llawer mwy o ran gyda helpu eu plentyn i ddysgu yn ystod eu blynyddoedd yn yr ysgol gynradd, maen nhw'n ymddieithrio yn ystod eu blynyddoedd yn yr ysgol uwchradd pan fydd angen hyd yn oed mwy o ymrwymiad gan y cartref i gefnogi dysgu.

“Mae'n ymddangos bod cyfranogiad gan rieni a dysgu teuluol yn digwydd yn llawer haws ar lefel cynradd felly roeddem eisiau dangos beth sy'n digwydd mewn ysgolion cynradd gydag arddangosfeydd rhyngweithiol er mwyn i ni

gadw peth o'r momentwm hwnnw a chysylltu rhieni gyda dysgu uwchradd gan mai dyma pryd yr ydym wedi sylwi bod rhieni'n ymddieithrio."

Cydlynnydd Ysgolion a Dysgu Cymunedol

"Mae'r Ffederasiwn yn buddsoddi mewn platfform dysgu TGCh newydd a fydd yn cynnwys porth i rieni. Bydd hyn yn galluogi rhieni i fonitro cynnydd eu plentyn eu hunain yn fwy rheolaidd. Rydym wedi buddsoddi mewn amgylchedd dysgu cymdeithasol (Yahki⁷⁰) i annog rhieni i weithio gyda'u plant y tu allan i'r diwrnod ysgol."

"Mae'r fenter 'Achievement for All'⁷¹ mewn lle ar hyn o bryd ac rydym yn gobeithio'i defnyddio i ategu at a chyfnerthu'r holl raglenni presennol."

Pennaeth Cynorthwyol y Ffederasiwn (Addysgu a Dysgu a Hyfforddiant)

Arddangosfa Ddysgu Ysgolion Ffederasiwn Trelái Caerau

Cynhaliwyd Arddangosfa Ddysgu gyntaf erioed Ysgolion Ffederasiwn Trelái Caerau yng Nghanolfan Hamdden y Gorllewin ar ddydd Mercher 17eg Gorffennaf 2013 o 3.30-6pm. Cafodd y digwyddiad ei gynllunio ar y cyd gan glwstwr ysgolion y Ffederasiwn a Chymunedau yn Gyntaf/ACE Gorllewin Caerdydd fel ffordd o hyrwyddo ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned mewn ysgolion a chyfleoedd dysgu i bob oedran ac roedd hefyd yn fforwm i godi proffil pob ysgol yn y clwstwr, gan gyflwyno agwedd gydlynol a chyd-gysylltiedig tuag at ddysgu ar draws pob Cyfnod Allweddol.

Roedd y digwyddiad yn dangos sut y mae cydweithio gyda phartneriaid ac asiantaethau eraill yn galluogi darparu ystod gyfannol o ymyriadau seiliedig yn yr ysgol a'r gymuned i ymgysylltu â theuluoedd a hyrwyddo dysgu teuluol. Roedd y Ffederasiwn yn anelu at ysbrydoli ac annog rhieni i weithio gydag ysgolion i helpu i wella deilliannau addysgol i'w plant; helpu i godi dyheadau a deilliannau addysgol i blant sydd wedi eu heffeithio gan dlodi ac anfantais; a thorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel.

"Mewn ardaloedd cefnog mae rhieni'n ymgysylltu llawer mwy gydag ysgolion, mae presenoldeb da mewn nosweithiau rhieni, nid yw'n rhieni ni'n deall pa mor bwysig yw hynny, felly rydym yn ceisio newid yr ethos cyfan o ddeall y bydd plant yn gwneud yn well yn yr ysgol os fydd rhieni'n cael eu cynnwys."

Cydlynnydd Ysgolion a Dysgu Cymunedol

⁷⁰ <http://www.yahki.com/>

⁷¹ <http://www.afa3as.org.uk/>

Er mwyn gallu cynllunio'r digwyddiad daeth grwpiau dysgwyr o ysgolion uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel at ei gilydd gyda'r Tîm Cymunedol dan arweiniad y Cydlynnydd Ysgolion a Dysgu Cymunedol a Dynamix⁷² am noson o ymgynghori.

Estynnwyd gwahoddiad i'r grwpiau llais y dysgwr gymryd rhan yn yr ymgynghoriad trwy holi dau gwestiwn cychwynnol:

- **A fyddai eich rhieni'n hoffi mwy o ymgysylltiad gyda'ch ysgol?**
- **A fydddech yn hoffi i'ch rhieni gael mwy o ddiddordeb yn beth rydych yn ei wneud er mwyn iddynt allu rhoi gwell cymorth i chi gyda'ch dysgu?**

Yn dilyn trafodaethau pellach casglodd y grwpiau bod yr ateb i'r ddau gwestiwn yn gadarnhaol ac yr hoffent gymryd rhan yn y digwyddiad.

Roedd y grwpiau llais y dysgwr yn cynnwys oddeutu 40 disgybl, 20 o bob ysgol a chynhaliwyd y noson ymgynghori mewn bwyty lleol. Ar ôl y cynllunio fe wnaeth pawb rannu pryd o fwyd.

Trefnwyd y gweithgareddau gan y Bwrdd Dysgu, ac roeddent yn seiliedig ar syniadau'r disgyblion. Mynychodd oddeutu 500 o bobl yr Arddangosfa Ddysgu a oedd yn cynnwys:

- Arddangosfeydd rhyngweithiol a sesiynau blasu gan ysgolion a phartneriaid
- Perfformiadau gan gorau a grwpiau celfyddydau perfformio'r ysgolion
- Sesiynau chwarae amser i'r teulu am ddim ar y Bws Chwarae⁷³
- Bwffe am ddim
- Sesiwn ymgynghori dan arweiniad disgyblion

Roedd rhan o'r digwyddiad yn cynnwys ymgynghoriad yn cael ei redeg gan ddisgyblion. Cyn y digwyddiad fe dderbyniodd y disgyblion a wirfoddolodd hyfforddiant gan Dynamix ar sut i redeg ymgynghoriad gan roi'r sgiliau a dulliau angenrheidiol iddynt i fynd ati i gael data a gwybodaeth. Yna fe ymgynghorodd y disgyblion â rhieni ynghylch y digwyddiad gyda chymorth Dynamix er mwyn ymchwilio'r cwestiynau canlynol:

- **Pam mae ysgolion yn cynnal nosweithiau rhieni ond nid yw'r holl rieni'n mynychu?**
- **Pa fathau o bethau y gellid eu gwneud i roi cyfle i rieni weld beth mae ysgolion yn ei wneud?**
- **Sut all rhieni chwarae mwy o ran yn nysg eu plentyn?**

⁷²Mae Dynamix yn fenter gymdeithasol a chydweithfa sy'n anelu at greu cymdeithas decach trwy ddatblygu sgiliau pobl ar gyfer cyfranogi, cydweithio, cynhwysiant, chwarae a menter.

⁷³Rhaid ennill mynediad i'r bws chwarae trwy ymweld â 6 arddangosfa yn y digwyddiad. Nid oedd plant yn cael mynd ar y bws ar eu pennau eu hunain. Roeddent yn gorfod cael rhiant neu ofalwr gyda nhw er mwyn iddynt allu mwynhau'r profiad chwarae gyda'i gilydd.

Yn ddiddorol, cyn y digwyddiad roedd disgyblion yn rhannu'r rhagdybiaeth mai'r hyn oedd o fwyaf o ddiddordeb i'w rhieni a gofawyr oedd graddau a chanlyniadau, adroddiadau, ymddygiad, polisiâu gwrth-fwlio, teithiau, gwisg ysgol ac yna nosweithiau rhieni. Roeddent hefyd yn credu bod yr hyn oedd yn rhwystro eu rhieni a gofawyr rhag ymgysylltu â'r ysgol yn cynnwys agweddau; bod eu rhieni'n teimlo'n anghyfforddus; a'u bod yn credu ei fod yn ddiangen a dibwys.

I'r gwrthwyneb i'r rhagdybiaethau hyn canfu'r disgyblion y byddai 49% o rieni'n hoffi gwybod mwy am sut mae eu plant yn perfformio yn yr ysgol ac mai neges testun, ffôn ac ebost yw'r ffyrdd gorau o gyfathrebu â rhieni. Gwnaethant hefyd ganfod, er mwyn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth gan yr ysgol, bod rhieni eisiau: gwybodaeth, yn gyflym a rheolaidd yn cynnwys llawer o newyddion da; cael eu hysbysu cyn gynted â phosib os oes problem; a theimlo eu bod nhw a'u plant yn cael eu gwerthfawrogi.

O ran cyfranogiad gan rieni canfuwyd mai: gwaith, hyder, amseru, peidio gwybod beth sy'n digwydd, a diffyg gofal plant oedd y rhwystrau mwyaf amlwg. Roedd y rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod y noson rieni naill ai'n iawn neu yn dda. Fodd bynnag, roeddent yn credu y gallai'r trefniadau, ciwio a'r system apwyntiadau fod yn llawer gwell.⁷⁴ Casglodd Dynamix y dylid creu nifer o gyfleoedd anffurfiol i rieni ddod i'r ysgol; gallai hyn gynnwys bore / noson goffi, digwyddiadau sy'n pontio'r cenedlaethau a digwyddiadau cymunedol ac y dylid canolbwyntio'r rhain ar deuluoedd blwyddyn 7 er mwyn osgoi rhwystrau rhag cael eu creu. Os fydd rhieni'n cael digon o gyfleoedd i ddod i mewn i'r ysgol yna byddant yn llai tebygol o deimlo'n anghyfforddus ynglŷn â bod yno. Nid oedd y mwyafrif o bobl yr ymgynghorwyd â nhw wedi clywed am Dysgu fel Teulu, ond roedd y rhai a oedd wedi clywed amdano'n gadarnhaol iawn.

“Rydym eisiau i'n teuluoedd wybod mai dyma'r ydym yn ceisio ei wneud yn yr ysgol, nid yw ein hysgolion i'r plant yn unig, rydym eisiau i'r teulu cyfan ymgysylltu â'r ysgol ac rydym eisiau cyswllt uniongyrchol rhwng yr ysgol a'r gymuned gan ei bod yn ganolbwynt sy'n gallu gwella bywydau pawb sy'n gysylltiedig â hi”

Cydlynnydd Dysgu Ysgolion a'r Gymuned

Dragonfly - Gweithdai Disgyblion/Rhieni Blwyddyn 7 - ‘Super Start’

Cafodd y gweithdai hyn eu cynnig i'r holl ddisgyblion a'u rhieni ar ddechrau Blwyddyn 7 yn 2013. Roeddent yn cynnwys gweithdy awr a hanner oedd yn galluogi disgyblion a rhieni i drafod yn agored ac yn onest pa mor dda y maen nhw'n setlo ym mlwyddyn 7 ac i ymdrin ag unrhyw broblemau'n codi gyda'u cyrhaeddiad, ffrindiau, gwaith cartref a bywyd teuluol ac ati. Am hanner cyntaf y gweithdy mynychodd rhieni a disgyblion weithdai ar wahân er mwyn iddynt ymgysylltu â'u cymheiriaid ac yna daethant at ei gilydd ar gyfer yr ail hanner i rannu'r hyn yr

⁷⁴ Adroddiad Dynamix

oeddent wedi ei ddysgu. Ar ddiwedd y gweithdy roedd gan bob disgybl gam / gamau gweithredu a goliau yr oeddent wedi dewis gweithio arnynt ac yna ymrwymodd y rhieni i roi cymorth i'w plentyn gyda'r goliau hyn

Mae'r rhaglen 'Super Start' wedi ei chynllunio i rymuso rhieni i helpu eu plant i godi dyheadau a chyrhaeddiad ar ddechrau eu haddysg yn yr ysgol uwchradd. Cafodd y rhaglen ei chynllunio hefyd i gynorthwyo gyda throsglwyddiad disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Cafodd pob rhiant/gwarcheidwad a fynychodd sesiwn 'Super Start' gyfle i ennill llechen electronig i helpu gyda dysgu gartref.

Amcanion i'r disgyblion:

- lleihau pryder ynghylch y trosglwyddiad o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- dechrau ymchwilio eu dyheadau i'r dyfodol
- eu cyflwyno i'r rhwydwaith o gymorth sydd ar gael mewn ysgolion ac annog dialog rhwng rhieni, disgyblion ac athrawon

Amcanion i'r rhieni:

- gwella eu perthynas gyda'r ysgol a'u hagwedd tuag at yr ysgol
- cynnig arweiniad a chymorth ar sut y gallant helpu eu plentyn i ddysgu, eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn fwyaf penodol i rymuso rhieni i gefnogi eu plant
- ymchwilio a herio credoau cyfyngol a rhwystrau i ddysgu, sy'n effeithio ar rieni a'u plant
- eu hannog i ddatblygu dyheadau i'w plant ac iddyn nhw eu hunain

Tystiolaeth o Effaith

Roedd gwerthusiadau'n adlewyrchu ymateb cadarnhaol iawn i'r gweithdy. Yn ôl y disgyblion cawsant y sesiwn yn ddefnyddiol iawn, gan roi gradd gyfartalog o 7.9 allan o 10 iddo ac roeddent yn amlwg yn teimlo'n fwy hyderus o ran bod ym mlwyddyn 7, gyda'r radd gyfartalog yn cynyddu o 6.8 cyn y sesiwn i 7.7 ar ei ôl. Cafwyd cynnydd hefyd o ran pa mor gyfforddus oedden nhw'n teimlo ynghylch gofyn i athrawon am help, gyda'u gradd yn codi o 5.3 cyn y sesiwn i 6.9 ar ei ôl. Roedd y cynnydd mwyaf yn y graddau yn ymwneud â pha mor gyfforddus oedden nhw'n teimlo ynghylch gofyn i'w rhieni am help cyn ac ar ôl y sesiwn, a gynyddodd o 6.2 i 8.2. Dywedodd nifer o ddisgyblion mai'r hyn oedd o gymorth mwyaf iddyn nhw yn y sesiwn oedd cael cyfle i siarad am eu problemau a'u teimladau.

“Fe roddodd syniadau i mi ynglŷn â sut i wella fy hyder.”

“Roedd yn hawdd i mi ddeall a datrys fy mhryder yn y sesiwn.”

“Rydym yn gallu cyfathrebu'n well.”

Lleisiau Disgyblion

Dangosodd gwerthusiadau rhieni hefyd bod y gweithdy wedi cael effaith gadarnhaol gyda chynnydd sylweddol o ran pa mor hyderus yr oedden nhw'n teimlo ynghylch sut oedd eu plentyn yn setlo ym mlwyddyn 7, gyda'r raddfa gyfartalog yn cynyddu o 6.7 cyn y sesiwn i 7.9 ar ei ôl. Cafwyd cynnydd hefyd o ran pa mor gyfforddus yr oedd rhieni'n teimlo ynghylch dod i'r ysgol i siarad am eu plentyn gydag athrawon, gyda graddau'n cynyddu o 7.2 i 8.2. Rhoddodd y rhieni radd o 7.8 i'r gweithdy o ran defnyddioldeb cyffredinol. Ymhlith y prif resymau a nodwyd ynghylch pam yr oedd y sesiwn yn ddefnyddiol roedd: cyfarfod rhieni eraill, gallu lleisio pryder ynghylch eu plentyn a chysylltu â'r Pennaeth Blwyddyn yn yr ysgol. Roedd llawer hefyd yn dweud ei bod yn werthfawr canfod pethau am eu plentyn nad oeddent yn gwybod amdanynt.

“Fe wnaeth fy helpu i gael amser 1 i 1 gyda fy merch.”

“Roedd hi'n dda dysgu pethau am fy mhientyn nad oeddwn i'n gwybod.”

“Roedd yn ddefnyddiol siarad â rhieni eraill sy'n mynd trwy'r un profiadau.”
Lleisiau Rhieni

Datganodd 50% o'r cyfranogwyr ddiddordeb mewn sesiwn ddilynol, sy'n dangos yn glir bod angen cymorth parhaus ar rai o deuluoedd blwyddyn 7 ar ffurf gweithdai a hyfforddiant.

Prynhawniau Gweithgareddau Trosglwyddo i Deuluoedd

Mae'r 'Rhaglen Ymgysylltu Teuluoedd Trosglwyddo' yn rhedeg ar ôl ysgol o 3-5pm un diwrnod yr wythnos yn Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel. Mae rhieni disgyblion ym mlwyddyn 7 a'r ysgolion cynradd sy'n bwydo hefyd yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol. Amcanion craidd y rhaglen yw hwyluso pontio rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd; cryfhau'r berthynas rhwng rhiant a phlentyn; annog ymgysylltiad teuluol a chymunedol gyda'r ysgol uwchradd; dangos y ffordd i rieni ac oedolion at raglenni a chysiau blaengar sy'n seiliedig yn yr ysgol a'r gymuned; a gwella hyder a sgiliau cymdeithasol plant agored i niwed i gefnogi ymgysylltiad â'r ysgol a gwella deilliannau dysgu i blant o ardal ddifreintiedig. Mae'r gweithgareddau teuluol yn cynnwys:

- Celf a Chrefft
- Coginio bwyd iach
- Caffis adrodd stori a darllen
- Cynllunio digwyddiadau cymunedol/ysgol a chodi arian
- Teithiau teuluol

Mae'r prosiect wedi dod yn sail i Gynllun Lles yr Ysgol ac mae'n cael ei ddefnyddio gan staff bugeiliol i gyfeirio teuluoedd sydd wedi cael eu hadnabod i fod yn agored i niwed, sydd angen cymorth ychwanegol, ac sydd â phlant sydd ddim yn ymgysylltu

gyda'r ysgol ac sydd efallai mewn perygl o gael eu gwahardd. Mae'r prosiect yn cael ei redeg mewn partneriaeth â Cymunedau yn Gyntaf Gorllewin Caerdydd/ACE.

Tystiolaeth o Effaith

Gofynnir i rieni a disgyblion lenwi holiadur ar wahanol bwyntiau trwy gydol y rhaglen. Maen nhw hefyd yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ynghylch dewis gweithgareddau a theithiau ac ati. Mae 100% o'r rhai sy'n mynychu'n rhoi gradd o dda iawn neu ragorol i'r ddarpariaeth. Mae 12 rhiant wedi cofrestru ar gyrsiau dysgu oedolion eraill yn ystod y cyfnod.

Datblygu Cyfleoedd Dysgu Ôl-16 ac i Oedolion

Mae Cymunedau yn Gyntaf Gorllewin Caerdydd/ACE, yn hwyluso'r prosiect hwn mewn tair rhan cyd-gysylltiedig.

1. Y rhan gyntaf yw datblygu cwricwlwm Dysgu Ôl-16 ac i oedolion Ffederasiwn Ysgolion y Gorllewin trwy bartneriaethau gyda darparwyr addysg allweddol.
2. Ail ran y prosiect yw datblygu cyfleoedd dysgu Ôl-16 ac i oedolion o fewn y gymuned a fydd yn arwain at ymgysylltiad a datblygiad tuag at astudio pellach a chyflogaeth. Mae hyn yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth ag ystod o ddarparwyr addysg lleol a Phrifysgolion.
3. Y drydedd rhan yw datblygu Llwybrau at Addysg Uwch a Chyflogaeth. Mae'r bartneriaeth hon yn anelu at ddod â darparwyr dysgu at ei gilydd sydd, gyda'i gilydd, yn cynnig ystod o lwybrau at Addysg Uwch i aelodau'r gymuned waeth beth yw eu cyrhaeddiad addysgol blaenorol. Mae'r prosiect hwn yn anelu at ddarparu ystod o lwybrau tryloyw a hygyrch sy'n arwain at gyflogaeth o ansawdd uchel ac yn dangos y ffordd yn glir at gyfleoedd cyflogaeth sy'n cwrdd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Datblygu Cwricwlwm Dysgu Ôl-16 ac Oedolion Ffederasiwn Ysgolion y Gorllewin

Mae cyfran y disgyblion sy'n gadael blwyddyn 11 wedi llwyddo mewn 5 TGAU wedi cynyddu'n sylweddol ac mae wedi rhoi pwysau newydd ar 6^{ed} Dosbarth y Ffederasiwn (gweler y tablau isod). Roedd y Ffederasiwn, ACE, Coleg Caerdydd a'r Fro a Choleg Dewi Sant yn rhan o'r prosiect i ehangu'r cwricwlwm 6^{ed} Dosbarth i gynnig ystod llawer gwell o ddewisiadau AS a lefel A ynghyd ag ystod eang o gyrsiau galwedigaethol BTEC Lefel 3.

Canlyniadau Ysgol Uwchradd Glyn Derw a

Choleg Cymunedol Llanfihangel

Cyfnod Allweddol 3: Dangosydd Pynciau Craidd

	Glyn Derw	Llanfihangel
2010/11 (Gwirioneddol)	58%	45%
2011/12 (Gwirioneddol)	60%	60%
2012/13 (Gwirioneddol)	69%	62%
2013/14 (Rhagweledig)	79%	74%

Cyfnod Allweddol 4: Lefel 2

	Glyn Derw	Llanfihangel
2010/11 (Gwirioneddol)	33%	37%
2011/12 (Gwirioneddol)	62%	56%
2012/13 (Gwirioneddol)	80%	62%
2013/14 (Rhagweledig)	68%	72%

Cyfnod Allweddol 4: Lefel 2 yn cynnwys Saesneg a Mathemateg

	Glyn Derw	Llanfihangel
2010/11 (Gwirioneddol)	22%	19%
2011/12 (Gwirioneddol)	34%	25%
2012/13 (Gwirioneddol)	27%	25%
2013/14 (Rhagweledig)	42%	34%

Mae ffigyrau presenoldeb hefyd yn dangos gwelliant:

Coleg Cymunedol Llanfihangel

Tachwedd 2011	88.8%
Ionawr 2013	89%
Mawrth 2014	91.5%

Ysgol Uwchradd Glyn Derw

Tachwedd 2011	87.5%
Ionawr 2013	91.5%
Mawrth 2014	92.5%

Datblygu Cyfleoedd Dysgu Ôl-16 ac i Oedolion o fewn y Gymuned

Mae Cymunedau yn Gyntaf Gorllewin Caerdydd/ACE yn gweithio ag ystod o ddarparwyr addysg i ehangu'r cyrsiau dysgu oedolion sy'n cael eu darparu'n lleol. Mae hyn yn cael ei ystyried i fod yn arbennig o bwysig gan fod nifer o aelodau'r gymuned yn profi rhwystrau sylweddol i fynediad at ddarpariaeth o ansawdd da y tu allan i'r ardal oherwydd anawsterau ariannol a symudedd. Mae'r prosiect wedi dod â Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Coleg Caerdydd a'r Fro a Dysgu yn y Gymdogaeth at ei gilydd ynghyd ag ystod o ddarparwyr llai i lunio cwricwlwm lleol. Mae'r ystod o gyfleoedd yn cynnwys cyrsiau ymgysylltu, Saesneg a Mathemateg Sylfaenol, TGAU a chyfres o gyrsiau galwedigaethol Lefel 4 byr sy'n achrededig gan sefydliadau Addysg Bellach. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ehangu mewn ffordd adweithiol a rhagweithiol.

Datblygu Llwybrau at Addysg Uwch a Chyflogaeth

Mae Cymunedau yn Gyntaf Gorllewin Caerdydd/ACE yn hwyluso prosiect a fydd yn datblygu cwricwlwm clir sy'n cael ei gefnogi gan ystod o ddarparwyr Addysg Uwch y mae pob un ohonynt yn cyfrannu cymwysterau sy'n arwain at goliau gyrfa. Mae rhywfaint o'r ddarpariaeth leol hon eisoes yn bodoli ond mae elfennau eraill yn cael eu datblygu er mwyn darparu cyfres o lwybrau addysgol sy'n arwain at y prif feysydd ar gyfer cyflogaeth a chyflogaeth grefftus. Prif flaenoriaeth yw datblygu llwybrau sydd wedi eu cynllunio i fod yn hygyrch i bawb, waeth beth yw eu cyrhaeddiad addysgol blaenorol. Bydd y cwricwlwm yn caniatáu i bobl leol gael y sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau sydd eu hangen i gynnal datblygiad addysgol sy'n arwain at gymwysterau proffesiynol sy'n cael eu cefnogi gan gyngor ac arweiniad priodol.

Tystiolaeth o Effaith

Cynyddodd y Ffederasiwn nifer y dysgwyr yn cofrestru o 25 yn 2012, i 130 yn 2013. Mae hyn yn cyfrannu at godi dyheadau a chyrhaeddiad addysgol Lefel 3 o fewn y gymuned. Erbyn Medi 2014 bydd y Ffederasiwn yn ehangu darpariaeth a disgwylir y bydd cyfanswm y dysgwyr fydd yn elwa yn cyrraedd 250.

Yn y cyfnod rhwng Mehefin 2013 ac Ionawr 2014 mae partneriaid wedi cyflwyno 40 o gyrsiau newydd sy'n cael eu darparu'n lleol o fewn Trelái, Caerau, Tyllgoed a

Phentrebaen. Gyda charfan gyfartalog o 12 dysgwr i bob rhaglen, mae'r cyrsiau hyn wedi ymgysylltu ag oddeutu 500 o drigolion. Bwriedir parhau'r duedd o weithio gyda darparwyr a dod â nifer o gyrsiau newydd i'r gymuned leol.

“Diolch i ACE a Cymunedau yn Gyntaf am y cwrs leuenctid a Gwaith Cymunedol a'r cymorth gyda gofal plant. Rwy'n siŵr y bydd yr holl ddysgu yma'n ddefnyddiol a gobeithio y bydd yn helpu gyda'r lleoliad gwaith gwirfoddol yr wyf yn mynd i'w wneud yn awr ac yn y dyfodol. Diolch i bawb. E.”

Mae E yn geisiwr lloches sy'n byw mewn hostel yn Nhrelái

Mae'r rhaglen dysgu oedolion seiliedig yn yr ysgol a'r gymuned ledled Trelái Caerau yn elfen allweddol i wella'r 'amgylchedd dysgu yn y cartref' er mwyn galluogi rhieni i gefnogi eu plant gyda'u dysgu ac i helpu i gau'r bwlch rhwng anfantais gymdeithasol a chyrhaeddiad.

“Rydym eisiau i rieni weld dysgu fel rhan o'u bywydau sy'n cael effaith arnyn nhw yn yr ystyr eu bod eisiau i'w plant gyflawni; mae ganddynt y modd wedyn i gefnogi dysgu eu plant eu hunain.”

Cydlunydd Dysgu Ysgolion a'r Gymuned

Datblygiadau i'r Dyfodol

Banc Amser - *Treulio amser, ennill credyd!*

Mae'r Ffederasiwn hefyd yn anelu at ehangu profiadau. Yn ddiweddar aeth grŵp o bobl ifanc wedi ymddieithrio oedd yn wynebu cael eu gwahardd ar daith bws i Lundain. Nid taith am ddim oedd hwn fodd bynnag, roedd y bobl ifanc a'r rhieni a aeth gyda nhw wedi talu gyda 'chredydau amser'.

Mae credydau amser yn arian cymunedol, gellir eu hennill trwy roi amser gwirfoddol i'r gymuned leol. Fel gwobr am yr amser hwnnw mae 1 awr o roi, helpu a gwasanaethu rhywun arall yn cyfateb i 1 credyd amser. Nid oes unrhyw werth ariannol i gredydau amser ond maen nhw'n galluogi gwirfoddolwyr i brynu amser gyda Phartneriaid Cymunedol sy'n cynnig gweithgareddau - e.e. bydd 1 credyd amser yn prynu awr i chi yn y ganolfan hamdden.

Gellir defnyddio credydau amser mewn detholiad o:

- ganolfannau chwarae, dringo, bowlïo a chanolfannau hamdden
- canolfannau harddwch a gwallt y coleg
- gerddi, parciau gwledig ac orielau
- gwyliau gwersylla a charafán
- sioeau theatr, cerdd a drama
- partïon, digwyddiadau a theithiau cymunedol

Gellir ennill credydau amser mewn amryw o ffyrdd, er enghraifft:

- Helpu plant i ddysgu
- Mentora
- Cynorthwyo mewn clwb gwaith cartref
- Plannu a chynnal gerddi
- Codi sbwriel
- Rhedeg digwyddiadau cymunedol

Ceir dau 'fanc amser'- banc amser yn yr ysgol, a banc amser cymunedol. Ethos y prosiect yw annog helpu eraill trwy wirfoddoli, ysbryd cymunedol a dinasyddiaeth weithgar. Mae'n helpu pobl sy'n byw mewn tlodi trwy eu galluogi i ennill amser i dalu am weithgareddau ac mae'n annog pobl ifanc i ennill a haeddu pethau yn hytrach na disgwyl cael pethau am ddim, gan gynyddu annibyniaeth a hunan barch.

Rhwng 2010 a 2012 cafodd peilot 2 flynedd o'r 'Banc Amser' ei gynnal. Mae'r peilot wedi dod i ben ac mae'r gwaith da yn parhau ond mae'r cynllun yn cael ei ailddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer lansiad newydd sbon. Yn dilyn ymgynghoriad ac ailwerthusiad gobeithir y bydd y cynllun newydd yn cynnwys credydau amser am dreulio amser yn adolygu ar gyfer TGAU ac felly'n creu ffordd newydd o godi dyheadau a chodi lefelau cyrhaeddiad.

Cyllid

Arddangosfa Ddysgu

- Grant Cymunedau yn Gyntaf i Ysgolion Bro - Ymgysylltu â Rhieni
- Cymunedau yn Gyntaf Gorllewin Caerdydd / ACE

Dragonfly - Gweithdai Rhieni/Plant Blwyddyn 7 - 'Super Start'

- Grant Cymunedau yn Gyntaf i Ysgolion Bro - Ymgysylltu â Rhieni
- Grant Amddifadedd Disgyblion
- Cymunedau yn Gyntaf Gorllewin Caerdydd / ACE

Prynhawniau Gweithgaredd Trosglwyddo i Deuluoedd

- Grant Amddifadedd Disgyblion
- Dysgu yn y Gymdogaeth
- Sefydliad Cymunedol Cymru

- Cymunedau yn Gyntaf Gorllewin Caerdydd / ACE

Datblygu Cyfleoedd Dysgu Ôl-16 ac Oedolion

- Menter Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru

Banc Amser

- Prosiect Arian Cymunedol ar Waith
- Rhaglen Interreg IVB NWE
- Y Gronfa Loteri Fawr

Crynodeb

Y neges allweddol o'r astudiaeth achos hon yw bod ymrwymo rhieni yn hanfodol er mwyn lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion.

Themau	Ffactorau penodol	<u>EC</u>
Arweinyddiaeth	Defnydd cadarn o ddata a hunan werthusiad	✓
Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach	Dialog gref gyda rhieni	✓✓
	Dysgu oedolion	✓
	Sefydlu a chynnal partneriaethau strategol	✓✓

Cyswllt Allweddol

Ruth McDonald

Cydlynnydd Ysgolion a Dysgu Cymunedol

Ffederasiwn Glyn Derw Llanfihangel ac ACE Cymunedau yn Gyntaf

Ffôn: 07583636371

ruthmc@elycaerau.com

12. Strategaeth a Chynllun Cyflawni Magu Plant Sir y Fflint

LLEIHAU EFFAITH TLODI AR GYRHAEDDIAD ADDYSGOL

ARSYLLFA POLISI ASTUDIAETH ACHOS 12

Enw'r Ysgol/Lleoliad: **Strategaeth a Chynllun Cyflawni Magu Plant Sir y Fflint**

Awdurdod Lleol: **Sir y Fflint**

Math o Ysgol/Lleoliad: **Cymunedol**

Cyfrwng Iaith: **Saesneg**

Canolbwynt yr Astudiaeth Achos

Cryfhau cysylltiadau gyda chymunedau, ymgysylltu â rhieni a theuluoedd

Mae Strategaeth a Chynllun Cyflawni Magu Plant Sir y Fflint yn is-grŵp aml-asantiaeth o'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol. Mae'r Bwrdd yn arwain y gwaith aml-asantiaeth sydd angen ei wneud mewn partneriaeth i gyflawni gwell deilliannau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Sir y Fflint. Mae Llywodraeth Cymru'n gofyn i bob Sir ddatblygu cynllun i nodi'r prif feysydd a chamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cyflawni gwell deilliannau i bob plentyn, person ifanc a theulu, fel rhan o Ddeddf Plant 2004 ac mae hefyd yn nodi'r angen i gael Cynllun Integredig Sengl. Mae Strategaeth a Chynllun Cyflawni Magu Plant Sir y Fflint yn cynorthwyo gweithio gyda rhieni trwy agwedd 'meddwl am y teulu'. Mae'r weledigaeth yn un ble mae gan rieni hyderus ddisgwyliaidau a dyheadau ar gyfer eu plant, a cheir gweithlu hyderus sy'n meddu ar y sgiliau, ansawdd a phrofiad i roi cymorth i blant a phobl ifanc gyflawni'r saith nod craidd a nodir yng Nghynllun Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc 2011-2014⁷⁵. Mae Strategaeth a Chynllun Cyflawni Magu Plant Sir y Fflint yn cynnwys '5 Maes Allweddol'.

Meysydd Allweddol

1. **Magu Plant - Codi'r proffil a chyfranogiad rhieni.**
2. **Teuluoedd yn derbyn yr wybodaeth, cyngor, cyfarwyddyd neu gymorth sydd ei angen arnynt.**
3. **Sgiliau magu plant a dysgu fel teulu**
4. **Rhieni, addysg a'r lleoliad ysgol.**
5. **Mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi gyda chymhwysedd proffesiynol ac ymarfer moesegol.**

⁷⁵ Flintshire in Partnership

Mae'r 5 maes allweddol yn pontio'r holl ddarpariaeth addysgol, cyn-ysgol – ysgol gynradd – ysgol uwchradd – ysgol arbennig – a dysgu seiliedig ar y teulu. Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar ddau ddarparwr dysgu seiliedig ar y teulu mewn ysgolion cynradd ac mae'n nodi datblygiadau un ysgol arbennig ar gyfer y dyfodol wrth iddi roi'r strategaeth magu plant a'r cynllun cyflawni ar waith.

Ymyriadau Teuluol Sir y Fflint Ar Waith

Mae mentrau allweddol yn digwydd yn barhaol yn Sir y Fflint:

- Dysgu fel Teulu trwy gyllid Llywodraeth Cymru o fewn amgylchedd yr ysgol, trwy'r Awdurdod Addysg Lleol.
- Rhaglenni magu plant y'n cael eu darparu'n lleol gyda Dechrau'n Deg⁷⁶, i gynorthwyo gyda throsglwyddo i'r ysgol, wedi ei gyllido trwy Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf⁷⁷ a'r ysgol.
- Recriwtio Gweithwyr Teuluol; wedi eu cyllido trwy gais ar y cyd gan Cymunedau yn Gyntaf⁷⁸ a'r Grant Amddifadedd Disgyblion, o fewn y consortia ysgol.
- Ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynorthwyo gweithio gyda rhieni, a rhyddhau aelodau staff i dderbyn hyfforddiant, cymwysterau a goruchwyliaeth wrth weithio gyda rhieni a theuluoedd, ac i baratoi a chyflenwi sesiynau, ynghyd ag amser ar gyfer ymgysylltu effeithiol ac adeiladu perthynas rhwng gweithiwr a rhiant, a'r plentyn-rhiant-gweithiwr, wedi ei gyllido trwy Teuluoedd yn Gyntaf a chyllid ysgol.

Astudiaeth Achos Lleoliadau⁷⁹

Ysgol Merllyn, Bagillt

Mae Ysgol Merllyn yn ysgol cyfrwng Saesneg ym Magillt, hanner ffordd rhwng Treffynnon a Fflint. Mae ymron yr holl ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn dod o bentref Bagillt, sydd yn ardal o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd sylweddol. Mae oddeutu 24% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (PYADd), sydd yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol ledled Cymru⁸⁰. Yn y blynyddoedd diweddar mae'r ardal wedi gweld cynnydd yn aelodau'r gymuned Bwylaidd ac mae'r ysgol bellach yn disgrifio ei dalgylch fel "cymysg".

⁷⁶ Adolygiad o Gymorth Rhianta i Dechrau'n Deg <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/parenting-support-for-flying-start/?lang=en>

⁷⁷ Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi ei gynllunio i wella deilliannau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'n pwysleisio ataliad ac ymyriad cynnar i deuluoedd, yn arbennig rhai sy'n byw mewn tldi. <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/familiesfirst/?lang=en>

⁷⁸ Mae Cymunedau'n Gyntaf yn anelu at gyfrannu, ochr yn ochr â rhaglenni eraill, at leihau'r bwlch addysg/sgiliau/economaidd ac iechyd rhwng ein hardaloedd mwyaf difreintiedig a'n hardaloedd mwy cefnog. <http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/regeneration/communitiesfirst/?lang=en>

⁷⁹ Sampl fechan o waith yr ymgymeryd ag ef

⁸⁰ Adroddiad Arolwg Ysgol Estyn 2012

Pan ddechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd dros 2 flynedd yn ôl fe sylweddolodd, er bod yr ysgol yn cynnig rhaglenni dysgu fel teulu a magu plant, bod ymgysylltiad â rhieni'n gyfyngedig. Roedd hi'n gwybod bod yna rieni yr oedd hi eu heisiau, ac angen siarad gyda nhw, ac yna aeth ati i ganfod ffyrdd i gynnwys y rhieni hyn ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd.

Penderfynodd yr ysgol fynd i lawr y 'llwybr meithrin' a sefydlu lleoliad mynediad agored trwy ddefnyddio ystafell ddosbarth gyda drws y gellid ei agor yn uniongyrchol i'r iard chwarae o flaen yr ysgol gan gynnig mynediad hawdd a hwylus i ymwelwyr. Cafodd yr ystafell ddosbarth ei thrawsnewid yn llwyr ac mae bellach yn fan cyfarfod lliwgar, croesawus a chyfforddus. Mae adnoddau gwneud te a choffi yno, ardal chwarae a chymysgedd o ddodrefn yn cynnwys soffas a chadeiriau esmwyth ar gyfer sgysiau anffurfiol a byrddau a chadeiriau yn ôl yr angen ar gyfer gwaith desg.

I ddechrau aeth y tîm ati i dargedu rhieni meithrin trwy agor y drysau bob bore Gwener; dechreuwyd gyda'r grŵp hwn am fod y tîm yn teimlo y bydd arferion da sy'n cael eu ffurfio yn y cyfnod meithrin yn parhau trwy gydol amser y plentyn yn yr ysgol. Yn dilyn llwyddiant y grŵp mae'r ysgol bellach wedi cyflwyno hyn i grwpiau blynyddoedd eraill ac wedi penodi Gweithiwr Cyswllt Teuluol sy'n gweithio o'r ysgol, sydd wedi esblygu o anghenion y rhieni.

“Y rhieni sy'n arwain, rydym eisiau deall beth maen nhw ei angen gan yr ysgol, rydym eisiau gwybod beth allwn ni ei wneud iddyn nhw, er enghraifft, yr wythnos nesaf cafodd y rhieni'r syniad eu bod eisiau arsylwi grŵp ffoneg.”

Swyddog Cyswllt Teuluol

Mae'r pennaeth yn awgrymu bod safonau'n cael eu codi yn yr ysgol trwy ddangos arfer gorau i rieni a dangos iddyn nhw'r ffordd orau o annog dysgu gartref. Mae hyn yn cael ei wneud trwy wahodd rhieni i arsylwi sesiwn dysgu ar waith. Nid yw ymarferwyr yn dweud wrth rieni beth i'w wneud yn ystod sesiynau, maen nhw'n caniatáu iddyn nhw ymrwmo ar eu cyflymder a'u lefel cyffordduswydd eu hunain, trwy wyllo, holi cwestiynau, neu roi cynnig arni eu hunain.

Mae rhieni wedi nodi nad oedden nhw'n sylweddoli pan fyddan nhw'n siarad â'u plentyn bod angen iddynt ymlacio a gadael iddyn nhw arwain y sgwrs ac yna adeiladu rhywbeth gyda'i gilydd yn hytrach na rhoi cyfarwyddiadau iddyn nhw trwy'r amser.

“Rydym yn rhoi grym i rieni, nid ydym yn bod yn rhagnodol, nid oes rheolau gosodedig i'w dilyn, rydym yn rhoi'r hyder i rieni fod yn esiampl i'w plant.”

Pennaeth

“Dydw i ddim o'r ardal hon a doeddwn i ddim yn adnabod dim o'r rhieni eraill cyn i mi ddod yma, mae wedi gwneud i mi ymlacio mwy o amgylch y rhieni eraill. Cefais fy mod yn gallu mynd at yr athro oedd yn golygu fy mod yn gallu

teimlo'n gyfforddus i ofyn sut y gallwn i helpu fy mab i ddod yn ei flaen , mae wedi gwneud i mi fod eisiau hyfforddi fel cynorthwydd addysgu."

Rhiant

Mae'r pennaeth yn nodi bod yr effaith wedi bod yn amlwg ar y plant, mae mwy o barodrwydd ymysg rhieni a phlant i fod eisiau ymwneud â'r ysgol ac mae presenoldeb wedi cynyddu. Yn ogystal ag annog dysgu ceir cymorth hefyd gydag ymddygiad, lles a chyfarfodydd 'Tîm o Amgylch y Teulu'⁸¹. Nid yw rhieni'n ofni gofyn am help:

"Roedd un rhiant yn nerfus iawn, ni fyddau wedi mynd i'r cyfarfod hebof i, mae'n gallu bod yn llethol."

Swyddog Cyswllt Teuluol

Bydd y Gweithiwr Cyswllt Teuluol hefyd yn cyfeirio at wasanaethau eraill trwy "Becyn Cymorth i'r Teulu Sir y Fflint" sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau, gwybodaeth a chysylltiadau pellach ar gyfer cael y cyngor a'r cymorth priodol. Mae nifer o ymwelwyr â'r ysgol yn gwneud sylwadau ar ei hamgylchedd cefnogol a'r perthnasau agored ymysg staff.

"Rwy'n teimlo fy mod wedi newid cenhedlaeth... doeddech chi ond yn gweld y pennaeth os oedd cwyn wedi ei wneud neu os oedd plant mewn trwbl. Pan oeddwn i yn yr ysgol, dwi ddim yn credu bod fy mam wedi cwrdd ag unrhyw un o'r athrawon, roedd gwahanfa fawr, roedd ganddyn nhw ofn yr athrawon."

Llywodraethwr

"Roeddwn i'n casáu ysgol; roeddwn yn cael fy rheoli'n llym iawn a doedd dim ymlacio i fod, fe wnaethom ni dreulio mwy o amser ddim yn gwrando. Rwy'n meddwl y byddaf yn drist iawn os fydd fy mab yn mynd trwy hynny. Nid wyf eisiau iddo fynd trwy hynny. Rwyf eisiau iddo allu siarad yn rhydd a siarad gyda mi a'i athrawon os oes ganddo unrhyw problem."

Rhiant

Wrth symud ymlaen mae'r ysgol wedi penderfynu defnyddio rhywfaint o'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) i fuddsoddi mewn Rhaglen FAST (Families and Schools Together / Teuluoedd ac Ysgolion Gyda'i Gilydd, Achub y Plant).⁸² Mae'r tîm wrthi'n sefydlu ei adnoddau ac yn creu basged am ddim ar gyfer pob teulu sy'n cymryd rhan, sy'n cynnwys pethau fel offer coginio a ffedog, offer DIY e.e. torch, gemau, teganau a llyfrau. Mae nifer o'r rhieni o'r 'Boreau Agored' wedi holi ynghylch dod yn wirfoddolwyr yn cynnwys y rheini o'r gymuned Bwylaidd a fyddai'n hoffi gweithredu fel cyfieithwyr.

⁸¹ Mae'r 'Tîm o amgylch y Teulu' yn gallu cynnig cyngor, cymorth a chefnogaeth wrth ddod â'r bobl iawn at ei gilydd i helpu. <http://flvc.org.uk/wellbeing/team-around-the-family/>

⁸² <http://www.savethechildren.org.uk/about-us/where-we-work/united-kingdom/fast>

“Holais am waith gwirfoddoli achos roeddwn eisiau cymryd rhan. Mae fy nghyfathrebu a’m hyder wedi cynyddu o fewn ychydig o wythnosau. Rwyf nawr yn aelod hyfforddedig o’r Tîm FAST. Roedd hi’n ddiddorol iawn cael gwybod am y gwahanol feysydd yn y gymuned ac mae wedi agor fy llygaid i’r holl swyddi mae pobl yn eu gwneud yma. Dydw i erioed wedi bod mor hyderus a hapus ag yr wyf i’n awr.”

Rhiant

Ysgol Cae’r Nant, Cei Cona

Adeiladwyd Ysgol Cae’r Nant yn 2012 at ddiben cyfuno Ysgol Babanod Heol Dyfrdwy ac Ysgol Gynradd Lôn y Tollty. Mae’r ysgol yng Nghei Cona, tref fawr yng ngogledd ddwyrain diwydiannol Sir y Fflint. Agorodd yr ysgol ym Medi 2012 ac ar hyn o bryd mae hi’n gwasanaethu 351 o ddisgyblion 3-i-11 oed. Mae’r ysgol yn addysgu trwy gyfrwng y Saesneg. Mae oddeutu 19% o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim (PYADd)⁸³.

Mae staff yn yr ysgol wedi sefydlu a datblygu Rhaglen Dysgu fel Teulu. Bob dydd Gwener maen nhw’n cynnig cymorth ychwanegol trwy agor eu drysau i’r holl rieni a darparu cyswllt uniongyrchol gyda dysgu trwy sesiynau seiliedig ar weithdy.

“Fe wnaethom geisio targedu rhieni ond roedden nhw’n teimlo eu bod yn cael eu dewis yn unigol felly fe wnaethom ei agor i’r holl rieni. Rydym wedi canfod bod gallu cymysg o fewn grŵp felly maen nhw wedi ffurfio eu rhwydwaith cymorth eu hunain.”

Arweinydd Dysgu fel Teulu

Nid oes angen cadw lle ac mae’r ysgol yn cynnig crèche am ddim. Mae hwn wedi cael ei ddatblygu trwy gysylltiadau gyda choleg lleol ble mae myfyrwyr yn gallu dod i’r ysgol a chael profiad uniongyrchol yn edrych ar ôl plant tra y bydd rhieni’n cymryd rhan yn y gweithdai.

Ceir dewislen o weithdai cyrsiau dysgu ac mae 1 cwrs yn rhedeg ar y tro ac yn parhau am 6-i-7 wythnos.

- Chatterbox- Cyfnod Sylfaen Iaith a Chwarae a Rhif a Chwarae - Meithrin
- Chatterbox Plus Llythrennedd- Derbyn i Flwyddyn 6
- Chatterbox Plus Rhifedd - Derbyn i Flwyddyn 6
- Blynyddoedd Rhyfeddol - Bob Blwyddyn Ysgol

Mae plant yn chwarae rhan fawr yn y sesiynau ac yn mwynhau gweithio gyda mam a dad a gofalwyr eraill bob wythnos.

⁸³ Fy Ysgol Leol

“Cawsom ei bod yn anodd iawn i gael rhieni i ymgysylltu â'i gilydd i ymarfer dysgu felly fe ddaethom â'r plant i'r gweithdy er mwyn i ni allu gweld y rhyngweithio rhwng rhiant a phlentyn.”

Arweinydd Dysgu fel Teulu

Mae fformat y gweithdy'n dilyn trefn osodedig er mwyn i rieni deimlo'n gyfforddus a gwybod yn union beth i'w ddisgwyl.

- Te a choffi
- Dechrau sesiwn, trafod disgwyliadau
- Rhedeg trwy'r sleids neu luniau - siarad am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn y dosbarth yr wythnos honno a sut mae'r plant wedi bod yn dysgu
- Plant yn ymuno â'r grŵp; dangos beth maen nhw wedi ei ddysgu ac athrawon yn dangos beth sy'n digwydd
- Gosod y neuadd fel ystafell ddosbarth gyda "parthau" dynodedig
- Rhieni a phlant yn symud o amgylch y "parthau" ac yn cael eu hamseru am 10 munud ym mhob un i gydweithio yn gwneud gweithgareddau rhyngweithiol, difyr
- Amser hwyl wrth ganu
- Plant yn mynd yn ôl i'r dosbarth
- Sesiwn lawn rhyngweithiol gyda rhieni - holi cwestiynau a datblygu dealltwriaeth
- Cwblhau gwerthusiad a dyddiaduron dysgu

Tystiolaeth o Effaith- Stori rhiant

Mae rhiant i bedwar o blant yn cael cynnig mynychu Rhaglen Magu Plant Blynyddoedd Rhyfeddol⁸⁴ sy'n cael ei ddarparu gan Dechrau'n Deg. Ar ôl llawer o anogaeth mae hi'n mynychu ac o ganlyniad mae hyn yn gwella ei hyder ac yn atgyfnerthu ei gallu i fynychu'r Grŵp Dysgu fel Teulu yn ysgol gynradd ei phlant. Yma mae hi'n cael cynnig y Rhaglen Blynyddoedd Rhyfeddol Parodrwydd ar gyfer Ysgol, a sesiynau eraill magu plant, sy'n gymorth iddi hi a'i phlant gyda llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn rhoi cyfle iddi ddatblygu ei sgiliau magu plant a dealltwriaeth o ba mor bwysig yw hi fod ei phlant yn bresennol yn yr ysgol, wedi ei ddatblygu trwy berthnasau a phartneriaeth barchus gyda'r rhiant.

Trwy hyn mae hi'n dechrau ceisio cymorth a chefnogaeth gyda'i magu plant a phroblemau eraill y mae angen iddi eu datrys er mwyn ei helpu i gael gwaith. Gan fod y gweithwyr wedi ymgymryd â'u cymhwyster 'Gweithio gyda Rhieni', maen nhw'n

⁸⁴ <http://incredibleyears.com/programs/parent/>

gallu rhoi'r wybodaeth i'r rhieni mewn ffordd sy'n eu grymuso sy'n cwrdd â'r egwyddorion a gwerthoedd sydd ynghlwm â gweithio gyda rhieni, yn ôl y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gweithio gyda Rhieni⁸⁵, ac felly cynigir cyngor mewn ffordd empathetig. Mae'r rhiant hefyd yn trafod ei phlentyn hŷn sydd yn yr ysgol uwchradd. Oherwydd bod gan yr ysgol gynradd ac uwchradd weithiwr teuluol pwrpasol maen nhw'n gallu cyfeirio'r rhiant at y gwasanaeth hwn ac mae hi'n gallu derbyn cymorth pellach, gan wybod nad yw'n mynd i gael ei beirniadu am ofyn am gymorth.

Mae'r rhiant yn cael ei hysbrydoli i barhau i ddysgu ac mae'n gwneud cais am le ar gwrs gofal cymdeithasol addysg uwch yn y coleg lleol. Mae hi'n cael cynnig lle am ei bod wedi gallu dangos dysgu fel oedolyn, wedi gosod goliau iddi ei hun ac yn datgan ei bod yn gwybod y bydd hyn yn gymorth i gynnal ei theulu'n well. Mae'r rhiant yn parhau gyda'i hastudiaethau ac yn cael swydd, ac yn gallu prynu cartref i'r teulu. Mae perthnasau yn y cartref yn gwella, ac o ganlyniad mae lles y rhieni a'r plant yn gwella hefyd.

Datblygu Ymarfer i'r Dyfodol - Ysgol Pen Coch

Mae Ysgol Pen Coch yn Fflint yn ysgol arbennig gydaddysgol i hyd at 104 o ddisgyblion 2-11 oed. Mae gan ddisgyblion yn Ysgol Pen Coch ystod eang o anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys anghenion cymedrol, difrifol a dwys, ac anawsterau dysgu lluosog, anawsterau dysgu penodol ac anhwylderau ar y sbectwm awtistig. Mae gan ychydig o ddisgyblion namau synhwyraidd ychwanegol ac anawsterau cyfathrebu. Mae oddeutu un rhan o dair o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.⁸⁶

Mae staff yn Ysgol Pen Coch wedi buddsoddi yn y rhaglenni 'Blynyddoedd Rhyfeddol'⁸⁷. Mae'r ysgol wedi gwneud 'Dinosaur Social Skills and Problem Solving Curriculum' yn sail i'w arfer bob dydd. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys defnyddio nifer o bypedau, Dina Dragon, Wally a Molly Pupils, a Tiny Turtle. Yr amcanion yw:

- Hybu sgiliau cymdeithasol, hunanreolaeth ac ymddygiad plant yn y dosbarth
- Gwneud ffrindiau a dysgu rheolau ysgol
- Deall enghreifftiau o deimladau
- Wally'n addysgu camau datrys problemau
- Tiny Turtle yn addysgu sut i hunan-reoli a rheoli dicter
- Dina'n addysgu sut i wneud dy orau yn yr ysgol (e.e., cydweithredu, gwrando, llaw i fyny'n dawel, aros-edrych-meddwl-gwirio)

⁸⁵ <http://www.childreninwales.org.uk/areasofwork/parenting/nationaloccstandards/index.html>

⁸⁶ Data ysgol

⁸⁷ <http://incredibleyears.com/>

- Molly'n dysgu sut i fod yn gyfeillgar (aros, rhannu, helpu, cymryd tro, gwaith tîm)
- Molly'n egluro sut i siarad â ffrindiau (awgrymiadau, ymddiheuro, clodfori, maddeuant)

Mae gan Fideo Taith Rithwir Pen Coch enghreifftiau o'r rhaglen ar waith.

<http://moodle.flintshire.gov.uk/pencoch/course/view.php?id=265>

Mae'r ysgol yn awr yn buddsoddi rhywfaint o'i Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn y 'Rhaglenni Blynnyddoedd Rhyfeddol' i annog rhieni i ddatblygu gwydnwch a synnwyr cyfrifoldeb eu plant, a chefnogi eu plant gyda'u dysgu.

Datblygiadau Eraill i'r Dyfodol

Mae grŵp aml-asiantaeth yn goruchwyllo gwaith datblygu'r Rhaglenni Magu Plant, ac mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng y Strategaeth Magu Plant, Dechrau'n Deg a Dysgu fel Teulu i gynnal cysylltiadau, cryfhau cydlynid a lleihau dyblygu o fewn ysgolion.

Mae 'Grŵp Iechyd a Lles Ysgol' wedi cael ei ffurfio sy'n cefnogi'r datblygiadau hyn o fewn lleoliadau addysg yn cynnwys Hawl Bore Oes at Ysgolion Uwchradd a darpariaeth amgen. Bydd ehangu Dechrau'n Deg yn parhau ac mae cyllid Teuluoedd yn Gyntaf wedi ei ddyfarnu ar gyfer y flwyddyn nesaf 2014-15 i barhau i gryfhau a datblygu'r gwaith gyda rhieni'r glasoed.

Bydd y Grŵp Strategaeth hefyd yn parhau i gynnig y cymhwyster City and Guilds 3599 Gweithio gyda Rhieni i staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda rhieni a phlant. A pharhau i ganfod ymchwil effaith a rhoi'r ymchwil honno ar waith yn lleol.

Cyllid

- Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Dysgu Teuluol.
- Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer hyfforddi mewn rhaglenni magu plant a chynnig gwaith gyda chymwysterau rhieni.
- Cyllid Dechrau'n Deg ar gyfer hyfforddiant Blynnyddoedd Rhyfeddol Baban, Plentyn Bach, Sylfaenol Cyn-ysgol, Parodrwydd ar gyfer Ysgol a'r Pos Magu Plant.
- Grant Gofal Cymdeithasol ar gyfer hyfforddiant Blynnyddoedd Rhyfeddol Baban, Plentyn Bach, Sylfaenol Cyn-ysgol, Parodrwydd ar gyfer Ysgol a'r Pos Magu Plant Cysylltiadau Teuluol.
- Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i gynorthwyo staff ysgol i gynnig cymorth magu plant i rieni'r glasoed, cynnig hyfforddiant

Blynyddoedd Heriol a hyfforddiant Take 3 a goruchwyliaeth a mentora priodol.

- Grant Gofal Cymdeithasol i gynorthwyo rhai lleoliadau hyfforddi (gan nad yw lleoliadau wedi eu cyllido gan Lywodraeth Cymru ar gael bellach i bob ardal awdurdod – mae hyn wedi cael ei ddyblygu gan y Grant Gofal Cymdeithasol ac wedi ei ymestyn i raglen bellach i gael ei chynnig yn lleol).

Crynodeb

Y neges allweddol o'r astudiaeth achos hon yw bod partneriaethau strategol effeithiol gyda rhieni a'r gymuned ehangach yn cyfrannu'n sylweddol at leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion.

Themau	Ffactorau penodol	FP
Arweinyddiaeth	Hyfforddi a threfnu staff yn cynnwys arbenigwyr	✓
Addysgu a Dysgu	Rhaglenni lles ac ymddygiad ar gyfer dysgu yn cynnwys canolbwyntio ar bresenoldeb, gwrando ar ddysgwyr ac adeiladu hunan barch	✓
Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach	Dialog gref gyda rhieni	✓✓
	Dysgu oedolion	✓
	Sefydlu a chynnal partneriaethau strategol	✓✓

Cyswllt Allweddol

Gail Bennett

Cydlynnydd Strategaeth Magu Plant Sir y Fflint

Gwasanaethau Plant Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i'r Teulu

Canolfan Westwood

Stryd Tabernacl

Bwcle

Sir y Fflint

CH7 2JT

Ffôn (01244) 551140

Gail_Bennett@flintshire.gov.uk